RHYBUDD O GYFARFOD

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth
Gwynedd LL48 6LF
Ffôn: (01766) 770274
E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod:	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
Dyddiad:	Dydd Mercher 22 Mawrth 2023
Amser:	10.00 y.b.
Man Cyfarfod:	Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd
Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd.

RHIF TUDALEN

R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

2. **Datgan diddordeb**
Derbyn datganiadau diddordeb gan yr Aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. 3 - 8

4. **Taflen Gweithredu**
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) 9 - 10

5. **Diweddariad Gyllideb 2022/23**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) 11 - 20

6. **Proffil Risg yr Awdurdod**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) 21 - 32

7. **Strategaeth Hybu'r Gymraeg**
Cyflwyno adroddiad gan y pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) 33 - 66

8. **Rhyddid Gwybodaeth**
Cyflwyno adroddiad gan y pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) 67 - 68

9. **Adroddiad Blynyddol 2022: Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Ymgysylltu. (Copi yma) 69 - 113

10. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**
Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022 a 8 Chwefror 2023. (Copiiau yma) 114 - 120

11. **Adroddiad Cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau**
Cyflwyno adroddiad cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022. (Copi yma) 121 - 123

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 30 TACHWEDD 2022

Cynghorydd Elfed Powell Roberts (Gwynedd) (Cadeirydd)

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Jo Nuttall;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms Delyth Lloyd;

Swyddogion
Mr. Emyr Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. B. Hughes, Mr. David Williams, Ms. Nia Murray, Mrs. Awel Gruffydd, Mr. Rhys Owen, Mrs. A. Gaffey;

Ymddiheuriadau
Y Cynghorwyr Louise Hughes, Ifor Glyn Lloyd.

Datganodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo gyda gwirio'r cofnodion.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Croesawodd y Cadeirydd staff ac aelodau i gyfarfod Hybrid cyntaf yr Awdurdod.

2. **Datgan Budd**
Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
Cafodd cofnodion y cyfarfod Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022 eu derbyn ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Log Gweithredu**
Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu, er gwybodaeth.

5. **Adroddiad Diweddaru ar Gyllid Grant Allanol**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar brosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod ac i gadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd fanylion pellach er budd yr Aelodau a benodwyd ar yr Awdurdod yn ddiweddar.

Dywedodd nad yw pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn elwa o allu cyflawni prosiectau drwy ddefnyddio cyllid grant allanol ac awgrymodd y dylai'r Aelodau gadw copi o'r adroddiad at ddibenion cyfeirio ato, oherwydd fe ofynnir iddynt gwblhau holiadur fel rhan o arolwg gan Archwilio Cymru yn ystod y mis neu ddau nesaf. Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu â'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol os oedd angen eglurhad pellach arnynt ar unrhyw fater.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gwestiwn ar broffil gwariant a blynyddoedd proffil Prosiect LIFE Coedwig Glaw Celtaidd Cymru, sicrhaodd y Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth yr Aelodau fod y prosiect yn cynnwys elfen gost uchel dros y tair blynedd gyntaf a'i fod wedi'i reoleiddio'n gadarn iawn gan y Monitrydd Ewropeaidd, a oedd yn fodlon i'r Awdurdod wneud cais am estyniad 2 flynedd yn yr wythnos nesaf i 10 diwrnod.
- mewn ymateb i gais gan Aelod, cytunodd y Prif Weithredwr i ddiwygio Atodiad 2 i ddarparu gosodiad mwy strategol yn y dyfodol.
- Bu'r Aelodau a'r swyddogion yn trafod cymhlethdodau sicrhau cytundebau rheoli ymhellach gyda nifer o dirfeddianwyr preifat. Cadarnhaodd swyddogion fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru eu cyllid eu hunain a all hefyd ychwanegu gwerth at waith yr Awdurdod.
- Atodiad 2 - eitem 14 Datgarboneiddio - awgrymodd Aelod y gellid adolygu hyn ar ôl i'r Grŵp Strategaeth Garbon adrodd ac awgrymu y gellid ariannu lleihau a hyrwyddo carbon drwy'r mecanwaith hwn yn y dyfodol. Hefyd, gallai casglu data ar effaith newid hinsawdd o fewn y Parc Cenedlaethol ei hun gael ei gyflwyno mewn ffordd fwy ystyrlon, a gallai gynorthwyo ystyriaethau strategol ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r prosiectau a ariannwyd gan gyfalaf 2022 – 2025.**
2. **nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).**
3. **cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).**
4. **nodi'r Siart Llif Cymeradwyo Aelodau (Atodiad 3).**

6. **Craffu Strategol ar gyfer 2023-24**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau nodi'r adroddiad ac i ystyried meysydd craffu pellach ar gyfer 2023-24 yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Dywedodd fod rhaglen graffu ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael ei chytuno'n flynyddol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bob mis Tachwedd. Eleni, mae'r Tîm Rheoli, ar ôl ystyried y pwysau presennol ar staff, yn argymell na ddylai'r Awdurdod ymrwymo i raglen bellach o graffu strategol ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r adroddiad a'r rôl graffu barhaus sy'n parhau mewn perthynas â Charbon ac Enwau Lleoedd.**
2. **ystyried meysydd craffu pellach yn y flwyddyn ariannol nesaf.**

7. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2022-23**

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer chwarter cyntaf ac ail chwarter (Ebrill – Medi) y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol a gofynnodd i'r Aelodau nodi bod yr Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â'r targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- **Amgylcheddau Cydnerth**
  Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn Natur
  Cadarnhaodd y swyddogion eu bod yn dal i aros am gadarnhad ynghylch cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru dros y 3 blynedd nesaf i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer adfer natur yn Eryri. Cadarnhaodd y Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth fod gwaith cyfalaf yn parhau, er ei fod yn dibynnu ar gyllid yn y dyfodol a materion capasiti yn yr adran. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Swyddog Strategol Adfer Natur ac Atafaelu Carbon newydd ei phenodi hefyd yn cyfrannu at y gwaith hwn.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr, yn dilyn cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar y plymio dwfn arfaethedig i'r dirywiad mewn natur, fod y teulu o Dirweddau Gwarchodedig wedi ysgrifennu at Leslie Griffiths AS. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n ystyried defnyddio swyddogion fel hwyluswyr yn y cynllun newydd i gydgysylltu camau gweithredu ar draws nifer o ddeiliaid cytundebau i gefnogi tirweddau gwarchodedig.
- **Ffyrdd Cydnerth o Weithio**
  Moderneiddio Trefniadau Llywodraethu
  Mewn ymateb i gwestiwn ar ddatblygu Aelodau, dywedodd y Prif Weithredwr fod penodiadau wedi'u gwneud i'r tair swydd Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, y bydd un ohonynt yn mynd i'r afael â Chynhwysiant, Amrywiaeth a Rhagoriaeth Llywodraethu sy'n cynnwys datblygu Aelodau ac sy'n cael ei chynnal gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu yn cael ei sefydlu, a phapur trafod yn cael ei gyflwyno i Weithgor yr Aelodau yn gynnar yn 2023. Dywedodd hefyd fod sesiynau sefydlu aelodau newydd wedi'u cynnal, a bod Cwrs Sefydlu Aelodau Newydd y DU wedi'i gynnal yn Northumberland ym mis Tachwedd, er nad oedd aelodau newydd o Eryri wedi gallu bod yn bresennol y tro hwn. Roedd Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn cael ei threfnu a'i chynnal gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mis Mai 2023 ac mae'r Awdurdod hefyd wedi penodi Sarah Hattle i gynorthwyo gyda Mentora Aelodau.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

8. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 20 21/22. Mewn ymateb i gwestiwn, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod yr Awdurdod yn parhau i weithio yn unol â'i Ddatganiad Llesiant 2021-2026.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 20 20 21/22 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

9. **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6**
Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022
Cyflwynwyd – Adroddiad drafft gan Dafydd Roberts, Uwch Ecolegydd.
Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth yr adroddiad ar ran yr Uwch Ecolegydd nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Diolchodd yr aelodau i'r Uwch Ecolegydd am ei adroddiad rhagorol a oedd yn gryno ac yn glir.
- mewn ymateb i gwestiwn ar y gwaith llwybrau troed ar SoDdGA Cors Geuallt, cadarnhaodd y Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth fod swyddogion yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar bob achlysur a bod yr Awdurdod wedi dysgu addasu ei arferion a'i weithdrefnau dros amser. Roedd swyddogion yn ymwybodol o'u dyletswydd i hyfforddi'r timau llwybrau troed a'r angen i dynhau'r gofynion ar gyfer contractwyr allanol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Pennaeth y Gwasanaeth Wardeiniaid yn paratoi adroddiad a fydd yn amlinellu egwyddorion ar gyfer uwchraddio llwybrau troed yn y dyfodol ac yn cynnwys rhesymau pam ac ar gyfer pwy yr oedd yr Awdurdod yn gwneud y gwaith. Cadarnhaodd hefyd nad oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y llwybr ceffyl gan fod yr Awdurdod yn gwneud gwaith llwybrau troed o dan bwerau awdurdod priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion dor-rheolaeth cynllunio sy'n cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth ac a oedd hyn yn rhywbeth y dylai'r Aelodau ganolbwyntio arno. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod cefnogaeth gadarnhaol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cyhoeddi cyfarwyddeb i'r awdurdodau cynllunio i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth ar gyfer pob datblygiad. Yn anffodus, oherwydd nad oes unrhyw arweiniad o gwbl, mae hyn wedi creu mwy o gymhlethdodau wrth i awdurdodau unigol ymdrin â’r gyfarwyddeb mewn ffordd wahanol. Mae'r Awdurdod yn parhau i aros am yr arweiniad ac yn y cyfamser, mae swyddogion yn tynnu sylw'r datblygwyr at yr angen i ymgorffori mesurau gwella bioamrywiaeth yn eu cynigion fel amod cynllunio. Nododd Aelod bryderon, pe na bai amodau cynllunio’n cael eu dilyn i fyny, nad oedd unrhyw sancsiynau, ac mae hynny’n tanseilio’r broses gyfan. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, er bod gan yr Awdurdod y pwerau, roedd y gostyngiad mewn lefelau staffio yn y gwasanaeth cydymffurfio yn golygu nad oedd y gwaith monitro angenrheidiol yn cael ei wneud.
- Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y dystiolaeth oedd ar gael trwy ERAMMP a Cofnod ac a oeddent yn ddigonol at ddibenion yr Awdurdod. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn nad oedd ERAMMP yn cyflawni fel y dylai, am ei fod yn ceisio edrych ymlaen, a bod system Cofnod yn dda ond yn dibynnu ar ansawdd y casglu data. Dywedodd y Pennaeth Cadwraeth, Coedlannau ac Amaethyddiaeth fod ERAMMP newydd gael ei ail gontract a'r gobaith oedd y byddai'n gallu dangos y cynnydd a’r dirywiad a darparu llinell sylfaen well wrth symud ymlaen. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod gan ddelweddau lloeren newydd Cymru Fyw'r potensial i fod yn ffordd fwy cadarn o edrych ar dor-rheolaeth a newidiadau cynnil mewn defnydd tir dros amser. Nododd yr Aelodau fod yr Awdurdod yn elwa o gael swyddogion gyda'r sgiliau angenrheidiol i ddehongli'r data, nad ydynt efallai ar gael i dirweddau dynodedig eraill ar hyn o bryd.
- dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y defnydd o dechnoleg yn newid yn gyflym dros y 5 mlynedd nesaf gyda systemau meddalwedd fel google analytics yn gallu darparu gwybodaeth amser real ar unrhyw dirwedd, a fydd yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn rheoli ac yn ychwanegu gwerth ar gyfer y dyfodol.

- Trafododd yr aelodau ymhellach y posibilrwydd o gasglu data gylfinirod gan y gymuned, a rheolaeth rhododendron ar dir sy'n ddarostyngedig i gytundebau organig.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

10. **Adroddiad Monitro Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i gynghori'r Aelodau ar faterion Iechyd a Diogelwch o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- roedd Aelod yn pryderu nad oedd data cymhariaeth wedi'i gynnwys ac y dylai'r adroddiad ddarparu mwy o wybodaeth fonitro. Eglurodd y Pennaeth Adnoddau Dynol nad oedd y data'n ddigonol i'w gynnwys yn yr adroddiad a chytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y data a oedd ar gael wedi bod yn anodd ei ddehongli. Dywedodd fod y wybodaeth yn cael ei diweddaru ac y byddai ar gael yn electronig yn y dyfodol.
- Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr adolygiad sydd ar ddod o arferion gwaith a mabwysiadu dull ystwyth o weithio yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn, teimlai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo y byddai'n anodd asesu effaith gweithio gartref ar les staff ond sicrhaodd yr Aelodau y byddai monitro'n cael ei adfer yn ddi-oed. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr holl staff yn cael eu hannog i ddilyn cyfarwyddiadau ar sut i osod eu hoffer a mynd i'r afael â'u hanghenion gweithio gartref. Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dynol y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**
2. **disgwyl am adroddiad diweddaru ar arferion gwaith i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.**

11. **Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy i roi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd y Canolfannau yn erbyn targedau ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy yr adroddiad yn fanwl a rhoddodd drosolwg o'r flwyddyn 2022/23 hyd yma a ffigurau cymhariaeth o 2019/20.

Trafododd yr Aelodau y materion a ganlyn:-

- Roedd yr aelodau'n cydymdeimlo â'r problemau staffio a brofwyd gan y gwasanaeth.
- roedd angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y Gwasanaeth Sherpa yn gweithredu i Feddgelert.
- cadarnhaodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy bod staff y Canolfannau Croeso yn cael eu cadw yn ystod misoedd y gaeaf, er bod Canolfan Groeso Aberdyfi, sy'n gyrchfan mwy tymhorol, wedi colli staff oherwydd ei bod ar gau o ddiwedd mis Hydref hyd ddiwedd mis Mawrth.
- Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o ddefnyddio'r Canolfannau Croeso fel mannau cynnes y gaeaf hwn. Cytunodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy i ymchwilio i'r posibilrwydd hwn.

- nododd Aelod bryderon y gallai problemau recriwtio a chadw staff fod yn risg gorfforaethol i'r Awdurdod ac er mwyn darparu ffocws corfforaethol, roedd angen i'r Aelodau gael cipolwg ar y rheswm dros hyn. Yn codi wedi hynny, gofynnwyd i swyddogion ystyried trefnu ymgyrch recriwtio. Dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn eisoes wedi'i godi gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a oedd ar hyn o bryd yn gweithio ar hyrwyddo'r Awdurdod fel cyflogwr o ddewis. Roedd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir hefyd yn edrych ar weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i ddenu Swyddogion Cynllunio Cymraeg eu hiaith. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod yr Awdurdod yn ddiweddar wedi codi cyflogau staff o ddau bwynt cynyddrannol ar draws y gweithlu er mwyn cystadlu â chyflogau a dalwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru a chredai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y gallai darpar ymgeiswyr gael eu denu gan ymagwedd ystwyth yr Awdurdod at arferion gwaith, sy'n darparu hyblygrwydd a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- argymhellodd Aelod opsiynau amrywiol ar gyfer denu staff i weithio yn y canolfannau croeso megis creu mwy o rolau rhan amser i annog gweithwyr hŷn neu gynnig talu costau teithio ayb.
- Trafododd yr aelodau opsiynau ar gyfer creu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r Canolfannau Croeso a denu mwy o bobl i'r Canolfannau.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy ei bod yn mynychu ffair fasnach flynyddol yn Harrogate, yn gweithio gyda chyflenwyr lleol, yn amrywio'r stoc, ac yn defnyddio amrywiol ddulliau megis gwerthu nwyddau ar gomisiwn i grefftwyr lleol ac ati, er mwyn gwella maint yr elw.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r camau gweithredu ar gyfer 202 3/24, fel yr amlinellwyd.

12. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022, er gwybodaeth. Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion, a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol grynodeb o'r sefyllfa bresennol.

Trafododd yr Aelodau a’r swyddogion y canlynol:-

- er gwybodaeth, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod 'S4C - Priodas Pum Mil' wedi ffilmio ym Mhlas Tan y Bwlch yn ddiweddar ac y byddai'r rhaglen yn cael ei darlledu dros gyfnod y Nadolig.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gan fod Plas Tan y Bwlch yn adeilad rhestredig Gradd II*, bod angen cynnal cyflwr yr adeilad yn y tymor byr. Cynghorodd ymhellach, unwaith y bydd y Cynllun Busnes wedi'i gytuno, y bydd penderfyniadau hirdymor ar gyllid grant a photensial partneriaeth yn y dyfodol i gyd yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod i'w hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad ffurfiol ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.
- dywedodd y Prif Weithredwr ymhellach pe na bai setliad Llywodraeth Cymru yn ffafriol, y gallai amgylchiadau newid yn gyflym iawn, ac y gellid gofyn i'r Aelodau ystyried dyfodol Plas Tan y Bwlch ar ddyddiad cynharach.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri	**PENDERFYNWYD ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.**	Y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i goladu'r materion a drafodwyd i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri.	JC	Mae'r dyddiad targed ar gyfer Strategaeth Carbon Isel wedi'i wthio'n ôl. Mae hyn er mwyn caniatáu i 2 ddarn o waith gael eu hasesu gan y Panel Craffu Carbon. Ar y sail bod 3 cyfarfod o'r Panel Craffu, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn yr Hydref 2023 (gallai hyn fod yn hwyrach os bydd angen mwy na 3 cyfarfod o'r Panel Craffu).	**NA**

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 24.11.2021

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
9. Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg 2016-21: Asesu'r Canlyniad	**PENDERFYNWYD aros am ganlyniad y cyfrifiad, cyn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod am y 5 mlynedd nesaf**	Cyflwyno adroddiad pellach a nodi meysydd blaenoriaeth yr Awdurdod ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.	GIJ/BH	Grŵp Llywio wedi datblygu a chytuno ar strategaeth ddrafft, a fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer sylwadau cychwynnol ac adborth yng Ngweithgor yr Aelodau ar 07/12/22. Yn dilyn hynny bydd y strategaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. **DIWEDDARIAD: Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau heddiw. (22.03.2023)**	**NA**

EITEM RHIF 5

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	22 Mawrth 2023
TEITL	**DIWEDDARIAD O GYLLIDEB 2022-23**
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Cyllid
PWRPAS	I hysbysu'r Aelodau – - o drosglwyddiadau sylweddol, - o'r cynnydd yn erbyn y gyllideb refeniw a chyfalaf, ynghyd ag amcan o'r sefyllfa derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2022/23 gyda newidiadau sy'n adlewyrchu'r cyfnod o ddechrau'r flwyddyn ariannol h.y.1af o Ebrill 2022 hyd at yr 28ain o Chwefror 2023.

1.2 Mae rhan 4 o'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb net refeniw, ynghyd ag amcan o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

1.3 Mae llithriad a thanwariant o flwyddyn ariannol 2021/22 wedi eu hychwanegu i'r gyllideb.

1.4 Mae rhai o'r cynlluniau grant prosiectau 'Tirwedd Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy' (T.C.Ll.C) o'r flwyddyn 2021/22 wedi eu cario drosodd i 2022/23 er mwyn eu cwblhau ond rhai ohonynt angen estyniad pellach gyda gwaith am barhau yn ystod 2023/24.

1.5 Mae grant (T.C.Ll.C) ar gyfer cynlluniau tair blynedd 22/23 hyd at 24/25 eisoes wedi eu cymeradwyo. Cyfanswm gwerth y cynlluniau yma yw £2.5 milliwn gydag amcan o'r gwariant wedi neilltuo dros y tair blynedd. Gwaith Cyfalaf yw prif ddiben y grant yma ond mae ffioedd gweinyddu o 10% wedi eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru yn ogystal â ffioedd gweithredu er mwyn cyfrannu at adnodau sydd angen i gyflawni'r cynlluniau. Mae'r ffioedd yma yn amrywio o 5% - 15% o gyfanswm y grant yn ddibynnol ar gymhlethdod y cynllun a'r angen am adnoddau ychwanegol er mwyn eu cyflawni'n effeithiol.

1.6 Mae grant ychwanegol (T.C.Ll.C) ar y cyd a pharciau cenedlaethol eraill Cymru a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae hyd at £500k wedi

ei glustnodi dros dair blynedd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gweinyddu'r cynllun.

1.7 Ar gychwyn Mawrth 2023 derbyniwyd cadarnhad o ychwanegiad i'r grant Parc Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian wedi clustnodi ar gyfer cynlluniau penodol Cyfalaf gwerth £156,000 ac arian refeniw o £44,570 er mwyn cyfrannu at gyflawni'r gwaith yma. Y tri maes dan sylw yw Awyr Dywyll, Adfer Natur a Datrys effaith pobl ar gynefinoedd a llwybrau. Mae cynlluniau cyfalaf sydd eisoes wedi cychwyn gan yr awdurdod yn dod o fewn canllawiau'r ffynhonnell arian yma.

2. CYLLIDEB REFENIW DIWYGIEDIG 2022-23

2.1 Cafodd y Gyllideb Net Wreiddiol ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar 9^{fed} Chwefror 2022.

Gwasanaethau	**Cyllideb Sylfaenol £**	**Trosgl. cynt £**	**Trosgl . newydd £**	**Cyllideb Net Ddiwygiedig £**
Cynllunio a Rheoli Tir	1,595,967	123,719	82,793	1,802,479
Corfforaethol	4,738,275	121,170	223,571	5,083,016
Balansau	259,467	- 61,740	- 197,727	-
Cyfanswm	**6,593,709**	**183,149**	**108,637**	**6,885,495**
Llog a ennilwyd ar falansau	- 8,000			- 8,000
Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf	398,620	132,511	548,059	1,079,190
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050			- 591,050
Cyllideb net	**6,393,279**	**315,660**	**656,696**	**7,365,635**
Cyllido o				
Grant Parciau Cenedlaethol	4,119,789			4,119,789
Grant Parciau Cenedlaethol Ychwanegol	-			200,570
Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262			1,373,262
	5,493,051			**5,693,621**
Tros o'r cronfeydd wrth gefn	900,228	315,660	456,126	1,672,014
Cyllideb Net ddiwygiedig	**6,393,279**			**7,365,635**

2.2 Mae dadansoddiad manwl yn atodiad 1 yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig fesul gwasanaeth ar 28^{ain} Chwefror 2023. Mae'r atodiad hefyd yn manylu ar y trosglwyddiadau i mewn ac o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn.

3. CYLLIDEB GYFALAF DIWYGIEDIG

3.1 Dangosir crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf 2022-23 yn y tabl canlynol, gyda'r manylder yn Atodiad 2. Nid yw cynlluniau grant a ariannwyd o grant cyfalaf (T.C.Ll.C) 2022/23 wedi eu cynnwys gan fod y gyllideb net/cost i'r awdurdod yn "ddim".

Cyllideb Cyfalaf 2022/23						
Meysydd Gwasanaeth	**Cyllideb Gros Wreiddiol**	**Incwm Grant**	**Cyllideb Net Wreiddiol**	**Trosgl. Cynt**	**Trosgl. Newydd**	**Cyllideb Net Ddiwyg.**
	(£)	**(£)**	**(£)**	**(£)**	**(£)**	**(£)**
Cynllunio a Rheoli Tir	642,910	- 290,630	352,280	-	-	352,280
Corfforaethol	46,340	-	46,340	132,511	-	178,851
Cyfanswm	**689,250**	**- 290,630**	**398,620**	**132,511**	**-**	**531,131**

3.2 Mae gwariant yn ystod y flwyddyn wedi bod ar nifer o gynlluniau Cyfalaf nad oedd wedi eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys y cynlluniau (T.C.Ll.C) a chynlluniau grant hanesyddol lle nad oedd posib eu cyflawni. Ni chyflawnwyd rhai o'r cynlluniau fel bwriedir yn wreiddiol oherwydd oedi o ganlyniad i'r pandemig Cofid-19. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau wedi eu hariannu o grantiau Llywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill lle trosglwyddwyd yr arian i gronfeydd wrth gefn megis y gronfa grantiau cyfalaf. Ar Chwefror 28ain roedd y gwariant ar y cynlluniau yma yn £473,300 gyda disgwyl i'r gwariant terfynol gael ei ariannu o gronfeydd penodol sydd wedi eu neilltuo ar eu cyfer.

4. SEFYLLFA RAGWELEDIG 2022-23

4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn y gyllideb hyd at 28ain Chwefror 2023, a rhagamcaniad o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (fel y trafodwyd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Cyfarwyddwyr). Pwysleisir fel y gall y rhagamcan hwn o'r ffigyrau newid erbyn diwedd y flwyddyn.

Meysydd Gwasanaeth	**Cyllideb Net Ddiwygiedig**	**Gwariant hyd yma**	**Rhagamcan diwedd blwyddyn**	**Gwahaniaeth a ragwelir**
	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir	1,802,479	1,353,764	1,799,479	3,000
Corfforaethol	5,083,016	3,890,678	5,130,016	- 47,000
Balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau	-	-	-	-
Cyfanswm Gwariant i wasanaethau	**6,885,495**	**5,244,442**	**6,929,495**	**- 44,000**
Llog â enillwyd ar gronfeydd dros ben	- 8,000	- 51,328	- 71,345	63,345
Cyfraniad Refeniw ar wariant Cyfalaf	1,079,190	834,186	1,079,190	-
Addasiadau Taliadau Cyfalaf	- 591,050	- 542,080	- 591,050	-
Cyllideb Refeniw Net	**7,365,635**	**5,485,220**	**7,346,290**	**19,345**
				-
Rhagolwg Balans Net (+)/ diffyg (-) ar gyfer 2022/23				**19,345**
Arrianwyd o:				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,373,262			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	900,228			
Cyllideb Net Wreiddiol	**6,393,279**			
Grant Ychwanegol Llywodraeth Cymru	200,570			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	771,786			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	**7,365,635**			

4.2 I grynhoi, y rhagolwg presennol at ddiwedd y flwyddyn yw gwarged o £19,345. Er bod yna orwariant ar y gwasanaethau, yn bennaf y gwasanaethau Corfforaethol, mae tanwariant oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn wedi cyfrannu at arbedion sylweddol sy'n cwrdd â'r gorwariant ar wasanaethau eraill.
Mae'r gwarged yn y gyllideb yn deillio o ganlyniad i'r arbedion yma yn ô gystal â'r cynnydd sylweddol mewn incwm llog ar falansau yn y Banc. Bydd angen trafodaethau pellach rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i drafod unrhyw arian i'w gario drosodd a fydd yn effeithio ar y rhagolwg yma.

Cyflwynir isod esboniadau am y prif amrywiannau a ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn, ac addasiadau o ganlyniad i hynny, gan ganolbwyntio'n bennaf ar symiau o £10,000 a throsodd.

4.3 **Corfforaethol**: Rhagwelir gorwariant o oddeutu £47k. Mae'r prif amrywiannau fel a ganlyn:

Plas Tan y Bwlch - Mae'r rhagamcan o wariant net yn £72k uwch na'r gyllideb net. Mae'r targed incwm wedi ei gwrdd eisoes a disgwylir bydd yr incwm hyd at £63k yn uwch na'r targed. Yn ddibynnol ar brysurdeb mis Mawrth a swm yr incwm ychwanegol a dderbynnir drwy'r tariff trydan gall y swm terfynol fod yn uwch. Fodd bynnag mae'r gwariant ychwanegol yn deillio o'r sefyllfa staffio sydd yn debygol o arwain at orwariant o £16k ar gyflogau a gorwariant ar nwyddau a bwydydd hyd at £45k. Mae'r sefyllfa o ran yr economi a chostau ynni yn debygol o arwain at orwariant hyd at £74k. Er y rhagamcan yma mae'r sefyllfa ynni yn anodd ei ragweld heb ddarlun clir o'r defnydd ynni. Bydd rhaid aros am yr anfonebau i gael gwir adlewyrchiad o'r gost.

Meysydd Parcio a Chyfleusterau Ymwelwyr - Mae gwarged sylweddol yn deillio o ffioedd parcio yn uchafu'r targed incwm. Bydd rhan helaeth o'r gwarged yn ariannu gorwariant ar wasanaeth Cyfleusterau Ymwelwyr yn o gystal â chyllido'r gorwariant ar ddiogelwch ychwanegol ym Mhen Y Pass a Chasglu Sbwriel. Nid oes unrhyw drosglwyddiadau cyllideb wedi ei gwneud hyd yn hyn. Bydd angen trafodaeth gyda'r Tîm Rheoli unwaith bydd y gwir sefyllfa o ran gwarged incwm parcio a gorwariant y gwasanaethau eraill yn fwy amlwg. Gyda chefnogaeth y Tîm Rheoli, bwriedir y Pennaeth Eiddo gadw unrhyw warged wrth gefn at waith sy'n cynnwys atgyweirio a thrwsio angenrheidiol ym Mhlas Tan y Bwlch.

Cyfieithu - Rhagwelir tanwariant o oddeutu £10k yn deillio o ddefnydd cyfieithwyr allanol yn hytrach na chyflogi cyfieithydd. Bwriedir cadw'r arian wrth gefn i ariannu prosiectau yn y flwyddyn newydd gyda gwariant uwch wedi ei ragamcan ar gyfieithwyr.

Rheolaeth Gorfforaethol - Amcan o oddeutu £21k o orwariant. Mae ffioedd archwilio yn uwch na'r disgwyl gyda'r gwaith ychwanegol ar gyfrifon 21-22. Mae ariannu dau hicyn ychwanegol i'r Cyfarwyddwyr yn £9k ychwanegol na gyllidwyd ar ei gyfer yn wreiddiol. Gall hyn gynyddu os bydd penderfyniad i roi ychwanegiad cyffelyb ar gyflog y Prif Weithredwr

Personél - Amcan o oddeutu £10k o danwariant yn deillio o linellau cyllideb cyflogaeth a hyfforddiant.

Gwasanaethau Aelodau - Amcan o oddeutu £11k o orwariant ar lwfansau aelodau gan fod y lwfansau wedi eu cynyddu yn ystod y flwyddyn gan olygu fod y gyllideb yn annigonol.

Cyllid - Ar yr adeg hon rhagwelir gorwariant o £27k. Mae'r gorwariant yn adlewyrchiad o'r sefyllfa staffio yn yr adran lle mae'r angen am staff ychwanegol i ymdopi ac absenoldebau a gwaith heb ei gyflawni wedi ei gwrdd. Bu costau staff ychwanegol hefyd er mwyn ymdopi a'r gwaith ychwanegol gyda chau ac archwilio'r cyfrifon.

Ymgysylltu - Mae gorwariant ar Ymgysylltu ond mae hyn yn bennaf yn deillio o'r ffaith bod cyflogau cynlluniau grant wedi eu hariannu o'r gyllideb yma. Mae'r gorwariant yma i'w ariannu o arian grant a chronfeydd penodol yr adran.

Casglu Sbwriel – Rhagwelir gorwariant o oddeutu £30k o ganlyniad i gostau ychwanegol yn ystod y flwyddyn, y diffyg yma i'w ariannu o'r gwarged incwm meysydd parcio.

Canolfannau Gwybodaeth- Rhagwelir gorwariant o oddeutu £21k. Mae'r rhain yn bennaf yn deillio o wariant ychwanegol ar stoc a fydd yn cael ei werthu yn ystod 2023/24. Mae'r adran yn bwriadu adolygu lefelau stoc cyn diwedd y flwyddyn gyda phosibilrwydd bydd addasiad wrth gyfrifo am y stoc er mwyn adlewyrchu'r stoc ar gyfer 22/23 a 23/24. Roedd dryswch o ran anfonebau trethi gan Gyngor Conwy hefyd sydd wedi golygu fod gwariant ychwanegol o £8k eleni. Roedd swm cyffelyb yn dangos fel tanwariant yng nghyfrifon 2021/22. Mae costau ynni ychwanegol hefyd wedi cyfrannu at y diffyg.

Wardeniaid, Mynediad Cyhoeddus a Thîm yr Wyddfa - Mae tanwariant sylweddol o £140k ar draws y gwasanaethau yma. Mae'r rhain yn deillio yn bennaf o swyddi gwag ac addasiad arfaethedig i'r strwythur sydd heb ei weithredu arno.

Cyfreithiol - Mae gorwariant sylweddol ar wariant o ganlyniad i achos Hillside. Fodd bynnag mae'r diffyg yma yn cael ei gwrdd gan yr ad-daliad a dderbyniwyd.

Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer– Mae tanwariant o £9k yn deillio'n bennaf o danwariant ar gyflogau o ganlyniad i'r sefyllfa staffio yn ystod y flwyddyn.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir**: Ar y cyfan, nid oes amrywiaeth eang rhwng y gyllideb net wreiddiol a'r rhagamcaniad gwariant. Mae yna amrywiaethau mwy sylweddol o fewn y gwasanaethau fel ymhelaethir arnynt isod.

Treftadaeth Ddiwylliannol - Mae'r cynlluniau ynghlwm a'r pennawd yma yn gynlluniau lle disgwylir i grantiau eu hariannu'n ôl weithredol (*retrosbectif)*. Bydd rhaid aros nes mae'r hawliadau terfynol yn cael eu gwneud cyn gallu adnabod unrhyw ddiffyg posib.

Cynllunio - Mae arbedion sylweddol yn y gyllideb cyflogaeth o ganlyniad i swyddi gwag drwy gydol y flwyddyn. Mae gwariant ychwanegol ar ffioedd ymgynghorol o ganlyniad i'r swyddi gwag er mwyn parhad gwasanaeth yn lleihau'r arbediad sydd ar y cyfan yn tua £100k. Mae rhan o'r arbediad yma (£44k) wedi ei neilltuo ar gyfer ariannu addasiad i strwythur y gwasanaeth Polisi a Chynllunio yn 23/24.

Ysgwrn - Mae disgwyl gorwariant o tua £32k. Mae hyn yn deillio yn bennaf o niferoedd o 'ymwelwyr mewn grwpiau' llai na'r disgwyl sydd wedi golygu na fydd y targed incwm yn cael ei gyflawni. Bu gwariant ychwanegol annisgwyl ar addasu'r system gwresogi yn o gystal â'r cynnydd mewn costau ynni. Mae yna gronfa benodol ar gael i gwrdd â'r diffyg yma, fodd bynnag nid yw'n glir ar hyn o bryd os fydd gwarged o wasanaethau eraill megis Cynllunio yn cyfrannu at y diffyg hefyd.

Cadwraeth, Coed ac Amaeth - Mae nifer o wasanaethau sydd ynghlwm a'r gwasanaeth yma sydd wedi eu hariannu drwy grantiau. Fodd bynnag mae rhai elfennau megis cyflog a gwariant ar nwyddau/wasanaethau lle nad yw'n debygol bydd posib hawlio'r arian yn ôl. O ganlyniad mae disgwyl bydd gorwariant o tua £16k ar bennawd y gwasanaeth yma. Nid yw'n glir ar hyn o bryd os fydd posib ariannu'r diffyg yma o gronfeydd penodol neu ail gyfeirio grantiau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo. Er bod disgwyl i hawliadau grant gyllido'r cynlluniau grant penodol yma mae'r pennaeth gwasanaeth wedi rhybuddio bod y sefydliadau sy'n darparu'r grantiau yn debygol o herio rhai o'r hawliadau grant. O ganlyniad i hyn bydd angen cysidro lleihad posib yn yr incwm o'r hawliadau a all olygu cynnydd yn y gost net i'r awdurdod.

4.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau** - Mae'r balans gwaelodlin wreiddiol o £15,000 yn ddarpariaeth chwyddiant wedi ei ddosrannu. Mae hwn wedi cyfrannu at y costau ychwanegol ar ynni.

4.6 **Costau Cyflog** - Yn dilyn cytundeb cyflog 2022/23, gweithredwyd ar y cynnydd ym mis Tachwedd gan ôl ddyddio'r taliadau i Ebrill 2022. Roedd y ddarpariaeth wreiddiol o 4% yn annigonol gyda £84k yn ychwanegol ei angen. Yn ystod 2021/22 ychwanegwyd dau hicyn at bob swydd o fewn yr Awdurdod gan eithrio'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr. Mae'r Awdurdod bellach wedi cymeradwyo cynnydd cyffelyb i swyddi'r cyfarwyddwyr a fydd yn cael eu hôl dyddio i Ebrill 2022. Nid oes penderfyniad wedi ei gymeradwyo o ran swydd y Prif Weithredwr ar adeg paratoi'r adroddiad hwn ond gall hyn ychwanegu at gost yr awdurdod.

4.7 **Llog** : Mae'r cyfraddau llog wedi cynyddu yn sgil sefyllfa'r economi eleni. O ganlyniad mae'r incwm llog yn sylweddol uwch na'r targed gwreiddiol o £8,000. Ar ddiwedd Ionawr roedd yr incwm llog yn £51,345. Rhagwelir bydd incwm llog ychwanegol o £20k yn Chwefror a Mawrth.

4.8 **Cyfalaf**: Mae’r prif wariant net hyd ddiwedd Chwefror yn cynnwys -

Cynllun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Dolgellau	£267,715
Adfywio Harlech (Grant. Ll. Cymru)	£151,560
Cader Idris (Grant. Ll. Cymru)	£86,496
Awyr Dywyll (T.C.Ll.C)	£81,698
Prosiect Tŷ Natur	£42,945
Morfa Mawddach - Toiledau	£52,407
Cerbydau Amaeth	£35,409
Technoleg Gwybodaeth (T.C.Ll.C)	£30,166
Llwybr Carneddau (Grant Ll. Cymru)	£29,908

4.9 Mae’r rhagamcan gwariant net ar gynlluniau Cyfalaf (yn eithrio cynlluniau (T.C.Ll.C) 22/23) erbyn diwedd y flwyddyn yn £1,079k. Fodd bynnag gall hyn amrywio gan mai cynlluniau’r Awdurdod a chynlluniau blaenorol i’w ariannu o gronfeydd yw'r rhain lle nad oes terfyn amser penodol i wario a hawlio’r arian.

5. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU DROS £30,000 ER SYLW’R AWDURDOD.

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo yn flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

5.2 Trosglwyddwyd cyllideb Cyfalaf gwerth £70k o gynllun Amgylchedd Adeiledig i gyllideb Cynllun Treftadaeth Dolgellau.

6. ARGYMHELLIAD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf 2022/23.**

7. PAPURAU CEFNDIROL

Dim

				Atodiad 1

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar 28 Chwefror 2023

	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl. cynt £	Trosgl. newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR				
Coedwigwyr (T.C.Ll.C.)			-	
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	407,680	23,790	17,455	448,925
Awyr Dywyll		-	-	-
Mawndir Cymru (grant Ll. Cymru)		-	-	-
Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain)	110,000	-	-	110,000
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	93,677	3,650	-	97,327
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	32,200	- 4,300	-	27,900
Archeoleg	62,710	16,836	2,581	82,127
Treftadaeth Diwylliannol	73,560	7,950	2,575	84,085
Treftadaeth Treflun Dolgellau	22,930	630	-	23,560
Cynllun Harlech ac Ardudwy	51,560	710	-	52,270
Ysgwrn	90,280	5,560	13,172	109,012
Cynllunio	651,370	68,893	47,010	767,273
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	**1,595,967**	**123,719**	**82,793**	**1,802,479**
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	112,510	-	-	112,510
Cefnogaeth yr Awdurdod	87,710	830	3,973	92,513
Rheolaeth Gorfforaethol	607,280	700	5,171	613,151
Eiddo	238,731	1,880	6,543	247,154
Cyfreithiol	54,510	780	2,081	57,371
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	207,010	620	12,141	219,771
Cyfieithu	103,740	840	2,582	107,162
Personel a Hyfforddiant	110,200	1,320	4,162	115,682
Pencadlys	221,310	70	1,395	222,775
Systemau Gwybodaeth	342,280	2,940	13,433	358,653
Cyllid	209,780	3,060	11,713	224,553
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	382,230	- 14,100	31,744	399,874
Ymgysylltu	464,890	56,840	28,834	550,564
Safle Gwe Newydd	46,880	860	-	47,740
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	**3,189,061**	**56,640**	**123,772**	**3,369,473**

Atodiad 1 (parhâd)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar 28 Chwefror 2023

	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl. cynt £	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR	**1,595,967**	**123,719**	**82,793**	**1,802,479**
CORFFORAETHOL	**3,189,061**	**56,640**	**123,772**	**3,369,473**
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant Ll.C.)	21,520	400	-	21,920
Llwybrau Llesiant (grant Ll.C.)	40,000	-	-	40,000
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	258,020	49,900	6,747	314,667
Canolfannau Gwybodaeth	120,140	10,770	18,765	149,675
Llyn Tegid	- 28,280	-	480	- 27,800
Meysydd Parcio	- 460,510	- 130	7,863	- 452,777
Clirio Ysbwriel	19,510	-	-	19,510
Traffig a Chludiant	5,000	-	-	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	292,720	-	-	292,720
Mynediad Cyhoeddus	160,410	430	11,361	172,201
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr	1,120,684	3,160	54,583	1,178,427
	4,738,275	**121,170**	**223,571**	**5,083,016**
BALANSAU				
Darparieaeth chwyddiant cyffredinnol	15,000		- 15,000	-
Darparieaeth chwyddiant cyflogau	244,467	- 61,740	- 182,727	-
	259,467	**- 61,740**	**- 197,727**	**-**
	6,593,709	**183,149**	**108,637**	**6,885,495**
CYFANSWM				
Llog a Enillwyd	- 8,000			- 8,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	398,620	132,511	548,059	1,079,190
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050			- 591,050
	6,393,279	**315,660**	**656,696**	**7,365,635**
WEDI EI ARIANNU O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262			1,373,262
Grant Parc Cenedlaethol Ychwanegol				200,570
Tros. o'r cronfeydd wrth gefn	900,228	315,660	456,126	1,672,014
Cyllideb Net	**6,393,279**			**7,365,635**

Atodiad 2

Cyllideb Cyfalaf 2022/23

Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol (£)	Incwm Grant (£)	Cyllideb Net Wreiddiol (£)	Trosgl. (£)	Trosgl. Newydd (£)	Cyllideb Net Ddiwyg. (£)
Cynllunio a Rheoli Tir						
Cynlluniau Treftadaeth	149,490	-	149,490	- 70,000	-	79,490
Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau	388,703	- 290,630	98,073	70,000	-	168,073
Cynllun Harlech ac Ardudwy	24,014	-	24,014	-	-	24,014
Carneddau - Data LiDAR (grant Ll. C.)	15,630	-	15,630	-	-	15,630
Carneddau - Llwybrau (grant	65,073	-	65,073	-	-	65,073
Is-gyfanswm	**642,910**	**- 290,630**	**352,280**	**-**	**-**	**352,280**
Corfforaethol						
Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid.	22,340	-	22,340	-	-	22,340
Tech. Gwybodaeth at ddefnydd Cynllunio (grant Ll. C.)	-	-	-	50,000		50,000
Prosiectau Mynediad	10,000	-	10,000	-		10,000
Wardeniaid - Cerbydau	14,000	-	14,000	41,719		55,719
Morfa Dyffryn (T.C.Ll.C.)	-	-	-	20,792		20,792
Cronfa Gymunedol Eryri	-	-	-	20,000		20,000
Is-gyfanswm	**46,340**	**-**	**46,340**	**132,511**	**-**	**178,851**
Cyfanswm	**689,250**	**- 290,630**	**398,620**	**132,511**	**-**	**531,131**

EITEM RHIF 6

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	22 Mawrth 2023
TEITL	**PROFFIL RISG YR AWDURDOD**
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod

1. CEFNDIR

1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae’r risgiau sy’n wynebu’r Awdurdod wedi’u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel. Mae’r adroddiad hwn yn dangos sefyllfa gyfredol y Proffil Risg hwnnw a gyflwynwyd yn flaenorol i Bwyllgor yr Awdurdod yng nghyfarfod 16 Tachwedd 2022.

1.2 Caiff y risgiau eu pennu’n bennaf drwy gyfrwng y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a’r Tîm Rheoli. Mae’r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda’r swyddogion perthnasol. Mae’r risgiau sydd wedi’u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i’r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodeb o sefyllfa’r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad ym mis Tachwedd 2022 (manylder yn Atodiad 1).

1.3 Nodwch fod Risg 13: Effaith Covid-19 ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod, bellach wedi’i raddio’n risg isel. Gan fod y DU bellach mewn sefyllfa sy’n cael ei ddosbarthu fel sefyllfa ‘Covid Sefydlog’, argymhellir symud y risg hon oddi ar Gofrestr Risg yr Awdurdod.

1.4 Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi, er bod y risg yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr, fod gan yr Awdurdod bellach systemau a gweithdrefnau datblygedig ar waith y gellir eu hail-ysgogi a’u gweithredu’n gyflym pe bai Covid-19 yn cael ei ail ddosbarthu fel ‘Covid Brys’ mewn unrhyw sefyllfa benodol yn y dyfodol.

1.5 Noder hefyd fod Risg 5: Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri, wedi ei leihau o Risg Uchel i Risg Ganolig. Mae'r newid hwn yn gywiriad i'r sgôr risg blaenorol a gafodd ei sgorio’n anghywir fel Uchel.

1.6 Nodir crynodeb o'r risgiau:

Risg Uchel	Newid
Diffyg arian cyllido digonol.	Dim
Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	**Y Risg wedi Cynyddu**
Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol.	Dim

Risg Canolig	Newid
Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Dim
Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	**Lleihau o Uchel**
Methu a chyflawni gofynion y ddeddf "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol".	Dim
Risgiau i'r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid "heb ei gadarnhau" (un ai cyfraniadau cyfalaf neu "heb fod yn arian") yng nghyfnod oes y prosiect.	Dim
Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018.	Dim
Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt.	**Lleihau o Uchel**
Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol.	Dim
Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol.	Dim
Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Dim
Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso).	Dim
Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Dim
Sicrhau dyfodol tymor hir ar gyfer Plas Tan y Bwlch.	Dim
Risg o ymosodiad Seibr	Dim

Risg Isel	Newid
Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Dim

Risg wedi'i Dileu	
Effaith yr haint Coronafeirws (COVID-19) ar waith yr Awdurdod.	**Risg Isel**

2. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

2.1 Dim yn codi o’r Adroddiad hwn.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Dileu Risg 13: Effaith Covid-19 ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod o’r Gofrestr Risg.

3.2 Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

4. PAPURAU CEFNDIR

4.1 Cofrestr Risg: Diweddariad Mawrth 2023.

COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI — Mawrth 2023

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Gweddill Risg			Cyfe-iriad risg	Agos-rwydd (A,C,P)	Perch-ennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
1	Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Torri Gwasanaethau.	5	5	25	Ni fu unrhyw gynnydd yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2023/24, er gwaethaf codiadau chwyddiant tua 10%, lefel na welwyd ers yr 1980au. Mae rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn awgrymu dim newid i'r Grant erbyn 2024/25, er gallai hynny newid yn sgil pwysau gwleidyddol. Bydd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod yn ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth i ariannu ein costau chwyddiant anorfod, drwy gyfraniad o rai grantiau penodol, os nad yn y grant craidd. Hefyd, mae APCE wedi cadw hyblygrwydd wrth gefn a lefel ddarbodus o gronfeydd i fedru mantoli cyllideb 2023/24 heb weithredu toriadau brys. Felly, er bod yr her ariannol a rhagwelwyd yn amlwg erbyn hyn, rydym yn gallu cyfyngu'r effaith ar wasanaethau'r Awdurdod eleni, ond mi fydd angen arbedion sylweddol erbyn 2024/25, gydag effaith niweidiol, heblaw bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.	4	4	16		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Prif Swyddog Cyllid

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Risg Cynhenid	Gweddill Risg			Cyfe-iriad risg	Agos-rwydd (A,C,P)	Perch-ennog
			Effaith	**Tebyg**	**Can-lyniad**		**Effaith**	**Tebyg.**	**Can-lyniad**			
2	Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	Yn dilyn y pandemig a'r nifer o gyfnodau clo mae Plas Tan y Bwlch wedi bod yn gweithredu model busnes hybrid sy'n cynnwys ceisio gwneud y gorau o'r farchnad dwristiaid trwy gynnig pecyn Gwely a Brecwast i ymwelwyr, cynnal digwyddiadau arbennig fel cynadleddau a phriodasau, a chroesawu rhywfaint yn ôl o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel defnyddwyr craidd blaenorol Plas Tan y Bwlch. At ei gilydd, mae hyn wedi cwrdd â chanlyniadau cymysg. Er bod incwm wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn anffodus mae'r costau cyffredinol wedi cynyddu hefyd, yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried y pwysau chwyddiant sy'n wynebu Plas Tan y Bwlch. Gyda'r pwysau ariannol yn wynebu'r Awdurdod yn gyffredinol mae angen cynyddol i fynd i'r afael â'r diffyg. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod y diffyg ac ystyried opsiynau tuag at y dyfodol.	4	5	20		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Cyf. Gwas. Corfforae-thol
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	Mae'r targed incwm wedi ei wireddu yn llawn erbyn Ionawr 2023, sydd yn galonogol gan fod costau ychwanegol diogelwch i system ragarchebu Pen y Pass yn ogystal â gorwariant ar ddiogelu rhannau bregus o adeilad Plas Tan y Bwlch angen cael eu cyllido o'r gwarged. Bydd hyn yn lleihau pwysau pellach ar gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.	4	1	4		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Pennaeth Eiddo

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agos-rwydd (A,C,P)	Perch-ennog
			Effaith	Tebyg	Can-lynia		Effaith	Tebyg	Can-lynia			
4	Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.	5	3	15	Mae'r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae ceisiadau am gyllid refeniw i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau ac ariannu prosiectau ymgysylltu wedi bod yn llwyddiannus ac mae rhaglen weithgareddau'r Ysgwrn am y flwyddyn wedi bod yn llwyddiannus. Mae cywaith Geiriau Diflanedig ar waith er mwyn dod a'r arddangosfa hynod hon i'r Ysgwrn yn 2023. Mae'r gwaith yn bartneriaeth gydag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Bydd gweithgareddau eraill yn cynnwys arddangosfa wlân a phrosiect treftadaeth gymunedol yn seiliedig ar ganmlwyddiant cofeb Hedd Wyn. Bydd yr holl weithgareddau yn cael eu hariannu gan grantiau allanol.	3	4	12		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadae-th Ddiwyllia-nnol
5	Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	4	3	12	Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa. Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafnidiaeth / parcio yn yr ardal. Mae disgwyl niferoedd digynsail o ymwelwyr dydd o'r DU eto yr haf hwn, a fydd yn achosi problemau i gymunedau lleol. Rhoddwyd nifer o fesurau lliniaru ar waith gyda phartneriaid ar gyfer tymhorau 2021 a 2022. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r heriau ar gyfer tymor 2023. Cytunwyd ar Grŵp Trafnidiaeth Eryri ac mae'n cyfarfod yn aml. Mae cytundeb y Gwasanaeth Sherpa am y 5 mlynedd nesaf wedi ei dendro gan Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod arweiniol ar gludiant cyhoeddus. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafnidiaeth ddarparu cyfleoedd pellach.	3	3	9		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Prif Weithred-wr / Rheolwr Partneria-ethau
6	Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.	Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol.	3	3	9	Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio â Archwilio Cymru ar gynllun peilot i ddatblygu ei effeithiolrwydd er mwyn gweithredu gofynion y Ddeddf Llesiant. Bydd astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm) yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod yn y misoedd nesaf. Nid yw archwiliad perfformiad ar gyfer 2023/24 wedi'i gytuno eto.	3	3	9		C (Adolyg-wyd 16.11.22)	Prif Weithred-wr

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agos-rwydd (A,C,P)	Perch-ennog
			Effaith	Tebyg	Can-lynia		Effaith	Tebyg	Can-lynia			
7	Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalu, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwylir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect.	Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da.	3	4	12	**Amserlen:** Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026. Ymarfer ail-broffilio’r cynllun ar y gweill, i fonitro cynnydd cywir yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes. **Pwrpasau Cymeradwy:** Cyfradd gwario a chyrraedd targedau’r cynllun wedi cynyddu gydag adferiad o’r pandemig Covid-19. Mae’r Cynllun yn cyflwyno rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau, gweithgareddau, gwaith ymarferol, a chynnal grantiau ers ei lansio ym mis Hydref 2020. Gweithgorau mynediad, cadwraeth a threftadaeth wedi’i sefydlu, Grŵp Craidd yn cyfarfod yn chwarterol, ac e-fwletin misol cyhoeddus wedi'i sefydlu. Mae’r wefan ar fin cael ei lansio yn allanol. Mae gwerthusiad y cynllun yn digwydd drwy gyswllt rheolaidd rhwng y gwerthuswr penodedig, y tîm craidd, partneriaid a chyfranogwyr i nodi'r llwyddiannau/heriau wrth ymateb yn briodol. **Cyllid:** Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i’r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau cyfreithiol rhwymol ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed. Mae effaith cyfradd chwyddiant ar ein prosiectau cyfalaf yn sylweddol, ac mae cyllideb chwyddiant mewn lle ar gyfer hyn. Mae’r gyllideb hon yn cael ei hadolygu’n rheolaidd drwy drafodaeth gyda’r Monitor Cronfa Dreftadaeth. **Staff:** Ers Mai 2022, rydym wedi gweld newidiadau staff mewn 6 rôl o fewn y bartneriaeth, gyda 3 o’r rolau yma o fewn tîm craidd Y Carneddau. Cododd dau o’r newidiadau oherwydd amgylchiadau eithriadol nad ellir eu rhagweld a digwyddodd y llall oherwydd cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol i’r swyddog mewn corff partner. Mae cefnogaeth gan bartneriaid y Cynllun wedi bod yn hanfodol er mwyn goroesi’r cyfnod heriol hwn a sicrhau dilyniant. Bydd dwy swydd wag yn y tîm craidd yn cael eu penodi yng ngwanwyn 2023. Gwaith parhaus yn cymryd lle i fynd i’r afael a diffyg cynhwysedd o fewn y bartneriaeth i gyflawni amcanion y cynllun.	3	2	6		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agos-rwydd (A,C,P)	Perch-ennog
			Effaith	**Tebyg**	**Can-lynia**		**Effaith**	**Tebyg**	**Can-lynia**			
8	Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR).	Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi.	4	3	12	Mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau angenrheidiol erbyn hyn. Mae'r cwrs wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg erbyn hyn. Datblygwyd y system fel ei fod yn atgoffa pawb pan mae hi yn amser ail eistedd y prawf. Gobeithio y bydd mwy o Aelodau a staff yn cwblhau'r cwrs eleni. Parhau i adolygu'r hyfforddiant a sicrhau fod staff ac aelodau yn ei gymryd fel bo'r angen. Mae cyrsiau newydd yn cael eu hychwanegu at y system ELMS a byddant yn mynd yn fyw ym mis Mawrth 2023. Bydd disgwyl i bawb sefyll y rhain cyn gynted â phosibl a bydd mynediad i rwydwaith neu e-bost yn cael ei ddileu os na fydd staff / aelodau yn cwblhau'r cyrsiau gorfodol newydd.	3	2	6		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforae-thol
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.	5	4	20	Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Cais am estyniad 2 flynedd i'r prosiect bellach wedi'i gyflwyno ac yn aros am adborth i weld os oes angen unrhyw beth pellach gennym ni – mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r cais ac wedi dangos eu cefnogaeth mewn egwyddor. Mae'r angen am estyniad yn deillio o oedi mewn rhai pethau y gellir eu cyflawni o ganlyniad i faterion staffio a Covid-19, ond ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect. Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn, gan gynnwys y Genhadaeth Fonitro diweddar (Tachwedd 2022) a'r 2il Adroddiad Canol Tymor (Hydref 2022), hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Dim adroddiadau pellach nawr tan 2024, a disgwylir y Genhadaeth Fonitro nesaf yn hydref 2023. Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian sydd dros ben yn y prosiect hyd yn hyn (tua £301k) oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol, a fydd angen cyfatebiaeth o 40% gan bartneriaid.	4	3	12		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Rheolwr Prosiect

Cyf	**Disgrifiad Risg**	**Canlyniad**	Risg Cynhenid			**Mesurau Rheoli / Gweithredoedd**	Risg Cynhenid			**Cyfe-iriad risg**	**Agos-rwydd (A,C,P)**	**Perch-ennog**
			Effaith	Tebyg	Can-lyniad		Effaith	Tebyg	Can-lyniad			
10	Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfoddhaol.	Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach.	4	3	12	Wedi colli staff pellach ym mis Rhagfyr 2022 gyda'r Swyddog Cymorth Ymgysylltu o RSPB Cymru (0.4WTE) wedi gadael. Mae'r golled yn cael ei gwrthbwyso rhywfaint gan ddychweliad Swyddog Ymgysylltu cynradd y prosiect (0.6WTE) o absenoldeb mamolaeth ym mis Rhagfyr 2022. Arweiniodd costau staff uwch (chwyddiant, angen cyflogi staff ychwanegol) at yr angen i symud arian o gwmpas o fewn y prosiect i gyflenwi. y costau. Serch hynny, yr aflonyddwch a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu i'w gapasiti llawn am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd.	4	3	12	→	C (Adolyg-wyd 16.11.22)	Rheolwr Prosiect
11	Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod.	Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli.	3	3	9	Mae'n rhaid i swyddogion ddilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod. Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant. Efallai y bydd adroddiad Archwilio Cymru sydd ar ddod ar gynhyrchu incwm yn rhoi cyngor pellach ar faterion o'r fath yn hyn o beth.	2	4	8	→	A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Tîm Rheoli
12	Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod.	3	3	9	Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwytnwch yn cynnwys: 1. Gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol, 2. Datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle, 3. Sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwytnwch staff, 4. Cyfraddau cadw staff a salwch. Ers yr adolygiad o delerau ac amodau staff bydd angen i'r Awdurdod fonitro effaith chwyddiant ar wytnwch staff a'u gallu i gadw a recriwtio. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o gyflwyno modelau gweithio hybrid ar gyfer staff swyddfa yn bennaf.	3	3	9	→	A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Tîm Rheoli

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agos-rwydd (A,C,P)	Perch-ennog
			Effaith	Tebyg	Can-lynia		Effaith	Tebyg	Can-lynia			
13	Effaith yr haint Coronavirus (Covid-19) ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod.	Yr Awdurdod yn methu a gweithredu o ran cyflawni dyletswyddau dyddiol a statudol. Colledion ariannol, methu a thalu cyflenwyr, a methiant cyffredinol i gynnal systemau arferol. Yr Awdurdod yn methu: • ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol; • i gyflawni yn erbyn y rhaglen waith corfforaethol; • i dalu staff a chyflenwyr; • i ennill incwm yn erbyn targedau a gytunwyd; • cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd yr ardal; ac • cefnogi llesiant staff.	4	5	20	Roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno mesurau ar gyfer darparu prif systemau'r Awdurdod i alluogi staff allweddol i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Tîm Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaeth yn adolygu mesurau yn hyn o beth yn barhaus. Trefniadau gweithio amgen wedi eu sefydlu ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu fel mae canllawiau Llywodraeth ynglŷn â gweithio yng nghyfnod Covid-19 yn addasu. Nid yw'r Awdurdod wedi dychwelyd i ddulliau gweithredu blaenorol o weithio ac mae'n annhebygol o wneud hynny. Bydd y Tîm Rheoli yn parhau i fonitro unrhyw bwysau gweithredol oherwydd Covid, fodd bynnag bydd etifeddiaeth cyfnod o'r fath yn cynnwys gwahanol ffyrdd o weithio i'r Awdurdod. Nid oes unrhyw reoliadau gweithle penodol i Covid y mae angen i'r Awdurdod eu hystyried mwyach.	2	2	4	Tynnu'r Risg o'r Gofrestr	A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Tîm Rheoli
14	Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.	Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy.	4	4	16	Gorffennodd Yr Ysgwrn y flwyddyn olaf gyda gorwariant ar y gyllideb. Roedd y gorwariant o ganlyniad i gyfuniad o lai o incwm oherwydd bod llai o grwpiau yn ymweld o ganlyniad i effaith barhaus Covid-19 a chynnydd sylweddol yn y rhan fwyaf o gostau rhedeg. Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol. Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ond mae'r hinsawdd bresennol o gostau cynyddol yn ddigynsail i'r Ysgwrn, gydag ychydig iawn o le i symud o fewn y gyllideb. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu. Derbyniwyd cefnogaeth grant sylweddol yn 2022/23 er mwyn cefnogi gweithgaredd a gwaith addysg a bu hynny'n gymorth i gynnal rhaglen safonol ac apelgar i deuluoedd ac ysgolion. Bydd gwaddol y buddsoddiad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar raglenni 2023/24 a bydd swyddogion yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i geisio a gwneud cais am gyllid i gefnogi pob elfen o weithgarwch er mwyn cynnal a datblygu cynulleidfaoedd ac incwm.	4	4	16		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadae-th Ddiwyllia-nnol

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agos-rwydd (A,C,P)	Perch-ennog
			Effaith	Tebyg	Can-lynia		Effaith	Tebyg	Can-lynia			
15	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth).	Canolfannau Gwybodaeth yn methu a gweithredu oddi fewn i gyllideb oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Canolfannau Croeso yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau.	4	4	16	Yn dilyn aflonyddwch yn 2022 oherwydd prinder staff, rydym yn dechrau yn 2023 gyda chynllluniau ar fin cychwyn i recriwtio ar ôl i staff adael. Gobeithiwn am lwyddiant gwell yn dilyn y codiadau diweddar mewn cyfraddau cyflog ond erys risg na fyddwn yn derbyn diddordeb digonol.	4	3	12		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Rheolwr Canolfan-nau Gwyboda-eth
16	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol.	3	3	9	Ar ôl Covid, mae'r incwm o ffioedd cynllunio wedi parhau'n rhyfeddol o uchel. Fodd bynnag, gallai’r llinell incwm ffioedd cynllunio o £205,000 yn llyfr y gyllideb ddod o dan bwysau yn 2023/24, gyda heriau pellach i’r economi yn ogystal â phwysau chwyddiant. Mae’r gallu i liniaru yn weddol gyfyngedig ond bydd yr Awdurdod yn: - Parhau i lobïo am gynnydd mewn ffioedd cynllunio gydag Awdurdodau eraill (trwy Grŵp Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, POSW), fel y bo'n briodol; - Bod yn gynnil wrth gomisiynu ymgynghorwyr i gefnogi'r gwasanaeth – er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb; - Ceisio Cytundebau Perfformiad Cynllunio (CPAs) gyda datblygwyr mwy lle bo'n briodol - a fydd yn helpu i dalu am amser swyddogion.	3	3	9		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agos-rwydd (A,C,P)	Perch-ennog
			Effaith	Tebyg	Can-lynia		Effaith	Tebyg	Can-lynia			
17	Sicrhau dyfodol tymor hir i Blas Tan y Bwlch.	Y Plas yn gorfod cau gyda staff yn colli eu bywoliaeth. Effaith andwyol ar yr economi lleol ac enw da'r Awdurdod yn dioddef.	3	4	12	Gweler Risg 2 uchod. Er mwyn sicrhau dyfodol y Plas rhaid yn gyntaf llwyddo gyda'r model busnes newydd. Fel yr adroddwyd yn flaenorol er bod incwm yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn mae diffyg sylweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef. Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod nifer o broblemau gyda'r adeilad ei hun gan arwain at dreiddiad llaith gormodol a cholli ystafelloedd gosod. Rydym yn ymchwilio i'r sefyllfa ar hyn o bryd ac mae gennym nawr Arolwg Cyflwr o'r adeilad. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei drafod yng nghyfarfod o'r Bwrdd ac rydym wedi gofyn am fanylion o beth sydd angen gwaith ar frys, gan ymchwilio os oes modd gwneud cais am grant ar gyfer gweddill y gwaith. Gellir penderfynu wedyn os a sut i fuddsoddi ymhellach yn y Plas gyda'r arian eisoes i law.	3	4	12		A (Adolygw-yd 16.11.22)	Cyf. Gwas. Corfforae-thol
18	Risg o gael ymosodiad Seibr	Colli data a mynediad i'r rhwydwaith	4	3	12	Camau yn eu lle i ddiogelu data. Angen gwneud profion treiddiad a gwe-rwydo i weld lle mae ein gwendidau. Serfwyr wedi ei uwchraddio yn ddiweddar ac rydym yn aros i uwchraddio'r cysylltiadau cyfathrebu cyn trefnu profion treiddiad a gwe-rwydo. Cyswllt cyfathrebu newydd yn ei le ac oherwydd cyfyngiadau cyllidebol bydd y profion yn cael eu cynnal yn y flwyddyn ariannol newydd.	3	2	6		A (Adolyg-wyd 16.11.22)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforae-thol

Sgorio'r Risg					
Tebygolrwydd	**Isel Iawn = 1**	**Isel = 2**	**Canolig = 3**	**Uchel = 4**	**Uchel Iawn = 5**
Effaith	**Isel Iawn = 1**	**Isel = 2**	**Canolig = 3**	**Uchel = 4**	**Uchel Iawn = 5**

Sgôr Cyfunol	Risg Cyffredinol
1 – 4	Isel
6 – 14	Canolig
15 – 25	Uchel

EITEM RHIF 7

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	22 Mawrth 2023
TEITL	**STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG**
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
PWRPAS	I gymeradwyo fersiwn terfynol o'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer 2022-27

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn ystyriaeth gan y Gweithgor Aelodau ar y 7fed o Ragfyr 2022, anfonwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg Drafft allan am ymgynghoriad cyhoeddus.

1.2 Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o'r 8fed o Ragfyr 2022 hyd at y 3ydd o Chwefror 2023.

1.3 Anfonwyd gwahoddiadau uniongyrchol i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus at 137 o sefydliadau, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yr Awdurdod, grwpiau a sefydliadau cymunedol, elusennol a thrydydd sector yn ogystal â grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig. Anfonwyd gwahoddiadau hefyd at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned sydd o fewn ac yn ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri.

1.4 Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn uniongyrchol berthnasol i weithredu'r cynllun e.e. cynigion i gyd-weithio ac awgrymiadau ar weithredu. Mae'r sylwadau hynny wedi cael eu rhannu gyda'r swyddogion perthnasol i'w hystyried wrth fynd i'r afael ar y ffrydiau gwaith a phrosiectau perthnasol o fewn y Strategaeth.

1.5 Bu i'r Grŵp Llywio ar gyfer Datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg newydd, ymgynnull ar yr 8fed o Chwefror i ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd a chytuno a'r newidiadau ac ychwanegiadau i'r Strategaeth.

1.6 Rhoddwyd ystyriaeth bellach i osod targedau, ac ar ôl adolygu'r sylwadau a dderbyniwyd ar hyn, cytunwyd ar ddau darged i'w cynnwys o fewn y Strategaeth derfynol.

2. GOBLYGIADAU ADNODDAU

2.1 Dim goblygiadau uniongyrchol ychwanegol, gan fod y camau gweithredu wedi cael eu hymgorffori i raglenni gwaith gwasanaethau eisoes.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Cymeradwyo'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg ynghlwm ac awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i'w chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

4. PAPURAU CEFNDIR

4.1 Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27

STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG

A STRATEGY FOR PROMOTING THE WELSH LANGUAGE

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

eryri.llyw.cymru

STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG

A STRATEGY FOR PROMOTING THE WELSH LANGUAGE

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol, ond rydym yn credu ei bod yn her werth chweil a bod angen i ni osod uchelgais o'r fath os ydym am sicrhau hyfywedd yr iaith ar gyfer cenedlaethau i ddod."

'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr'
Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru

"The Welsh language is one of the treasures of Wales. It is part of what defines us as people and as a nation. Our ambition as Welsh Government is to see the number of people able to enjoy speaking and using Welsh reach a million by 2050. This is certainly a challenging ambition, but a challenge we believe is worthwhile and necessary if we are to secure the vitality of the language for future generations"

'Cymraeg 2050: A million Welsh speakers'

Welsh Government's Welsh Language Strategy

1. Cyflwyniad

Mae'r iaith Gymraeg, fel un o ieithoedd byw hynaf Ewrop yn ganolog i dreftadaeth ddiwylliannol Eryri. Trwy gydol y canrifoedd, mae Eryri wedi chwarae rhan ganolog yn nigwyddiadau hanesyddol mwyaf arwyddocaol Cymru, a thrwy gydol hyn mae'r iaith Gymraeg wedi bod wrth galon y bobl a'r digwyddiadau yn yr ardal hon.

Heddiw, y gornel hon o Gymru sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y wlad. Yn anffodus, nid yw hyn yn golygu bod yr iaith yn ffynnu, gan fod cyfrifiad 2021 wedi dangos i ni fod y niferoedd wedi gostwng.

Fel y brif iaith mewn llawer o amgylcheddau cymdeithasol a phroffesiynol yn y Parc, mae bywiogrwydd yr iaith Gymraeg wedi ei adnabod fel nodwedd unigryw Eryri, ac mae gan yr awdurdod ddyletswydd i'w diogelu yn ogystal â'i hyrwyddo drwy bob agwedd ar ei waith. Fel nodwedd arbennig mae wedi'i chynnwys yng Nghynllun Eryri, Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn rhan fywiog o'n bywyd bob dydd.

1. Introduction

The Welsh language, as one of the oldest living languages in Europe is integral to Eryri's cultural heritage. Throughout the centuries, Eryri has played a central part in Wales' most significant historical events, all the while the Welsh language has been at the heart of the people and events of this area.

Today, this corner of Wales has some of the highest number of Welsh speakers in the land. Sadly, this does not mean that the language is thriving, as the 2021 census showed us that numbers have declined.

As the primary language in many social and professional environments within the Park, the vibrancy of the Welsh language has been identified as an unique quality of Eryri which the authority has a duty to protect as well as promote through all aspects of its work. As a special quality it has been included in Cynllun Eryri, the National Park Management Plan to ensure that it continues to be a vibrant part of our everyday life.

2. Cyd-destun Polisi

Nid yw'r Strategaeth hon yn eistedd mewn gwagle. Yn wir, mae'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd ac yn ateb yn uniongyrchol i'n pwrpasau statudol ac felly mae hi wedi'i wreiddio yn ein gwaith bob dydd.

Mae'r Awdurdod yn datblygu a gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu Cynllun Eryri – Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol Eryri, a Datganiad Llesiant yr Awdurdod.

Mae'r 3 dogfen uchod yn gonglfaen i waith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau fel y'u diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

2. Policy Context

This Strategy does not sit in a vacuum. As it reflects our core values and answers directly to our statutory purposes, it has been ingrained in our everyday work.

The Authority develops and implements its strategic corporate planning through the adoption of Cynllun Eryri – the National Park Management Plan, the Eryri Local Development Plan, and the Authority's Well-being Statement.

These 3 documents represent the cornerstone for the Authority's work in fulfilling its primary purposes as defined in the Environment Act 1995 and in implementing its vision.

Cynllun Eryri

Fel un o naw rhinwedd arbennig y Parc Cenedlaethol, mae bywiogrwydd yr iaith Gymraeg wedi'i chynnwys yng Nghynllun Eryri, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn rhan fywiog o'n bywyd bob dydd. Mae polisïau penodol o fewn y cynllun yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei dathlu, ei chefnogi a'i chryfhau.

Cynllun Eryri

As one of the nine special qualities of the National Park, the vibrancy of the Welsh language has been included in Cynllun Eryri, to ensure that it continues to be a vibrant part of our everyday life. Specific policies within the plan ensure that the Welsh language continues to be celebrated, supported and strengthened.

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 -31

Mae polisi penodol o fewn CDLl Eryri yn cydnabod yr iaith Gymraeg fel rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau. Mae'r polisi hwn a'r Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ymdrin â datblygiadau a all gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau.

Eryri Local Development Plan 2016 -31

A specific policy within the Eryri LDP recognises the Welsh language as part of the social and cultural fabric of communities. This policy and the associated Supplementary Planning Guidance sets out the manner in the which the Authority will deal with developments which may have an effect on the future of the Welsh language within communities.



Datganiad Llesiant 2021 – 26

Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae Datganiad Llesiant yr Awdurdod yn nodi ei 3 Amcan Llesiant, sef Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio. Mae'r iaith Gymraeg wedi'i chydnabod fel agwedd bwysig o gynnal cymuned gydnerth, a dyna pam mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i barhau i'w hyrwyddo a'i chefnogi'n weithredol.

Well-being Statement 2021 – 26

As required by the Well-being of Future Generations Act 2015, the Authority's Well-being Statement sets out its 3 Well-being Objectives, of Resilient Environments, Resilient Communities and Resilient Ways of Working. The Welsh language has been recognised as an important aspect of maintaining a resilient community, which is why the Authority has committed to continue to promote and actively support it.


AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DATGANIAD LLES
2021-2026

Mabwysiadwyd gan yr Awdurdod Mawrth 2021

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio i gyflawni gweledigaeth a rennir, a fynegir yn y Ddeddf fel y saith nod llesiant cenedlaethol:

Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru sy'n fwy Cyfartal	Cymru o gymunedau Cydlynus	Cymru â Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru Gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ddyletswydd gyfreithiol i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Yn y Ddeddf mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei chynrychioli gan y pum ffordd o weithio, sef:

Hir Dymor · Atal · Integreiddio · Cydweithio · Cynhwysol

Mae'r ddogfen hon yn nodi amcanion llesiant diwygiedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn disgrifio sut y byddant yn ein helpu i gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru ac yn sefydlu'r rhesymeg a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Yn sail i'n hamcanion llesiant, mae ein hegwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Gweledigaeth, Blaenoriaethau Gwasanaeth a'n Rhaglen Waith Gorfforaethol.

Cymraeg 2050:
Miliwn o Siaradwyr Cymraeg

Y tu allan i'r Awdurdod, mae'r Strategaeth hon hefyd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â 3 phrif thema Strategaeth Llywodraeth Cymru h.y. cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol (isadeiledd a chyd-destun) ar ei chyfer.

Cymraeg 2050:
A Million Welsh Speakers

Outside of the Authority, this Strategy also directly aligns with the 3 main themes of Welsh Government's Strategy i.e. to increase the number of Welsh speakers, increasing the use of Welsh, and creating favourable conditions (infrastructure and context) for it.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

3. Cyd-destun Economaidd ac Amgylcheddol

Nid gwaith hawdd yw llunio strategaeth iaith dros y tymor canolig i hir. Gall yr amgylchiadau economaidd a chymdeithasol newid yn eithaf cyflym, ac felly hefyd newidiadau yn y boblogaeth. Dangosir hyn yn bur amlwg ar ffurf yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd pellgyrhaeddol sy'n deillio o'r pandemig Covid-19.

Yn hanesyddol, gwyddwn fod bobl sydd yn symud i mewn ac allan o ardal y Parc Cenedlaethol yn gallu cael effaith sylweddol ar y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Yn 2020, wrth i sectorau eraill gloi lawr a chael eu heffeithio'n ddrwg, fe aeth y farchnad dai yn groes i'r duedd. Mae prisiau tai lleol wedi parhau i godi ers yr adeg hon, wrth i fwy o bobl geisio symud allan o ardaloedd trefol poblog i ardaloedd mwy gwledig ac arfordirol; rhai yn manteisio ar y gallu newydd i gyflawni eu swyddi o bell, tra bod eraill yn manteisio ar y cyfle i ymddeol yn gynnar.

3. Economic and Environmental Context

It is no easy task to formulate a language strategy over the medium to long term. The economic and social environment can change quite quickly, and with it changes to the population. A stark demonstration of this is the far reaching social and economic effects of the Covid-19 pandemic.

Historically, we know that people moving in and out of the National Park area can have a significant impact on the number of Welsh speakers in the area. In 2020, as other sectors locked down and were badly affected, the housing market bucked the trend. Local house prices have continued to rise since this time, as more people looked to move out of urban highly populated areas into more rural and coastal areas; some taking advantage of the new ability to carry out their jobs remotely, whilst others took the opportunity to retire early.

Wrth i ni ddod allan o'r cyfyngiadau symud cyntaf, dwysodd buddsoddiad mewn ail gartrefi a chartrefi gwyliau, wedi'i ysgogi gan y cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol. Parhaodd hyn i godi prisiau tai ymhellach fyth o gyrraedd llawer o fewn y cymunedau. Mae'r sgil-effaith ychwanegol ar argaeledd cartrefi i'w rhentu wedi arwain at drafferthion gwirioneddol i lawer o bobl ifanc allu aros yn y cymunedau y cawsant eu geni a'u magu ynddynt.

Mae tystiolaeth yn dangos i ni fod y cynnydd mewn ail gartrefi a chartrefi gwyliau yn Eryri, fel mewn ardaloedd eraill, yn araf erydu cymunedau wrth iddynt ddod yn gymunedau rhan-amser heb ddigon o boblogaeth gydol y flwyddyn i gynnal y busnesau a'r cyfleusterau hynny sydd wrth eu gwraidd. Mae ysgolion pentrefi, canolfannau cymunedol, swyddfeydd post, siopau pentref a thafarndai yn dod o dan bwysau cynyddol i oroesi.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'n anodd gweld unrhyw newyddion economaidd cadarnhaol. Mae digwyddiadau byd-eang fel y rhyfel yn yr Wcráin a thywydd eithafol oherwydd newid yn yr hinsawdd wedi gyrru prisiau ynni, tanwydd a bwyd i fyny gan achosi argyfwng costau byw, sydd wedi'i waethygu gydag effeithiau ychwanegol Brexit.

As we emerged out of the first lockdown, investment in second and holidays homes intensified, fuelled by the restrictions on international travel. This continued to drive up house prices out of the reach of many from within the communities. The additional knock-on effect on the availability of homes to rent, has resulted in a real struggle for many young people to be able to remain in the communities they were born and raised in.

Evidence shows us that the increase in second and holiday homes in Eryri, as in other areas, slowly erodes communities as it becomes a part-time community with insufficient all year-round population to sustain those businesses and facilities that lie at its heart. Village schools, community centres, post offices, village shops and pubs come under increased pressure to survive.

Looking forward, it is difficult to see any positive news economically. Global events such as the war in Ukraine and extreme weather due to climate change has driven up energy, fuel and food prices causing a cost-of-living crisis, which has been exacerbated with the added effects of Brexit.

Os byddwn yn mynd i mewn i ddirwasgiad hir arall dros y blynyddoedd nesaf, mae'n debygol o gael effaith ar y boblogaeth leol - boed hynny yn unigolion neu deuluoedd ifanc yn symud allan o'r ardal i chwilio am opsiynau cyflogaeth a thai fforddiadwy, sydd yn eu tro yn debygol o gael effaith andwyol ar y Gymraeg.

Gwyddom fod newidiadau i lefelau mudo dros y blynyddoedd i ddod yn her i ffyniant y Gymraeg mewn ardaloedd gwledig.

Y tu allan i'r effaith economaidd, cafodd y pandemig effaith hefyd ar y cyfleoedd amrywiol ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol o fewn ein cymunedau. Roedd cyfyngiadau a phellter cymdeithasol yn lleihau'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd yn anffurfiol yn y gwaith ac yn gymdeithasol.

If we are to head into another prolonged recession over the coming years, it is likely to have an effect on the local population – both individuals and young families moving out of the area to look for employment and affordable housing options, which in turn is likely to have a detrimental effect on the Welsh language.

We know that changes to migration levels over the coming years presents a challenge to the prosperity of the Welsh language in rural areas.

Outside of the economic impact, the pandemic also had an effect on the various opportunities for social interactions within our communities. Restrictions and social distancing reduced opportunities for Welsh speakers and learners to use the language together informally at work and socially.

O fewn cymunedau, mae dirwyn grwpiau a digwyddiadau amrywiol i ben yn anochel wedi arwain at leihad mewn cyfleoedd i ddefnyddwyr a dysgwyr allu ymarfer yr iaith yn bersonol gydag eraill. Er bod y cyfyngiadau wedi mynd bellach ac y gall gweithgareddau cymdeithasol ailddechrau, efallai y bydd rhwystrau pellach yn y dyfodol oherwydd effeithiau'r dirywiad economaidd.

I wrthweithio'r effeithiau hyn, mae cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd yn allweddol.

Fel Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd â chylch gorchwyl penodol, nid oes gennym ddylanwad uniongyrchol mewn meysydd lle mae dewis iaith yn bwysig. Fodd bynnag, drwy gydweithio'n agos â sefydliadau partner drwy er enghraifft Fforwm Eryri, gallwn sicrhau ein bod yn rhannu adnoddau ac yn rhoi cymorth lle mae ei angen i gael yr effaith fwyaf, tra ar yr un pryd yn parhau â'n gwaith beunyddiol o hyrwyddo'r Gymraeg drwy amrywiol agweddau o'n gwaith.

Within communities, the inevitable winding down of various groups and events, have led to a reduction in opportunities for less frequent users and learners to practice the language in person with others. Whilst the restrictions have now gone and social activities can resume, there may be further barriers posed in the future through the effects of the economic downturn.

To counteract these effects, supporting children, young people and families to learn and use Welsh in everyday life is key.

As a National Park Authority with a specific remit, we do not have a direct influence in areas where choice of language is important. However, by working closely with partner organisations through for example Fforwm Eryri, we can ensure that we share resources and give support where it is needed to make the biggest impact, whilst at the same time continue our everyday promotion of the Welsh language through various aspects of our work.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

4. Gweledigaeth

Gweledigaeth y Strategaeth hon yw gweld y Gymraeg yn ffynnu ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Gwireddu'r Weledigaeth

Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar seiliau ein strategaeth wreiddiol. Yn ystod ei datblygiad, rydym wedi wynebu nifer o heriau, yn enwedig y diffyg data diweddaraf o Gyfrifiad 2021 y DU. Dyma'r unig ffynhonnell gywir o ddata cymharol ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn Eryri sydd ar gael i ni.

Mae'r data iaith Gymraeg a gyhoeddwyd yn ddiweddar o Gyfrifiad y DU 2021 yn dangos gostyngiad pryderus iawn yn niferoedd cyffredinol siaradwyr Cymraeg. Mae breuder yr iaith yn amlwg i bawb, ac os ydym am wireddu ein gweledigaeth o weld y Gymraeg yn ffynnu yn Eryri, bydd angen ymdrech ar y cyd gan bob un ohonom.

Er bod y Strategaeth hon yn cadw'r weledigaeth o'r Strategaeth flaenorol, rydym fodd bynnag wedi adolygu ein meysydd blaenoriaeth, er mwyn sicrhau y gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar ble y gallwn gael yr effaith fwyaf a lle gallwn wneud gwahaniaeth.

4. The Vision

The Vision for this Strategy is to see the Welsh language flourish in Snowdonia National Park.

Fulfilling the Vision

This Strategy builds upon the foundations of our original strategy. During its development, we have faced a number of challenges, not least the lack of up-to-date data from the 2021 UK Census. This is the only accurate source of comparative data on the number of Welsh language speakers within Eryri available to us.

The recently published Welsh language data from the 2021 UK Census shows a very worrying decline in the overall numbers of Welsh language speakers. The fragility of the language is clear for all to see, and if we are to fulfil our vision of seeing the Welsh language flourish in Eryri, it will need a concerted effort from all of us.

Although this Strategy keeps the vison from the previous Strategy, we have however reviewed our priority areas, to ensure that we can focus our efforts on where we can have the biggest impact and where we can make a difference.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Fel Awdurdod Parc Cenedlaethol, cydnabyddir nad oes gennym y cylch gwaith a fyddai'n ein galluogi i gael dylanwad uniongyrchol ar nifer o feysydd allweddol sy'n hanfodol ar i sicrhau trosglwyddiad iaith. Mae tystiolaeth yn dweud wrthym mai ymyriadau uniongyrchol o fewn y gymuned, y teulu ac o fewn ysgolion yw'r meysydd pwysicaf i ganolbwyntio arnynt wrth anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'n anodd iawn felly i ni osod targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol, gan nad oes gennym reolaeth uniongyrchol dros hynny.

Er ein bod bellach yn gwybod bod gostyngiad o 1% (3,440 o bobl) wedi bod yng Ngwynedd a gostyngiad o 1.5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy (1,600 o bobl), nid oes gennym y data ward manwl eto a fyddai'n ein galluogi i gyfrifo'r sefyllfa union o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol.

Fodd bynnag, wedi dweud hynny rydym wedi penderfynu gosod targed i o leiaf gynnal y nifer presennol o siaradwyr Cymraeg yn Eryri, ac i weithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus i gynyddu'r niferoedd dros y 5 mlynedd nesaf.

As a National Park Authority, it is recognised that we do not have the remit which would enable us to have a direct influence on a number of key areas which are vital for securing language transfer. Evidence tells us that it is direct interventions within the community, the family and within schools that are the most important areas to focus on when aiming to increase the number of Welsh speakers. It is therefore very difficult for us to set a target for increasing the number of Welsh speakers within the National Park, as we do not have direct control over it.

Although we now know that there has been a 1% decrease (3,440 people) in Gwynedd and a 1.5% decrease in the number of Welsh speakers in Conwy (1,600 people), we do not yet have the detailed ward data that would enable us to calculate the exact position within the borders of the national park.

However, that being said we have decided to set a target to at least maintain the current number of Welsh speakers in Eryri, and to work with our public sector partners on increasing the numbers over the next 5 years.

Fel y dangosodd ein Strategaeth flaenorol, er na allwn gysylltu effaith ein gweithgareddau hybu'r Gymraeg yn uniongyrchol gyda nifer y siaradwyr Cymraeg yn Eryri, mae digon o waith cadarnhaol y gallwn ei wneud o hyd a fydd yn dylanwadu ar y nifer cyffredinol. Gyda hyn mewn golwg, rydym hefyd wedi gosod ail darged o gynyddu nifer y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Eryri. Mae'r targed hwn yn ystyrlon ac yn fesuradwy ac o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Gallwn ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a gwella eu sgiliau, gallwn gynyddu amlygrwydd yr iaith, gallwn wella dealltwriaeth pobl o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol yr iaith, a gallwn hyrwyddo'r iaith fel un o'r sgiliau defnyddiol mewn busnes modern.

Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn, rydym wedi pennu 3 Maes Blaenoriaeth Allweddol i ganolbwyntio arnynt:

Maes Blaenoriaeth Allweddol 1:

Y Gweithle

Maes Blaenoriaeth Allweddol 2:

Busnesau

Maes Blaenoriaeth Allweddol 3:

Y Gymuned

As our previous Strategy demonstrated, although we cannot link the effect of our Welsh language promotion activities directly on the number of Welsh speakers in Eryri, there is still plenty of positive work we can undertake to influence the overall number. With this in mind, we have also set a second target of increasing the number of opportunities to use the Welsh language in Eryri. This target is both meaningful and measurable and within the control of the Authority.

We can provide opportunities for learners to practise and improve their skills, we can increase the visibility of the language, we can improve people's understanding of the historical and cultural significance of the language, and we can promote the language as a useful skill in modern business.

To facilitate this work, we have set 3 Key Priority Areas to focus on:

Key Priority Area 1:

The Workplace

Key Priority Area 2:

Businesses

Key Priority Area 3:

The Community

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymr
© Crown Copyright Visit Wales

5. Meysydd Blaenoriaeth Allweddol

Maes Blaenoriaeth Allweddol 1: Y Gweithle

Nod:

- Cefnogi ein staff i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau rhagorol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogi ein staff i hyrwyddo ac annog defnydd o'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynyddu amlygrwydd y Gymraeg.
- Darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg fel medr gwerthfawr a hanfodol yn y gweithle modern.

Canlyniadau:

- Gwelliant yn lefelau sgiliau Cymraeg y staff.
- Gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnydd yn y cyfleoedd i bobl ifanc brofi a gwerthfawrogi gwerth y Gymraeg yn y gweithle modern.
- Mynd ati i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Key Priority Areas

Key Priority Area 1: The Workplace

Aim:

- To support our staff to enable them to provide excellent services through the medium of Welsh.
- To support our staff to promote and actively encourage use of our services through the medium of Welsh.
- To increase the visibility of the Welsh language.
- To provide opportunities to promote the Welsh language as a valuable and essential skill in the modern workplace.

Results:

- An improvement in staff Welsh language skill levels.
- An improvement in the quality of the services through the medium of Welsh.
- An increase in opportunities for young people to experience and appreciate the value of the Welsh language in the modern workplace.
- Actively promoting and raising awareness of the availability of services through the medium of Welsh.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Y Camau Nesaf

Ein nod erioed fu sicrhau nad oes angen gwneud cais am ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, eu bod ar gael ar y pwynt cyswllt cyntaf ac felly'n hawdd eu cyrraedd ac yn hawdd i'w defnyddio. Er bod gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ganran uchel o siaradwyr Cymraeg i hwyluso hyn, gallwn gefnogi ein staff ymhellach drwy wella eu sgiliau, yn enwedig eu sgiliau ysgrifenedig.

Gan adeiladu ar y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, byddwn yn datblygu rhaglen o opsiynau ar gyfer gwella sgiliau yn y Gymraeg. Bydd staff sydd ei angen wedyn yn gallu dewis opsiwn sy'n cyd-fynd â'u hamserlen waith. Bydd hyn yn cynnwys datblygu modiwl ar-lein y gellir ei gyrchu unrhyw bryd yn ogystal â sesiynau dosbarth hyfforddi ar-lein ac wyneb yn wyneb. Fel rhan o'r pecyn hyfforddi cyffredinol, bydd codi ymwybyddiaeth o'r dechnoleg sydd ar gael i brawf ddarllen y Gymraeg hefyd yn cael ei ymgorffori, fel bod staff yn gwbl ymwybodol o'r teclynnau sydd ar gael i'w helpu.

The Next Steps

Our aim has always been to ensure that our services through the medium of Welsh do not need to be requested, that they are available at the first point of contact, therefore easily accessible and easy to use. Whilst the Authority currently has a high percentage of Welsh speakers to facilitate this, we can support our staff further by improving their skills, in particular their written skills.

Building upon the support currently available, we will develop a programme of options for improving Welsh language skills. Staff who need it, will then be able to choose an option that fits into their work schedule. This will include developing an on-line module which can be accessed at any time as well as online and face-to-face classroom type training sessions. As part of the overall training package, awareness raising of the technology available to proofread Welsh will also be incorporated, so that staff are fully aware of the tools available to help them.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Ar gyfer gweithwyr newydd, mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ymgorffori tri modiwl cyntaf ein Cynllun Llysgenhadon llwyddiannus iawn o fewn y rhaglen sefydlu ar-lein, y bydd rhaid i bob aelod o staff ei chwblhau o fewn tri mis cyntaf eu cyflogaeth. Yna, ein bwriad yw ehangu hyn ymhellach drwy gynnwys modiwl ar wella sgiliau yn y Gymraeg, a fydd yn orfodol i'r staff hynny sydd angen rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol i gyrraedd y safon ofynnol er mwyn cyflawni eu swydd. Bydd cwblhau'r modiwl hwn yn rhan o becyn o hyfforddiant fydd angen ei gyflawni yn ystod y cyfnod prawf. Bydd gweithwyr newydd yn ymrwymo i wella eu sgiliau Cymraeg ar y cam cynnig o'u cyflogaeth a bydd angen iddynt ddangos eu cynnydd i gwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus o fewn eu rôl newydd.

Byddwn hefyd yn cefnogi cyfleoedd i wella Cymraeg llafar yn anffurfiol drwy gynnal sesiynau 'Bore Coffi' a gweithgareddau gwirfoddoli a chymdeithasol i staff.

Fel cam cyntaf byddwn yn edrych ar gydweithio gydag awdurdodau sector cyhoeddus eraill o fewn Gwynedd, a fyddai'n ein galluogi ni i gyd i rannu syniadau ac adnoddau, fel ein bod yn gallu datblygu adnoddau dysgu yn y modd mwyaf cost effeithiol.

For new employees, work has commenced on incorporating the first three modules of our very successful Ambassadors Scheme into the on-line induction programme, which all staff must complete within the first three months of employment. We will then look to expand this further by including a module on improving Welsh language skills, which will be compulsory for those staff who require some additional training to reach the required standard for their post. Undertaking this module will form part of a package of training required during the probationary period.

We will also support opportunities for informally improving spoken Welsh through 'Bore Coffi' sessions and staff social and volunteering activities.

As a first step we will look at collaborating with other public sector authorities within Gwynedd, which would enable us all to share ideas and resources, so that we are able to develop learning resources in the most cost effective way.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Mae angen inni hefyd gynllunio ymlaen llaw ac ystyried ein gweithlu yn y dyfodol. Rydym wedi mynychu Ffeiriau Swyddi a Gyrfaoedd i hyrwyddo pwysigrwydd meddu ar sgiliau Cymraeg er mwyn gweithio i'r Awdurdod, yn ogystal â chynnig lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr ysgol a choleg. Nid yw'r rhan fwyaf o'r ffeiriau hyn wedi cael eu cynnal ers y pandemig, ond mae'r rhain wedi ailddechrau erbyn hyn, ac felly mae'n rhaid inni fanteisio'n llawn arnynt rŵan.

Dros y pum mlynedd nesaf mae angen i ni ddatblygu'r agwedd hon o'n gwaith ymhellach i wrthweithio'r anawsterau recriwtio rydym yn eu profi. Rhan bwysig o hyn yw annog pobl ifanc i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg, i'w gweld fel sgil bywyd a gyrfa ddefnyddiol a fydd yn eu rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer eu dyfodol.

Os bydd cyllid yn caniatáu, byddwn yn edrych ar ddatblygu rhaglen brentisiaethau i arfogi a hyfforddi pobl ifanc i baratoi i gael gyrfa gyda'r Awdurdod, yn ogystal â datblygu staff presennol i symud ymlaen i swyddi cyflog uwch o fewn yr Awdurdod.

Bydd datblygu ein rhaglenni gwirfoddoli ymhellach i gynnwys ystod eang o gyfleoedd i bobl ifanc yn enwedig, nid yn unig yn codi ymwybyddiaeth o'r holl gyfleoedd gyrfa posibl sydd ar gael iddynt gyda'r Awdurdod, ond yn gadael iddynt brofi'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel rhan naturiol o fywyd gwaith bob dydd.

We also need to plan ahead and consider our future workforce. We have attended Jobs and Careers Fairs to promote the importance of having Welsh language skills to work for the Authority, as well as offering work experience placements for school and college students. Most of these fairs have not taken place since the pandemic. These have since recommenced, so we must now take full advantage of them.

Over the next five years we need to develop this aspect of our work further to counteract the recruitment difficulties we are experiencing. An important part of this is encouraging young people to use and develop their Welsh language skills, to see it as a useful life and career skill which will stand them in good stead for their future.

If funding allows, we will look at developing an apprenticeships programme to equip and train young people for careers with the Authority, as well as developing current staff to progress to higher paid jobs within the Authority.

Further developing our volunteer programmes to include a wide range of opportunities for young people especially, will not only raise awareness of all the possible career opportunities open to them with the Authority, but will let them experience Welsh being used as a natural part of everyday work.

Mae gennym eisoes ein Cynllun Ceidwaid Ifanc llwyddiannus iawn, yn ogystal â Chynllun Wardeiniaid Gwirfoddol Cader Idris a'r Wyddfa. Mae'r Cynllun Ceidwaid Ifanc yn benodol, yn rhoi blas i bobl iau o'r ystod o wahanol weithgareddau a phrofiadau yn ystod eu lleoliad gwaith. Byddwn yn adolygu llwyddiant y cynlluniau hyn ac yn ceisio trosi arfer gorau er mwyn datblygu cyfleoedd gwirfoddoli eraill.

Mae angen inni hefyd wneud mwy i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo argaeledd gwasanaethau Cymraeg er mwyn annog y cyhoedd i wneud defnydd llawn ohonynt. I ddechrau, byddwn yn gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy yn ein mannau cyhoeddus a'n derbynfeydd nag y mae ar hyn o bryd, drwy wella arwyddion a hyrwyddo. Bydd gwella amlygrwydd y Gymraeg yn cyfleu'r neges bod argaeledd yr iaith yn beth cyffredin ac yn codi ei phroffil. Mae hyn yn bwysig nid yn unig i siaradwyr Cymraeg ond hefyd i'r di-Gymraeg; yn enwedig ymwelwyr sydd efallai heb fawr o ddealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith.

Byddwn hefyd yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg yn weithredol, ar-lein ac yn ein cyfathrebiadau ysgrifenedig - gan gynnal ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, yn ein gwahoddiadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau, yn ogystal â ffyrdd mwy anffurfiol. Mae hyn eisoes wedi'i gynnwys fel targed craidd yn Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu'r Awdurdod. Mae gan holl staff yr Awdurdod rôl i'w chwarae yn hyn, ac felly mae angen i ni gefnogi a rhoi arweiniad i'w galluogi i wneud hyn.

We already have our very successful Young Rangers Scheme, as well as our Cader Idris and Yr Wyddfa Volunteer Wardens Scheme. The Young Rangers Scheme in particular, gives younger people a taste of a range of different activities and experiences over the course of the placement. We will review the success of these schemes and look to apply best practice into developing other volunteer opportunities.

We also need to do more to proactively promote the availability of Welsh language services to encourage the public to make full use of them. To start with, we will make the Welsh language more visible in our public spaces and reception areas, than it currently is, through improved signage and promotion. Improving the visibility of the Welsh language will normalise its availability and raise its profile. This is important not only for Welsh speakers but also for non-Welsh speakers; especially visitors who may have little understanding of the importance of the language.

We will also actively promote our Welsh language services, both on-line and in our written communications – undertaking social media campaigns, in our invitations and event information, as well as in more informal ways. This has already been included as a core target in the Authority's Communication and Engagement Strategy. All of the Authority's staff have a role to play in this, and therefore we need to support and give guidance to enable them to do this.

Dangosyddion:

- Asesiadau lefel sgil (iau) ar gyfer staff gan ddefnyddio Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg yr Awdurdod.
- Nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau a / neu fodiwlau gloywi'r Gymraeg.
- Cynnydd yn nifer y trigolion sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg – wyneb yn wyneb ac ar-lein.
- Niferoedd y bobl sy'n cael cyfleoedd i gael profiad gwaith a gwirfoddoli gyda'r Awdurdod.

Indicators:

- Skill level assessments for staff using the Authority's Welsh Language Skills Framework.
- Number of staff attending Welsh language improvement courses and / or modules.
- An increase in the number of residents who use services in Welsh – face to face and on-line.
- Numbers of people given opportunities to experience work and volunteering with the Authority.

Maes Blaenoriaeth Allweddol 2: Busnes

Nod:

- Sefydlu'r Gymraeg fel iaith busnes gyffredin o fewn yr ardal.
- Darparu cefnogaeth i fusnesau lleol gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Darparu cefnogaeth i fusnesau twristiaeth lleol i hybu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r iaith ymhlith ymwelwyr.
- Gwella ymwybyddiaeth perchnogion a rheolwyr busnes o werth sgiliau Cymraeg eu gweithlu a'r gallu i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniadau:

- Cynnydd yn y nifer o fusnesau sydd wedi cydnabod a chofleidio bywiogrwydd y Gymraeg fel rhinwedd arbennig o Eryri.
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n gwerthfawrogi a pharchu bywiogrwydd yr iaith Gymraeg fel rhinwedd arbennig o Eryri.

Key Priority Area 2: Businesses

Aim:

- To normalise Welsh as a language of business within the area.
- To provide support for local businesses to increase their use of the Welsh language.
- To provide support for local tourism businesses to promote understanding and appreciation of the language to visitors.
- To improve awareness amongst business owners and managers of the value of Welsh language skills amongst their workforce and the ability to offer services through the medium of Welsh.

Results:

- An increase in the number of businesses who have recognised and embraced the vibrancy of the Welsh language as a special quality of Eryri.
- An increase in the number of visitors who appreciate and respect the vibrancy of the Welsh language as a special quality of Eryri.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Y Camau Nesaf

Mae mwy i hybu'r Gymraeg nag anelu at gynyddu nifer y siaradwyr yn unig. Bydd rhan bwysig o'r Strategaeth hon yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a chynyddu parch at yr iaith ymhlith pobl nad ydynt yn ei siarad. Mae'r Parc Cenedlaethol yn denu miliynau lawer o ymwelwyr bob blwyddyn, nid yn unig o'r DU ond o bob rhan o'r byd. Un o'r pethau sy'n ein gwneud ni'n unigryw ymhlith Parciau Cenedlaethol eraill yw pa mor gyffredin yw'r Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni mewn bywyd bob dydd, ac mae angen dathlu hyn a'i hyrwyddo'n gadarnhaol i'n hymwelwyr ac i bobl sy'n symud i'r ardal.

I wneud gwahaniaeth gwirioneddol o fewn y Parc Cenedlaethol, mae angen i ni annog busnesau i gofleidio'r Gymraeg o fewn eu harlwy. Mae llawer o fusnesau lleol yn gwneud hyn yn barod wrth gwrs – mae rhai busnesau amlwg sydd wedi defnyddio'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw, gan ychwanegu gwerth at eu busnesau a gwneud iddynt serennu ymhlith y gystadleuaeth. Mae llawer i'w ddysgu gan y busnesau hyn a'u harferion gorau, a gellir defnyddio hyn i werthu manteision dwyieithrwydd i fusnesau eraill yn Eryri.

The Next Steps

There is more to promoting the Welsh language than just aiming to increase the number of speakers. An important part of this Strategy will focus upon raising awareness and increasing respect for the language amongst people who do not speak it. The National Park attracts many millions of visitors annually, not only from the UK but from all over the world. One of the things that make us unique to other National Parks is the prevalence of the Welsh language and its use in everyday life, and this needs to be celebrated and positively promoted to both our visitors and to people who move into the area.

To truly make a difference within the National Park, we need to encourage businesses to embrace the Welsh language within their offering. Many local businesses do this already of course – there are some prominent businesses that have used the Welsh language as a unique selling point, adding value to their businesses and making them stand out from the competition. There is much to be learned from these businesses and their best practices, and this can be used to sell the benefits of bilingualism to other businesses within Eryri.


© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Mae potensial mawr yn hyn o beth i'r sector twristiaeth. Bydd llawer wrth gwrs eisoes yn cyflogi staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu gwasanaethu cwsmeriaid yn ddwyieithog, ond mae potensial i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy. Bydd cynyddu gwelededd yn codi ymwybyddiaeth ymwelwyr yn eu hisymwybod o'r ffaith bod y Gymraeg yn iaith fyw weithredol a ddefnyddir yn feunyddiol yn ein bywyd busnes a chymdeithasol. Mae hwn yn gam cyntaf cadarnhaol wrth geisio cynyddu parch a dealltwriaeth o'r iaith i'r bobl sy'n ymweld â ni.

Mae gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy mewn partneriaeth â Chyrff Rheoli Cyrchfannau Cyngor Gwynedd a Chonwy. Fel rhan o'r Cynllun, byddwn yn datblygu gwasanaeth cyfeirio a chynghori i fusnesau gael cymorth a chefnogaeth i ddatblygu deunyddiau, arwyddion, brandio a marchnata'r Gymraeg. Byddwn hefyd yn cynnig cymorth trwy ein gwasanaeth cyfieithu mewnol i wneud cyfieithiadau ar raddfa fach ar gyfer arwyddion, brandio ac ati, er mwyn helpu busnesau llai i gofleidio'r Gymraeg yn eu harlwy.

There is great potential here for the tourism sector. Many of course will already employ Welsh speaking staff that can service customers bilingually, but there is potential to make the Welsh language more visible. Increasing visibility will subconsciously raise visitor awareness to the fact that the Welsh language is a working living language that is used daily in our business and social life. This is a positive first step in trying to increase respect and understanding of the language to the people who visit us.

Work has commenced on developing a Sustainable Visitor Economy Plan in partnership with Gwynedd and Conwy County Council's Destination Management Bodies. As part of the Plan, we will develop a signposting and advice service for business to access help and assistance with developing Welsh materials, signage, branding and marketing. We will also offer assistance through our in-house translation service to undertake small scale translations for signs, branding etc., to help smaller businesses to embrace the Welsh language in their offering.

Ar lefel ehangach, byddwn yn parhau i weithio gyda chwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol i ddatblygu systemau electronig ac ar-lein gwirioneddol ddwyieithog y gallwn eu defnyddio i gyfoethogi a gwella ein gwasanaethau. Nid tasg fach yw perswadio cwmnïau y bydd y buddsoddiad a wneir ar ffurf amser ac adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i ddatblygu cynnyrch dwyieithog yn talu ar ei ganfed, oherwydd, wedyn, gellir gwerthu eu cynnyrch i wahanol awdurdodau cyhoeddus a busnesau ledled Cymru. Mae ein profiad diweddar gyda JustPark a Smart Parking yn dangos y gallwn gydweithio er mwyn datblygu atebion arloesol.

Ar wahân i amlygrwydd y Gymraeg, byddwn hefyd yn ceisio hyrwyddo dysgu a defnyddio'r iaith ymhellach.

Ers ei lansio ym mis Rhagfyr 2020, mae Cynllun Llysgenhadon Eryri wedi mynd o nerth i nerth gyda channoedd o unigolion a busnesau lleol yn cymryd rhan – a'i wneud yn llwyddiant ysgubol. Mae'r Cynllun yn gyfle hyfforddi unigryw i ddysgu am rinweddau arbennig Eryri ac i helpu i chwarae rhan wrth warchod y Parc Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Cynllun ac yn annog mwy o fusnesau i ymgymryd â'r modiwlau.

On a wider level, we will continue to work with national and international companies to develop truly bilingual electronic and on-line systems we can use to enhance and improve our services. It is no small task to persuade companies that the investment of time and financial resources required to develop a bilingual product will pay dividends, as their products can then be sold to various public authorities and businesses across Wales. Our recent experience with JustPark and Smart Parking shows that we can work together to develop innovative solutions.

Apart from the visibility of the Welsh language, we will also look to further promote the learning and use of the language.

Since its launch in December 2020, the Eryri Ambassador Scheme has gone from strength to strength with many hundreds of individuals and local businesses taking part – making it a resounding success. The Scheme is a unique training opportunity to learn about the special qualities of Eryri and to help play a part in protecting the National Park for future generations. We will continue to promote the Scheme and encourage more businesses to undertake the modules.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Fel un o rinweddau arbennig Eryri, mae modiwl o fewn y Cynllun sy'n amlygu hanes cyfoethog yr iaith Gymraeg yn Eryri, a sut mae'n ffurfio rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r modiwl yn cynnwys dysgu am hanes enwau lleoedd trwy'r straeon, mythau a'r chwedlau sy'n gefndir i'r rhain.

Byddwn yn ceisio datblygu'r modiwl hwn ymhellach, gan ddechrau gyda geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn aml a fyddai'n dangos cwrteisi sylfaenol yn y Gymraeg i'r rhai na allant ei siarad, fel ei fod yn darparu cyflwyniad da i'r Gymraeg. Mi fyddai hyn gobeithio, yn sbarduno pobl i barhau â'u dysgu gyda brwdfrydedd newydd. Mae angen ystyried a fyddai hyn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun ei hun, neu a fyddai mewn gwell sefyllfa fel modiwl annibynnol.

As one of the special qualities of Eryri, there is a module within the Scheme which highlights the rich history of the Welsh language in Eryri, and how it forms an important part of our cultural heritage. The module includes learning about the history of place names through the stories, myths and legends which lay behind them.

We will look to develop upon this module further, starting with often used words and phrases that would demonstrate basic courtesies in Welsh for those who cannot speak it, so that it provides a good introduction to the Welsh language, which would hopefully spur people on to continue with their learning with new found enthusiasm. Consideration needs to be given to whether this would be included in the Scheme itself, or would it be better placed as a standalone module.

Dangosyddion:

- Nifer o fusnesau sydd wedi galluogi eu staff i ymgymryd â Chynllun Llysgenhadon Eryri.
- Nifer y busnesau sydd wedi cynyddu amlygrwydd y Gymraeg o fewn eu busnes.
- Nifer y busnesau sydd wedi cael cymorth i wella amlygrwydd y Gymraeg drwy gyngor a chyfeirio a chyfieithu ar raddfa fach.
- Mabwysiadwyd a gweithredwyd polisi'r awdurdod ar ddefnyddio enwau lleoedd

Maes Blaenoriaeth Allweddol 3: Y Gymuned

Nod:

- Darparu cyfleoedd i gryfhau statws y Gymraeg o fewn ein cymunedau.

Canlyniadau:

- Mae gwarchod yr iaith Gymraeg yn cael ei flaenoriaethu yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri.
- Cynigir ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Croesewir a chefnogir dysgwyr a siaradwyr Cymraeg llai hyderus i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.
- Croesewir a chefnogir dysgwyr a siaradwyr Cymraeg llai hyderus i gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli gyda'r Awdurdod.
- Cynyddir y cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Cynyddir amlygrwydd yr iaith Gymraeg drwy gytuno a mabwysiadu polisi Awdurdod ar ddefnyddio enwau lleoedd cynhenid a hanesyddol Cymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol.

Indicators:

- Number of businesses who have enabled their staff to undertake the Eryri Ambassador's Scheme.
- Number of businesses who have increased the visibility of the Welsh language within their business.
- Number of businesses who have been assisted with improving the visibility of the Welsh language through advice and signposting and small-scale translation.

Key Priority Area 3: The Community

Aim:

- To provide opportunities to strengthen the standing of the Welsh language within our communities.

Results:

- The protection of the Welsh language is prioritised in the Eryri Local Plan.
- To offer a wide range of community activities and events through the medium of Welsh.
- Learners and less confident Welsh speakers welcomed and supported to participate in community events.
- Learners and less confident Welsh speakers welcomed and supported to participate in volunteering opportunities with the Authority.
- Increase opportunities for young people to use Welsh socially.
- To increase the visibility of the Welsh language by agreeing and adopting an Authority policy on the use of indigenous and historical Welsh place names within the National Park.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Y Camau Nesaf

Fel awdurdod cynllunio, rhaid inni ddefnyddio ein pwerau cyfyngedig i sicrhau ein bod yn diogelu ein cymunedau lleol drwy ddarparu tai fforddiadwy.

Bydd adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf, ac un o'r blaenoriaethau allweddol fydd adolygu a chryfhau'r polisïau presennol sy'n ymwneud â thai fforddiadwy ac effeithiau datblygiadau ar yr iaith Gymraeg. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod ein polisïau yn gadarn ac yn addas i'r diben, ac yn gallu achosi newid gwirioneddol a fydd o fudd i'n cymunedau lleol. Mae newid yn golygu opsiynau tai fforddiadwy i bobl ifanc allu aros yn eu cymunedau Cymraeg eu hiaith ac i allu magu'r genhedlaeth nesaf yma.

Next Steps

As a planning authority, we must use our limited powers to ensure that we protect our local communities through the provision of affordable housing.

A review of the Eryri Local Development Plan will take place over the next few years, and one of the key priorities will be to review and strengthen the current policies relating to affordable housing and the effects of developments on the Welsh language. Looking to the future, we must make sure that our policies are robust and fit for purpose and are able to effect real change which will benefit our local communities. Change means affordable housing options for young people to be able to remain in their Welsh speaking communities and to be able to raise the next generation here.

Agwedd bwysig arall i gymunedau yw'r gallu i gymdeithasu yn Gymraeg. Mae angen anogaeth arbennig ar blant a phobl ifanc i weld gwerth y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn enwedig os nad Cymraeg yw iaith gyntaf y cartref. Drwy wneud y Gymraeg yn ddewis naturiol ar gyfer cynnal digwyddiadau a gweithgareddau ac ar gyfer cymdeithasu, gellir atgyfnerthu negeseuon cadarnhaol am yr iaith yn yr isymwybod.

Mae hwn yn faes y gall, ac y mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol ynddo i hyrwyddo'r Gymraeg yn Eryri, ac mae hwn yn waith a fydd yn parhau ac yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Trwy bob agwedd o'n gwaith, mae'r Awdurdod yn darparu nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau bob blwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae ein gwasanaethau Wardeiniaid ac Ymgysylltu yn cynnal sesiynau addysgol ar gyfer ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol ar bynciau amrywiol yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol.

Another important aspect for communities, is the ability to socialise in Welsh. Children and young people especially need encouragement to see the value of the Welsh language outside the classroom, especially if Welsh is not the first language at home. By making the Welsh language the natural choice for undertaking events and activities and for socialising, could subconsciously reinforce positive messages about the language.

This is an area in which the Authority can and does make a positive contribution to the promotion of the Welsh language in Eryri, and this is work that will be continued and developed further over the next few years.

Through all aspects of our work, the Authority provides numerous events and activities every year through the medium of Welsh or bilingually. Both our Wardens and Engagement services undertake educational sessions for schools, colleges and community groups on various subjects relating to the National Park.

Mae'r Ysgwrn nid yn unig yn darparu gweithgareddau addysgol ac ymweliadau ar gyfer grwpiau ysgol yn ogystal ag adnoddau addysgol i athrawon ac addysgwyr trwy gwricwlwm Yr Ysgwrn; mae hefyd yn darparu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol ar gyfer bawb o bob oed, yn ogystal â chyfleoedd gwirfoddoli. Yn amrywio o ddigwyddiadau llenyddiaeth a barddoniaeth, celf a chrefft, ysgolion bywyd gwyllt a choedwigaeth, gweithdai clocsio i ganu carolau - mae yna rywbeth i apelio at bawb.

Mae'r rhan fwyaf o brosiectau'r Awdurdod hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer bawb o bob oed nid yn unig i ddysgu am agweddau pwysig o'r gwaith ond i brofi buddion lles gweithgareddau awyr agored a bod ym myd natur.

Yr Ysgwrn not only provides educational activities and visits for school groups as well as accompanying educational resources for teachers and educators through Yr Ysgwrn curriculum; it also provides a wide variety of community events and activities for all ages, as well as volunteering opportunities. Ranging from literature and poetry events, arts and crafts, wildlife and forestry schools, clog dancing workshops to carol singing – there is something to appeal to everyone.

Most of the Authority's projects also offers a wide variety of events and activities for all ages to not only learn about important aspects of the work but to experience the wellbeing benefits of outdoor activities and being in nature.

Mae Partneriaeth y Carneddau yn gweithio gydag ysgolion yn ogystal â chymunedau lleol i gynnig digwyddiadau a gweithgareddau megis gweithgareddau cloddio archeolegol, casglu a phlannu hadau wrth ddysgu eu henwau Cymraeg, teithiau cerdded tywys hanesyddol, a sgyrsiau siaradwyr gwadd ar ystod eang o bynciau. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cefnogi rhaglenni hyfforddi'r hyfforddwyr ar gyfer Ymarferwyr Awyr Agored, a chyfleoedd gwirfoddoli amrywiol o glirio eithin a rhedyn i ddigwyddiadau archeolegol.

Mae prosiectau eraill megis Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE, Cynllun Llysgenhadon Eryri, Prosiect Nos (Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru), Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau, a Phartneriaeth Natur Leol Eryri yn trefnu digwyddiadau ymgysylltu cymunedol amrywiol fel rhan o'u cylch gorchwyl.

The Carneddau Partnership works with schools as well as local communities to offer events and activities such as archaeological digs, collecting and planting seeds whilst learning their Welsh names, guided historical walks, and guest speaker talks on a wide variety of subjects. The partnership also supports training the trainer programmes for Outdoor Practitioners, and various volunteering opportunities from clearing gorse and bracken to archaeological events.

Other projects such as LIFE Celtic Rainforests, the Eryri Ambassador Scheme, Prosiect Nos (North Wales Dark Skies Partnership), Dolgellau Townscape Heritage Initiative, and Partneriaeth Natur Leol Eryri organise various community engagement events as part of their remit.

Bydd sesiynau Dyddiau Llesiant yr Awdurdod dros fisoedd yr haf yn parhau ac yn cael eu datblygu ymhellach ar gyfer y dyfodol. Mae teithiau cerdded tywys, sesiynau ioga ac ati, yn annog pobl i fwynhau buddion iechyd gweithgareddau awyr agored ac i wneud y gorau o'r hyn y gall y Parc Cenedlaethol ei gynnig. Maent hefyd yn gyfleoedd gwych i siaradwyr Cymraeg newydd i ymarfer.

Fel y soniwyd eisoes, byddwn yn parhau i ddatblygu ac ehangu ein rhaglenni gwirfoddoli, sy'n ffordd wych nid yn unig o ddarparu profiadau cymdeithasu, profiadau gwaith, datblygu sgiliau a magu hyder, ond hefyd i ddysgu ac ymarfer y Gymraeg. Ein polisi gyda rolau gwirfoddol rheng flaen, lle bo modd, yw paru siaradwyr Cymraeg newydd a llai hyderus â siaradwyr rhugl, i'w helpu i ymarfer tra maen nhw'n gweithio.

The Authority's Wellbeing Wednesday sessions over the summer months will be continued and further developed for the future. Guided walks, yoga sessions etc., encourage people to both enjoy the health benefits of outdoor activities and to make the best of what the National Park can offer. They are also excellent opportunities for new Welsh speakers to practise.

As previously mentioned, we will continue to develop and expand our volunteer programmes, which are an excellent way to not only provide socialising experiences, work experiences, skill development and confidence building, but to learn and practice Welsh.
It is our policy with front facing volunteer roles, where possible, to match new and less confident Welsh speakers with fluent speakers, to help them practise whilst out working.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Y tu allan i'r hyn a gynigiwn fel Awdurdod a'r digwyddiadau a'r gweithgareddau rydym yn eu cefnogi trwy weithio mewn partneriaeth; mae gennym hefyd rai cronfeydd cyllid i grwpiau cymunedol wneud cais am arian i gynnal amrywiol ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol a gwirfoddoli. Rhan bwysig o'r cyllid grant hwn yw cynnwys amodau grant a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn cael ei thrin yn gyfartal mewn digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus.

Wrth edrych tua'r dyfodol, yn ddiweddar rydym wedi cychwyn ar brosiect newydd o'r enw Prosiect Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Nod y prosiect yma yw ceisio gwarchod a gwella hanes a chymeriad yr 14 ardal cadwraeth o fewn y Parc Cenedlaethol mewn modd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ogystal, mae ein Grŵp Enwau Lleoedd / Panel Craffu yn gwneud gwaith pwysig ar ddatblygu polisi ar ddefnyddio enwau lleoedd cynhenid a hanesyddol Cymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol. Cylch gorchwyl y Grŵp yw datblygu fframwaith polisi i alluogi'r Awdurdod i warchod a safoni'r defnydd o enwau lleoedd yn Eryri, gan yr Awdurdod, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid. Bydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfaoedd gwahanol gan gynnwys cynulleidfaoedd uniaith, amlieithog, aml-ethnig a rhyngwladol o bwysigrwydd enwau lleoedd yn Eryri.

Outside of what we offer as an Authority and the events and activities we support through partnership working; we also have some funding pots for community groups to apply for funds to hold various community and volunteering events and activities. An important part of this grant funding is the inclusion of grant conditions which will ensure that the Welsh language is visible and is treated with equality in public events and activities.

Looking to the future, we have recently started a new project called the Conservation Areas Project which is suitable for the twenty first century. The aim of this project is to try to protect and improve the history and character of the 14 conservation areas within the National Park in a sustainable way for future generations.

In addition, our Local Place Names Group / Scrutiny Panel is doing important work on developing a policy on the use of indigenous and historical Welsh place names within the National Park. The remit of the Group is to develop a policy framework to enable the Authority to protect and standardize the use of place names in Eryri, by the Authority, our partners and stakeholders.   It will also raise awareness among different audiences including monolingual, multilingual, multi-ethnic and international audiences of the importance of place names in Eryri.

Yn cydredeg â hyn mae prosiectau eraill megis prosiect Enwau a Lleisiau'r Carneddau, sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn cofnodi enwau lleoedd lleol trwy sesiynau recordio cymunedol. Mae yna hefyd brosiect Harlech a Dyffryn Ardudwy, sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol.

Bydd hyn i gyd a mwy yn rhan o Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol newydd yr Awdurdod, a fydd yn cael ei datblygu dros y flwyddyn i ddod ac a fydd yn cael ei gweithredu dros oes y Strategaeth hon.

Dangosyddion:

- Adolygu a chryfhau polisïau perthnasol o fewn Cynllun Datblygu Lleol Eryri ar warchod yr iaith Gymraeg mewn perthynas ag effaith datblygiadau tai.
- Cyflawnir camau gweithredu o dan adran C1 Cynllun Eryri erbyn 2025.
- Y nifer o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol a drefnir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Amodau perthnasol i'r Gymraeg yn cael eu cynnwys o fewn dyfarniadau grant ar gyfer prosiectau, gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol.
- Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli.
- Mabwysiadwyd a gweithredir polisi'r Awdurdod ar ddefnyddio enwau lleoedd cynhenid a hanesyddol Cymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol.

Running side by side with this are other projects such as the Carneddau Names and Voices project, which raises awareness and records local place names through community recording sessions. There is also the Harlech and Dyffryn Ardudwy project, which works with local volunteers and the local community to raise awareness, record and interpret local historical place names.

All this and more will form part of the Authority's new Cultural Heritage Strategy, which will be developed over the coming year and will be implemented over the life of this Strategy.

Indicators:

- Relevant policies within the Eryri Local Development Plan on protecting the Welsh language in relation to the impact of housing developments reviewed and strengthened.
- Actions under section C1 of Cynllun Eryri are delivered by 2025.
- Numbers of community activities and events organised through the medium of Welsh or bilingually.
- Welsh language conditions included within grant awards for community projects, activities and events.
- Number of volunteering opportunities.
- The Authority's policy on the use of indigenous and historical Welsh place names within the National Park is adopted and implemented.

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

6. Gweithredu'r Strategaeth

Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar feysydd y mae gennym ddylanwad uniongyrchol drostynt. Fodd bynnag, fel sy'n gyffredin gyda llawer o waith yr Awdurdod, mae elfennau o weithio mewn partneriaeth wedi'u cydblethu o fewn yr holl ffrydiau gwaith. Fel Awdurdod bach, rydym yn fedrus iawn wrth gydlynu ymdrechion i wneud y defnydd gorau o adnoddau prin er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau.

Ar gyfer pob blwyddyn o fywyd y Strategaeth bydd cynllun gweithredu perthnasol yn cyd-redeg. Ymgorfforir y drefn o fonitro ac adrodd ar y cynlluniau gweithredu blynyddol yn rhaglen waith gorfforaethol yr Awdurdod a thrwy adroddiadau uniongyrchol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Ar ddiwedd pob blwyddyn, cedwir cofnod o weithgaredd y cyfnod. Bydd y cofnodion hyn yn sail i'n Hadroddiad Asesu Canlyniad ar ddiwedd y Strategaeth a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

6. Implementing the Strategy

This Strategy mainly focuses on areas over which we have a direct influence. However, as with much of the Authority's work, there are elements of partnership working interwoven within all work streams. As a small Authority, we are well adept at co-ordinating efforts to make the best use of scarce resources in order to maximise outputs.

For each year of the Strategy's life there will be an action plan. Monitoring and reporting of the annual action plans will be incorporated into the Authority's corporate work programme, and by direct reports to the Performance and Resources Committee.

At the end of each year, a record will be kept of the period's activity. These records will form the basis of our end of Strategy Outcome Assessment Report which will be published on the Authority's website.

EITEM RHIF 8

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	22 Mawrth 2023
TEITL	**DEDDF RHYDDID GWYBODAETH**
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
PWRPAS	Adrodd ar y ceisiadau am wybodaeth a ddaeth i law o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

1. CEFNDIR

1.1 Daeth rhwymedigaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2005. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ceisiadau am wybodaeth a gafodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a sut yr ymdriniwyd â hwy.

1.2 Daeth 30 o geisiadau i law yn ystod y flwyddyn 2022.

1.3 O'r 30 cais, ymdriniwyd â 3 o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac ymdriniwyd â 26 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Ni ymdriniwyd ag un cais a gyflwynwyd fel cais rhyddid gwybodaeth o dan naill ai Rhyddid Gwybodaeth na Gwybodaeth Amgylcheddol oherwydd nid oedd yn gais am wybodaeth, ond yn hytrach yn gais i ddehongli polisi. Ymdriniwyd â'r cais hwn yn yr un modd â phob ymholiad safonol arall i'r Awdurdod. Am ddadansoddiad cyffredinol o'r modd yr ymdriniwyd â'r ceisiadau, cyfeiriwch at y tabl ar ddiwedd yr adroddiad.

1.4 Roedd 13 cais yn ymwneud ag amrywiol fathau o wybodaeth sy’n berthnasol i reolaeth datblygu a/neu bolisi cynllunio a materion cysylltiedig â hynny.

1.5 Roedd 4 cais a wnelo wahanol Gytundebau Technoleg Gwybodaeth a Chorfforaethol, ac roedd 3 cais a wnelo materion cydraddoldeb amrywiol, fel swyddi cydraddoldeb a chyflogau, a hyfforddiant a chyllidebau cydraddoldeb.

1.6 Roedd y 9 cais arall yn ymwneud â gwahanol faterion eraill, fel:

- Cynllun Grant Awyr Dywyll;
- Newid i fapio Afon Dysynni yn 1987;
- Hysbysiad Cosb Benodedig am Sbwriel;
- Taliadau a wnaed i Aelodau; a
- Llefydd parcio yn Eryri a chytundebau les ar feysydd parcio.

1.7 Yn ystod y flwyddyn ni chyflwynwyd unrhyw gwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch gwrthod rhyddhau gwybodaeth.

1.8

Ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
21 cais wedi'u caniatáu / datgeliad llawn.
Gwrthodwyd 3 chais yn rhannol gan nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu nad oedd yr awdurdod yn dal y wybodaeth.
Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn cynnwys data personol trydydd parti, sydd wedi'i eithrio o dan Adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth a ddosbarthwyd yn fasnachol sensitif ac felly wedi'i heithrio o dan Adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy o dan y Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
0 cais wedi'u caniatáu / datgeliad llawn.
Gwrthodwyd 2 gais yn rhannol gan fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i dosbarthu fel gwybodaeth eithriedig o dan Reoliad 12(5)(f) - gwybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw aelodau o'r cyhoedd sy'n adrodd am achosion posibl o dor-rheolaeth cynllunio.
Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod ar gyfer ymateb yr Awdurdod i gais am gyngor cyn-cyflwyno cais cynllunio, nad oedd wedi arwain at gais cynllunio. Mae'n bolisi gan yr Awdurdod i gadw'r rhain yn gyfrinachol hyd nes y cyflwynir cais cynllunio, ac yn unol â hynny mae'n cael ei ddosbarthu fel eithriedig o dan Reoliad 12(5)(f) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Cafodd yr Awdurdod ei herio ar hyn yn flaenorol yn 2020, a chadarnhaodd y Comisiynydd Gwybodaeth benderfyniad yr Awdurdod. Mae'r Hysbysiad o Benderfyniad llawn i'w weld ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: Rhybudd Penderfyniad IC-46147

2. GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim goblygiadau uniongyrchol.

3. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

EITEM RHIF 9

MEETING	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DATE	22 Mawrth 2022
TITLE	**ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER BLWYDDYN 2022: DANGOSYDDION PERFFORMIAD STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU**
REPORT BY	Pennaeth Ymgysylltu
PURPOSE	I ddarparu adroddiad blynyddol ar ddangosyddion perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a chynnydd ar y cynllun gweithredu.

1. CEFNDIR

1.1 Cafodd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ei fabwysiadau gan yr Awdurdod ym Mehefin 2021. Ei brif amcanion yw:

- I gynyddu dealltwriaeth pobl o beth sydd yn gwneud Eryri mor arbennig- drwy ddefnyddio'r Rhinweddau Arbennig fel sylfaen i themau cyfathrebu a negeseuon.
- I adeiladu ar ein perthynas gyda'n partneriaid: i geisio deall barn a safbwyntiau ac i adeiladu perthynas er mwyn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ar y cyd.
- I droi ymgysylltu i weithredu: bod mwy o bobl yn gweithio'n ragweithiol i'n helpu i ofalu am Eryri, unai yn y ffordd y maent yn ymweld (gyda pharch i'r amgylchedd a'r bobl sydd yn byw a gweithio yma); darparu cyllideb; gwneud pethau ar y ddaear neu roi eu hamser; adnoddau neu arian; neu drwy ddylanwadu ar eraill.
- I adeiladu ar ddealltwriaeth ac enw da'r Parc Cendlaethol a'i frand ymysg ein rhanddeiliaid allweddol a chyllidwyr.
- I gyflawni amcanion a chanlyniadau Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol.

1.2 Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni yng nghyd destun nifer o strategaethau sefydliadol yn cynnwys:

- Cynllun Eryri
- Y Cynllun Datblygu Lleol
- Amcanion Lles a Rhaglen Waith Corfforaethol Yr Awdurdod

1.3 Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfres o dargedau a dangosyddion perfformiad er mwyn mesur y cynnydd i gyflawni canlyniadau'r Strategaeth. (Gweler adran 2.0 isod) ac mae rhain yn cael eu hadrodd yn flynyddol. Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei atodi yn atodiad 1.

2. CANLYNIADAU A DDYMUNIR O'R STRATEGAETH

2.1 Mae prif ganlyniadau'r strategaeth fel a ganlyn:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o ddynodiad y Parc Cenedlaethol
- Cynnydd yn nealltwriaeth o rôl, cyfrifoldebau ac ardaloedd gwaith APCE, ac agwedd gadarnhaol o'r sefydliad.
- Cynnydd yn ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig Eryri a'r buddion y Parc Cenedlaethol.
- Cynnyddu'r ymwybyddiaeth o'r heriau a chyfleoedd sydd yn wynebu Eryri (e.e. newid yn yr hinsawdd, yr economi gylchol, Brexit ac ati.) a sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda partneriaid i fynd i'r afael â rhain.
- Cynyddu'r ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chyfunol i ofalu am y Parc.
- Defnydd cyfrifol a pharchus o'r Parc Cenedlaethol.
- Bydd pobl yn awyddus i ymgysylltu a chymryd rhan yn ein hymdrechion (unai'n rhithiol neu mewn person).
- Bydd pobl wedi ei hysbrydoli i roi eu hamser, rhoddion neu gefnogi i ddiogelu Eryri.
- Mae pobl yn cysylltu Eryri gyda twrisiaeth gynaliadwy ac yn cael eu hysbrydoli i archwilio'r ardal yn bellach (unai'n rhithiol neu mewn person) yn enwedig ei thrysorau cudd.
- Bydd ein staff, gwirfoddolwyr ac aelodau yn teimlo'n wybodus iawn.

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL

3.1 Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr adroddiad blynyddol.

ARGYMHELLION

- I archwilio a thrafod yr adroddiad blynyddol.

PARC CENEDLAETHOL ERYRI

ADRODDIAD CYNNYDD 2022

STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Y cynnydd ar dargedau a Dangosyddion Perfformiad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer 2023 a thu hwnt

2

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol **Error! Bookmark not defined.**
Darganfyddiadau Allweddol
Crynodeb o ganlyniadau Dangosyddion Perfformiad 2022 a Diwygiadau Argymelledig i'r Strategaeth 6
Cefndir 9
Nodau Craidd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 9
Y Canlyniadau Yr Ydym Eisiau Eu Cyflawni Drwy'r Strategaeth 10
Prif Brosiectau a Digwyddiadau a gwblhawyd yn 2022 11
Canlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol 13
Metrigau Ymgyrch Ymwelwyr 2022 13
12 Post Uchaf 2022 (drwy lefel o ymgysylltu) 18
5 Post Uchaf Instagram o 2022 (drwy lefel o ymgysylltu) 21
Metrigau Canlyniadau Digidol 21
Cyfryngau Cymdeithasol 22
Metrigau'r Wefan 28
Metrigau Canlyniadau Cyffredinol 31
Metrigau Adrannol 34
Dogfennau Perthnasol 38
Atodiad 1 39
Arolwg Enw Da 39

NODYN ATGOFFA O'R CYNLLUNIAU MAWR YN EIN STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

1. Newid o sylw torfol (eang a bas) i dargedu grwpiau penodol (cul a dwfn)
2. Meddwl ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn paru ein nodau â'r adnodd sydd ar gael
3. Defnyddio'r sianeli sy'n cyflawni ein nodau craidd, yn hytrach na phob sianel.
4. Cysondeb ar draws pob sianel - defnyddio'r un ddelweddaeth, copi, brand ac ati.
5. Dod â phobl i mewn i'r stori - canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng pobl a lle

CRYNODEB GWEITHREDOL

Darganfyddiadau Allweddol

- Mae'r ystadegau ar gyfer 2022 yn adlewyrchu'r gostyngiad yng ngweithgarwch digidol/ ar-lein gwelwyd mewn mannau eraill. Roedd twf yn y gweithgaredd ar-lein yn ystod pandemig Cofid 19 ac mae hwn bellach yn dychwelyd i lefelau 2019.
- Mae rhai targedau wedi ei eu gosod yn ystod Cofid ac mae'r sylfaen i'r twf yn ystod y cyfnod hwnnw wedi profi'n anodd ei gyflawni o ganlyniad dychwelyd i lefelau 'normal' o weithgarwch ar-lein yn y boblogaeth.
- Mae bron pob un o'r prif brosiectau a gweithgareddau wedi eu cynllunio ar gyfer 2022 unai wedi eu cwblhau neu bron a'u cwblhau. Uchafbwyntiau oedd lansiad gwefan newydd y Parc Cenedlaethol a gweithredu ymgyrch ymwelwyr 2022.
- Rydym wedi cyrraedd yr uchafswm capasiti o allbwn ac mae gennym gwell syniad o beth all ei gyflawni yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael. Bydd hyn yn ein galluogi i osod targedau ar wybodaeth briodol wrth symud ymlaen.
- Daeth swydd Swyddog Cyfathrebu digidol dros dro i ben ym mis Hydref. Mae hyn wedi lleihau ein capasiti o 4 aelod o staff i 3 ac mae'r gostyngiad mewn capasiti wedi ei adlewyrchu yn y data/ dangosyddion perfformiad. Bydd swydd arall dros dro hefyd yn dod i ben ym mis Gorffennaf (y swyddog sydd yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli'r wefan newydd). Bydd hyn yn dod a'n capasiti i lawr i 2 swyddog a bydd yn cyfaddawdu ein gallu i gyflawni ar ein strategaeth gyfathrebu.

- Cafodd yr ymgyrch ymwelwyr 2022 ar y cyd â Pharciau Cenedlaethol Cymru ariannwyd gan Croeso Cymru gyrhaeddiadau a chyswllt gwych, gyda phob partner yn hapus gyda'r canlyniad. Yn ddifyr iawn, cafodd tîm mewnol APCE gwell ganlyniadau yn ymgyrch 2021, sydd yn adlewyrchu'r lefel o dalent a phrofiad sydd gennym yn fewnol.

Crynodeb o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol 2022 a Diwygiadau Argymhelledig i'r Strategaeth

- Cafwyd canlyniadau da i'r ymgyrch ymwelwyr ar y cyd gyda 3 Parc Cenedlaethol Cymru. Cafodd yr ymgyrch ei redeg gan gorff allanol a chafodd ei ariannu gan Groeso Cymru (£20 mil). Roedd defnyddio'r corff allanol wedi lleihau'r pwysau yn sylweddol ar ein tîm mewnol. ***STRATEGAETH A ARGYMHELLIR AR GYFER 2023: cynhyrchu ymgyrch yn fewnol yn 2023, gweithio gyda phartneriaid, llysgenhadon a dylanwadwyr, gyda pheth cefnogaeth gan gorff allanol os yw cyllideb a capasiti yn caniatáu.***
- Arolwg ymwelwyr a thrigolion wedi ei gynnal yn niwedd 2021 oedd yn dangos ymwybyddiaeth gyffredinol dda o'r Rhinweddau Arbennig. Yr ymwybyddiaeth uchaf oedd o'r tirweddau hanesyddol (87%), a thirweddau amrywiol (85%). Y lleiaf oedd 'Ysbrydoliaeth i'r Celfyddydau (58%), daeareg enwog ((65%) a chyfleoedd hamdden helaeth' (66%). ***STRATEGAETH A ARGYMHELLIR AR GYFER 2023: Datblygu cyfathrebu o amgylch cyfleoedd hamdden gynaliadwy, daeareg a chelfyddydau i godi dealltwriaeth o'r rhinweddau arbennig yn yr ardaloedd hyn.***
- Gwelodd 2022 dwf yn ein llwyfannau mwyaf newydd- yn enwedig Instagram, gyda rhai targedau wedi rhagori'n sylweddol o ganlyniad i strategaeth newydd ar y sianel yma. Fodd bynnag, roedd rhai canlyniadau eraill yn is na'r targed. Awgrymir dadansoddiad pellach fod hyn oherwydd niferoedd ymwelwyr uchel (a chanlyniad o ddiddordeb yn y Parc Cenedlaethol) ym 2020/21, sydd bellach yn dychwelyd i lefelau mwy 'normal'. Mae capasiti ychwanegol hefyd yn berthnasol (gweler isod). ***STRATEGAETH A ARGYMHELLIR I 2023: Parhau i ddatblygu a strategaeth twf ar gyfer Instagram a Tik-Tok. Twf organic ar gyfer lwyfannau cymdeithasol eraill.***
- Lansiwyd y wefan newydd yn 2022. Disgwylid y byddai cwymp yn y traffic tra roedd y wefan newydd yn cael ei sefydlu, ond roedd y canlyniadau yn galonogol iawn ac mae adborth ar y dyluniad a'r rhwyddineb i ddefnyddio'r wefan newydd yn gadarnhaol iawn.
- Daeth swydd Swyddog Cyfathrebu Digidol a benodwyd yn Ebrill 2021 i ben ym mis Hydref 2022. Pan roedd y swyddog mewn lle, roedd cynnydd cymharol yn y nifer o bostiau cyfryngau cymdeithasol o +150%. Bydd y swydd Rheolwr Cynnwys a Brand, sydd wedi bod yn arwain ar ddatblygiad ac yna rheolaeth barhaus a datblygu cynnwys ar gyfer y wefan newydd hefyd yn dod i ben ym Mehefin 2023. Byddwn felly yn gweld gostyngiad sylweddol mewn capasiti yn 2023 os na fydd gweithredu. Mae cynigion ar gyfer datrysiadau i'r mater hwn a gellir eu cyflawni o fewn cyllideb y Gwasanaeth Ymgysylltu wedi eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli ac wedi eu cymeradwyo o ran

egwyddor, hyd nes daw cadarnhad o heriau cyllideb ehangach. ***STRATEGAETH A ARGYMHELLIR AR GYFER 2023: gweithredu ar y datrysiadau sydd wedi eu cynnig.***

- Mae dadansoddiad gwasgariad cyfathrebu ar draws adrannau yn dangos fod adrannau sydd â phrosiectau gyda swyddog cyfathrebu ymroddedig yn gallu cynyddu'r sylw yn sylweddol. Mae'r data hefyd yn dangos fod y sylw yn is ar gyfer cynllunio ac adrannau corfforaethol, yn ogystal â Phlas Tan y Bwlch. ***STRATEGAETH A ARGYMHELLIR AR GYFER 2023: Trafodaethau gyda Cynllunio, Corfforaethol a Phlas Tan y Blwch i asesu os oes angen rhoi mwy o sylw/ cefnogaeth.***
- Roedd canlyniadau gwirfoddoli ar gyfer 2022 yn gadarnhaol iawn yn enwedig Cynllun Caru Eryri sydd yn tyfu o nerth i nerth. Gwelwyd canlyniadau positif gan y Cynllun Llysgenhadon, gyda phob llysgennad newydd sy'n cael ei recriwtio yn llefarydd ac yn cynyddu'r ymgysylltu ar ein negeseuon craidd. ***STRATEGAETH A ARGYMHELLIR AR GYFER 2023: Parhau i adeiladu a phennu adnoddau i gydweithio gyda'n gwirfoddolwyr a'n llysgenhadon.***

•

CEFNDIR

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad a'r gweithredoedd ar gyfer Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Awdurdod (lansiwyd yn 2021). Mae'r Strategaeth yn nodi sut y byddwn yn adeiladu, cynnal a gwarchod perthnasoedd ac enw da'r Awdurdod gyda'i randdeiliad a'i gwsmeriaid.

Mae'n gosod 'pam' yr ydym yn dymuno ymgysylltu; yn ogystal â 'sut' yr ydym am ymgysylltu drwy ein dewis o sianeli a'n cynulleidfa darged blaenoriaethol.

Nodau craidd yn Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Beth sydd angen i'n cyfathrebiadau ei wneud, er mwyn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei Bwrpasau yn effeithiol?

Rydyn ni yma fel sefydliad i ofalu am Eryri. Heb ymgysylltu â phobl yn effeithiol ynghylch pam fod hyn yn bwysig i'w wneud, ni fyddwn yn llwyddo. Mae llwyddiant ein cenhadaeth wedi'i ymblethu yn ein gallu i gysylltu â'n cynulleidfaoedd targed. Y bwriad yw ymgysylltu yn y fath fodd fel eu bod yn cael eu symud i weithredu - i'n helpu i ofalu am y Parc Cenedlaethol.

Ein nodau craidd trwy'r strategaeth hon felly yw:

- Cynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig - trwy ddefnyddio'r Rhinweddau Arbennig fel sylfaen ar gyfer themâu cyfathrebu a negeseuon.
- Adeiladu ein perthynas gyda'n partneriaid: i geisio deall eu barn a'u safbwyntiau, ac adeiladu perthnasau er mwyn cyflawni ar pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ar y cyd.

- Sbarduno gweithrediad trwy gyfrwng yr ymgysylltiad: fel bod mwy o bobl yn ein helpu'n rhagweithiol i ofalu am Eryri, boed hynny yn y ffordd y maent yn ymweld (gyda pharch at yr amgylchedd a phobl sy'n byw ac yn gweithio yma); a darparu mwy o arian; gwneud pethau ar lawr gwlad neu roi eu hamser; adnoddau neu arian; neu trwy ddylanwadu ar eraill.
- Adeiladu ar ddealltwriaeth ac enw da'r Parc Cenedlaethol a'i frand ymysg ein rhanddeiliaid a buddsoddwyr blaenoriaethol.
- Cyflawni amcanion a chanlyniadau Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Y Canlyniadau Yr Ydym Eisiau Eu Cyflawni Drwy'r Strategaeth

Byddwn yn gwybod ein bod wedi bod yn llwyddiannus gyda'n hymdrechion os ydym yn cyflawni'r hyn a ganlyn gyda'n cynulleidfa darged:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o ddynodiad y Parc Cenedlaethol.
2. Gwell dealltwriaeth o rôl, cyfrifoldebau a meysydd gwaith APCE, a chanfyddiadau cadarnhaol o'r sefydliad.
3. Cynyddu ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig Eryri a buddion y Parc Cenedlaethol.
4. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Eryri (e.e. newid yn yr hinsawdd, yr economi gylchol, Brexit ac ati) a sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys lleisio uwch ar bynciau o ddiddordeb mawr perthnasol.
5. Mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chyfunol dros ofalu am y Parc.
6. Defnydd parchus a chyfrifol o'r Parc Cenedlaethol.
7. Pan fo pobl yn awyddus i ymgysylltu a chymryd rhan yn ein hymdrechion (naill ai'n rhithiwr neu'n gorfforol).
8. Pan fo pobl yn cael eu hysbrydoli i roi eu hamser, eu rhoddion neu eu cefnogaeth i amddiffyn Eryri.
9. Pan fo pobl yn cysylltu Eryri â thwristiaeth gynaliadwy ac yn cael eu hysbrydoli i archwilio'r ardal ymhellach (naill ai'n rhithiwr neu'n gorfforol), yn enwedig ei 'thrysorau cudd'.
10. Pan fo ein staff, gwirfoddolwyr a'n haelodau'n teimlo bod ganddynt wybodaeth dda.

PRIF BROSIECTAU A DIGWYDDIADAU A GWBLHAWYD YN 2022

A wnaethon gyflawni yr hyn a gynlluniwyd?

Cwblhawyd neu Bron a Chwblhau	Dal Mewn Datblygiad
Prif Brosiectau a Digwyddiadau ➢ Lansio'r wefan newydd ➢ Ymgyrch Ymwelwyr 2022 (wedi ei arwain gan asiantaeth ar y cyd â Pharciau Cenedlaethol Cymru) ➢ Papur Eryri Pamffled a thudalennau gwe newydd ar gartrefi modur ➢ Datblygu gwaith dehongli newydd yng Nghanolfan Groeso Betws y Coed- Profiad Rhithiol o Gopa'r Wyddfa a Blwch Tywod. ➢ Dechrau ar adolygu'r gwaith dehongli yn Hafod Eryri. ➢ Hyfforddiant Blynyddol ar y cyfryngau. ➢ Hyfforddiant blynyddol gwasanaethau cwsmer (canolfannau) ➢ Adroddiad a dangosyddion perfformiad blynyddol i'r Aelodau. ➢ Cylchredeg canllawiau cyfryngau cymdeithasol a phrotocol cyfryngau. ➢ Teithiau cerdded Lles a mapiau ar gyfer y wefan ➢ Adroddiad y Cadeirydd (digidol) ➢ Gweithredu ar enwau Yr Wyddfa/ Eryri ➢ **Digwyddiadau** ➢ Wythnos Awyr Dywyll Cymru (9 digwyddiad) ➢ Prosiect Deorfa Llyn Tegid LIFE ➢ Digwyddiadau LIFE (Sgwrs x 1, Teithiau cerdded x 1, Ysgolion x 30, Gwirfoddoli x 2, Sioeau x 4, Arddangosfeydd x 2, Eraill x 6) ➢ Digwyddiadau Carneddau (Digwyddiadau Cymunedol x 48, digwyddiadau ysgolion x 11, digwyddiadau grŵp	➢ Datblygu negeseuon craidd a chynnwys am ein Rhinweddau Arbennig a thwristiaeth gynaliadwy. ➢ Peilota Sgwrsio Byw ar y wefan ➢ Adnewyddu byrddau gwybodaeth Yr Wyddfa (gan gynnwys codau QR?) ➢ Datblygu ardal addysg ar y wefan yn cynnwys modiwlau fideo ar y Parc i ysgolion, yn ogystal â chynnwys cynllun Llysgenhadon.

penodol x 22) ➢ Hyfforddiant: 11 ➢ Taith Gerdded Gemau'r Gymanwlad a chyfnewid Baton y Frenhines ➢ Sioe Meirionydd ➢ Teithiau Cerdded Llesol ➢ Wythnos Plannu Coed (1 digwyddiad) ➢ Pythefnos Parciau Cenedlaethol ➢ Digwyddiadau Yr Ysgwrn (13 digwyddiad) ➢ Digwyddiadau THI Dolgellau ➢ Cyfarfod Cyswllt Amaeth ➢ Wythnos Ddathlu Llysgenhadon (7 digwyddiad)	

CANLYNIADAU DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Mae'r Dangosyddion Perfformiad canlynol yn anelu i fesur y metrigau sydd yn adlewyrchu cyflawniad llwyddiannus o'n canlyniadau a ddymunir.

Metrigau Ymgyrch Ymwelwyr 2022

Prif ffigyrau ar gyfer cyfnod yr ymgyrch (Mawrth- Medi) gyda chymhariaeth i ymgyrch 2021
Cyflawnwyd ymgyrch 2021 yn fewnol (gyda chefnogaeth ychwanegol gan y swyddog cyfathrebu digidol dros dro a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru). Cyflawnwyd ymgyrch 2022 mewn partneriaeth â Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Benfro gan asiant allanol, ar gost o £20 mil ariannwyd gan Croeso Cymru.

Metrig	**Cyfanswm**	
	2021 (mewnol, gan gynnwys Swyddog Cyfathrebu Digidol ychwanegol wedi ei ariannu gan Llywodraeth Cymru)	**2022 (asiantaeth)**
Argraffiadau (nifer o weithiau mae post wedi ymddangos i'r defnyddiwr)	6.42 miliwn	3.1miliwn
Ymgysylltu (nifer o weithiau mae defnyddiwr wedi ymgysylltu â phost drwy hoffi, ateb, ymateb, rhoi sylwad ac ati)	Cyfanswm o 328 mil	36 mil wedi ei dalu 20 mil organic **56 mil cyfanswm**
Clic/ gweithred dolen post (y nifer i weithiau mae defnyddiwr wedi clicio ar ddolen yn y post/ proffil)	24,633	1,338 talu am hysbysebion cyfryngau cymdeithasol 3,537 talu am Bartneriaeth cyfryngau North Wales Live

Ymweliadau i'r dudalen parcio'r Wyddfa newydd ar wefan y Parc Cenedlaethol, sydd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar ragarchebu	**156,421 o ymweliadau i'r dudalen** a'r dudalen mwyaf poblogaidd yn ystod cyfnod yr adroddiad.	110,758 **o ymweliadau a'r dudalen**
Sylw yn y cyfryngau	**29**	13 – gwaredwch y Barbeciw 14 – tipio anghyfreithlon damweiniol
Partneriaethau â Dylanwadwyr Laura Kate Lucas Andrew Burton	*d/b- dim partneriaethau yn 2021*	**Laura:** Cyrraedd 10 mil o ddefnyddwyr **Andrew:** Cyrraedd 3 mil o ddefnyddwyr



Ffigwr1: Enghreifftiau o bysbysebion Cyfryngau Cymdeithasol y talwyd amdanynt



Ffigwr 2: Ciplun o ymgyrch 'Byddwch yn Geidwad y Parc Cenedlaethol'

Ffigwr 3: Partneriaeth gyda North Wales Live y talwyd amdano

12 Post a ddaeth i'r brig yn 2022 (drwy lefel o ymgysylltu)

Parc Cenedlaethol Eryri - Eryri N...
Wed 11/16/2022 12:30 pm GMT

It's official! At its meeting this morning, Members of the Authority voted to use the Welsh names Yr Wyddfa (Snowdon) and Eryri (Snowdonia) only...

Total Engagements	18,127
Reactions	6,412
Comments	888
Shares	583
Post Link Clicks	1,125
Other Post Clicks	9,119

@eryrinpa
Wed 11/16/2022 12:30 pm GMT

It's official! At its meeting this morning, Members of the Authority voted to use the Welsh names Yr Wyddfa (Snowdon) and Eryri (Snowdonia) only...

Total Engagements	7,777
Likes	2,779
@Replies	124
Retweets	480
Post Link Clicks	763
Other Post Clicks	3,603

Parc Cenedlaethol Eryri - Eryri N...
Sun 7/10/2022 1:43 pm BST

⚠ WARNING! ⚠ Blue-Green Algae are in parts of Llyn Tegid, Bala. This can be a natural occurrence during the summer under certain...

Total Engagements	6,311
Reactions	601
Comments	177
Shares	434
Post Link Clicks	25
Other Post Clicks	5,074

Parc Cenedlaethol Eryri - Eryri N...
Thu 11/17/2022 4:00 pm GMT

We've had such a positive response to yesterday's announcement – we're blown away! Thank you so much ❤. We've picked up that many of you...

Total Engagements	5,411
Reactions	1,376
Comments	160
Shares	285
Post Link Clicks	8
Other Post Clicks	3,582

Parc Cenedlaethol Eryri - Eryri ...
Thu 4/14/2022 4:37 pm BST

Pre-booking is now available for Pen y Pass Car Park. Please note that you cannot park at Pen y Pass without pre-booking a parking...

Total Engagements	4,668
Reactions	117
Comments	61
Shares	51
Post Link Clicks	769
Other Post Clicks	3,670

Parc Cenedlaethol Eryri - Eryri ...
Mon 11/7/2022 2:28 pm GMT

Parking at Pen y Pass has now returned to the Pay & Display system for the Winter. There are several parking options for hiking up Yr...

Total Engagements	3,188
Reactions	435
Comments	147
Shares	63
Post Link Clicks	437
Other Post Clicks	2,106

Parc Cenedlaethol Eryri - Eryri ...
Fri 4/1/2022 7:00 am BST

Our Wardens had a bit of a fright on their way home yesterday! 😱 An aquatic reptile thought to be extinct has been spotted near...

Total Engagements	3,152
Reactions	640
Comments	48
Shares	47
Post Link Clicks	—
Other Post Clicks	2,417

Parc Cenedlaethol Eryri - Eryri ...
Wed 11/16/2022 12:31 pm GMT

Mae'n swyddogol! Yn ei gyfarfod bore 'ma fe bleidleisiodd Aelodau'r Awdurdod i ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn unig ar gyfe...

Total Engagements	2,514
Reactions	1,072
Comments	72
Shares	97
Post Link Clicks	165
Other Post Clicks	1,108

Parc Cenedlaethol Eryri - Er...
Mon 11/7/2022 2:28 pm GMT

Parking at Pen y Pass has now returned to the Pay & Display system for the Winter. There are several parking options for...

Total Engagements	3,188
Reactions	435
Comments	147
Shares	63
Post Link Clicks	437
Other Post Clicks	2,106

Parc Cenedlaethol Eryri - Er...
Fri 4/1/2022 7:00 am BST

Our Wardens had a bit of a fright on their way home yesterday! 😱 An aquatic reptile thought to be extinct has been...

Total Engagements	3,152
Reactions	640
Comments	48
Shares	47
Post Link Clicks	—
Other Post Clicks	2,417

Parc Cenedlaethol Eryri - Er...
Wed 11/16/2022 12:31 pm GMT

Mae'n swyddogol! Yn ei gyfarfod bore 'ma fe bleidleisiodd Aelodau'r Awdurdod i ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn unig ar...

Total Engagements	2,514
Reactions	1,072
Comments	72
Shares	97
Post Link Clicks	165
Other Post Clicks	1,108

Parc Cenedlaethol Eryri - Er...
Fri 8/26/2022 11:53 am BST

Mae hi'n Ddiwrnod Cenedlaethol Cŵn! 🐶 🎉 Rhannwch lun o'ch ci hefo ni ac mi wnawn ni ddewis ein hoff rai 😍▲👇

Total Engagements	2,219
Reactions	76
Comments	391
Shares	6
Post Link Clicks	—
Other Post Clicks	1,746

5 Post Instagram a ddaeth i’r brig yn 2022 (drwy lefel o ymgysylltu)



Ffigwr 4: Eleni, dechreuom weithio ar dyfu presenoldeb y Parciau Cenedlaethol ar Instagram. Sylwch y gwahaniaeth yn y postiau sydd yn ymgysylltu fwyaf o’i gymharu â Facebook a Trydar. Mae postiau mewn perthynas â lluniau/ ffotograffiaeth wedi profi’rn boblogaidd yn ogystal â chynnwys fideo.

Metrigau Canlyniadau Digidol

Cyfryngau Cymdeithasol

Gwelwyd twf ar ein llwyfannau mwyaf newydd yn ystod 2022 yn enwedig Instagram, a rhai targedau wedi eu cyrraedd a'u pasio'n sylweddol o ganlyniad strategaeth newydd i'r sianel yma. Mae'r argraffiadau (nifer o weithiau mae post yn cael ei weld) yn agos i basio Trydar. Fodd bynnag, er y twf parhaus yn ein cynulleidfa, roedd nifer o ganlyniadau yn is na'r targed.

Mae dadansoddiad pellach o'r rhesymau isorweddol yn arwain at nifer o ffactorau posib:

- **Yr effaith 'cofid'** - 2022 ydi'r flwyddyn gyntaf o weithredu 'normal' ers 2019 naill ai ar-lein neu allan yn y Parc Cenedlaethol yn nhermau niferoedd ymwelwyr. Mae cymariaethau i ffigyrau 2019 yn dangos cynnydd sylweddol e.e. Ymgysylltu (hoffi, sylwadau ac ati) ar Facebook lle'r oedd 85 mil yn 2019 o'i gymharu â 198 mil yn 2022. *Bydd rhaid addasu'r targedau ar gyfer 2023 gyda hyn mewn golwg.*
- **Cyrraedd yr uchafswm o ran capasiti:** Mae dadansoddiad yn y nifer o bostiau yn awgrymu ein bod cyrraedd yr uchafswm yn nhermau capasiti swyddogion i greu cynnwys.
- **Gostyngiad mewn capasiti ers Hydref-** Penodwyd Swyddog Cyfathrebu Digidol wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2021 a daeth i ben yn Hydref 2022. Pan roedd y swyddog yn ei swydd roedd y cynnydd mewn postiau yn +150%. *Bydd posibilrwydd o weld gostyngiad pellach yn 2023.*
- **Asiantaeth allanol yn rhedeg ymgyrch yr haf -** Gwnaeth adnoddau ychwanegol o asiantaeth allanol leihau'r pwysau'r sylweddol ar y tîm mewnol. Roedd y graddfeydd ymgysylltu yn dda mewn perthynas ag ymgyrchoedd o'r math yma. Fodd bynnag, roedd canlyniad yr ymgyrch mewnol yn 2021 yn taflu hyn i'r cysgod yn sylweddol. Mwy na dim, mae hyn yn adlewyrchu'r lefel o sgiliau sydd wedi eu datblygu o fewn y tîm mewnol. Ymgyrch asiantaeth 56 mil yn ymgysylltu; ymgyrch mewnol 328 mil yn ymgysylltu. *Mae gwerth am arian sylweddol yn gallu ei gyflawni pan mae capasiti yn caniatau drwy ddefnyddio talent ac arbenigedd mewnol os yw capasiti yn caniatau.*

2022
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK
Podlediad Eryri / Eryri Podcast
TOP 50%
ALL SHOWS
3,264
DOWNLOADS
43
COUNTRIES
13
EPISODES
557
MINUTES

Top Episodes
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK
#1
Afon Dyfrdwy
1 Afon Dyfrdwy
2 Long Walks - The Cambrian Way, Wales Coast Path & Snowdonia Slate Trail
3 Wales Dark Sky Week
4 Cydlyniant Cymunedol - Llanuwchllyn
5 Wythnos Plannu Coed yn Eryri

Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu'r data?	2019	2020	2021	Targed ar gyfer 2022	Canlyniad 2022	Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
Nifer y postiau	Sprout Social	Pennaeth Ymgysylltu	924	1307	2,749	2000	**2,574**	Bydd yn mesur pa mor ragweithiol yr ydym wrth ymgysylltu gyda'n cynulleidfaoedd ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad.
Maint y negeseuon (cyfanswm sy'n cael ei anfon a'i dderbyn/ sylwadau ar draws ein llwyfannau)	Sprout Social	Pennaeth Ymgysylltu	Anfon: 947 Derbyn: 1,411	Anfon: 1,398 Derbyn: 7,235	Anfon: 3,342 Derbyn: 21,866	Anfon: 5,000 Derbyn: 22,000	Anfon: **3,338** Derbyn: 18,868	Bydd yn mesur pa mor ragweithiol yr ydym wrth ymgysylltu gyda'n cynulleidfaoedd ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad.
Nifer yr argraffiadau ar y cyfryngau cymdeitha	Sprout Social	Pennaeth Ymgysylltu	**1.59 miliwn** Trydar 100 mil Facebook	**6.36 miliwn:** Trydar 275 mil Facebook	**9.19 miliwn:** Trydar 2.53 miliwn Facebook 6.15 miliwn	**10 miliwn:** Trydar 3 miliwn Facebook 6.2 miliwn	**7.89 miliwn Trydar1.15 miliwn** Facebook **5.7 miliwn**	Mae'n mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ei chyrraedd mewn perthynas â'n

Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu'r data?	2019	2020	2021	Targed ar gyfer 2022	Canlyniad 2022	Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
sol (nifer o weithiau mae cynnwys wedi cael ei weld gan ddefnyddwyr)			1.4 miliwn Instagram 39 mil LinkedIn n/a	6.05 miliwn Instagram 40 mil LinkedIn n/a	Instagram 499.9 mil LinkedIn 4,928	Instagram 800 mil LinkedIn 10 mil	Instagram **1.02 miliwn** Linked-in **14 mil**	straeon a'n negeseuon ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad
Cyfanswm y nifer o weithiau yr ydym wedi ymgysylltu (hoffi, ymateb ac ati)	Sprout Social	Pennaeth Ymgysylltu	**88,351** Twitter 1.8 mil Facebook 84 mil Instagram 2,316 LinkedIn n/a	**536,590** Twitter 8.9 mil Facebook 526 mil Instagram 1,514 LinkedIn n/a	**477,357** Twitter 98 mil Facebook 361 mil Instagram 17,530 LinkedIn 414	**600k** Twitter 150k Facebook 400 mil Instagram 30,000 LinkedIn 1000	**248 mil** Twitter **34 mil** Facebook **198 mil** Instagram **15,299** LinkedIn **1224**	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5,6 & 7)
Cyfanswm sydd yn clicio ar ddolen mewn post	Sprout Social	Pennaeth Ymgysylltu	7,393	25,969	40,847	50,000	**22,114**	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5,6 & 7)

Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu'r data?	2019	2020	2021	Targed ar gyfer 2022	Canlyniad 2022	Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
Cyfanswm y gynulleidfa ar y cyfryngau cymdeithasol	Sprout Social	Pennaeth Ymgysylltu	12,362	21,411	50,773	61,000	**56,862 (+12%)**	Bydd yn mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ceisio eu cyrraedd ar draws y 10 canlyniad.
Nifer o ddilynwyr ar Instagram	Instagram	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	n/a	2,004	4,870	8,000	**7115**	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5, 6 a 7)
Nifer o ddilynwyr ar Tik Tok	Tik Tok	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	n/a	n/a	43	1000	**84**	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5, 6 a 7)
Nifer o ddilynwyr	Linked In	Swyddog Cyfathrebu -	n/a	n/a	112	1000	**307**	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai

Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu'r data?	2019	2020	2021	Targed ar gyfer 2022	Canlyniad 2022	Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
ar Linked in		Corff.						cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5, 6 a 7)
Nifer y ffrydiau ar sianel podlediad Buzzsprou tpodcast	Buzzsprou t	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	n/a	n/a	6,305	9,000	**9,470**	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 5, 6 a 7)
Nifer o weithiau 'gwelwyd' sianel YouTube	You Tube Channel Analytics	Swyddog Cyfathrebu - C & RhT	n/a	n/a	70,776	75,000	**37,467**	Mae'n mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ei chyrraedd mewn perthynas â'n straeon a'n negeseuon ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad
Nifer tanysgrifw yr	Mailchimp	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	n/a	4,000	5,016	5,500	**5,797**	Mae'n mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ei chyrraedd mewn

Metrig	**Sut y byddwn yn mesur**	**Pwy fydd yn casglu'r data?**	**2019**	**2020**	**2021**	**Targed ar gyfer 2022**	**Canlyniad 2022**	**Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?**
Cylchlythyr								perthynas â'n straeon a'n negeseuon ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad.
% cyfradd agored ar gylchlythyrau	Mailchimp	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	n/a	30%	44.5%	45%	47.4%	Mae'n mesur y gyfradd llwyddiant wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ar draws pob un o'r 10 canlyniad.

Metrigau'r Wefan

Disgwylid y byddai cwymp yn y traffic tra roedd y wefan newydd yn cael ei sefydlu, ond roedd y canlyniadau yn galonogol iawn ac mae adborth ar y dyluniad a'r rhwyddineb o ddefnyddio'r wefan newydd yn gadarnhaol iawn.

Roedd newidiadau diddorol yn y tudalennau mwyaf poblogaidd ar y wefan. Roedd llawer mwy o draffig yn mynd drwy'r rhagdudalen (y dudalen lanio lle mae dewis iaith), a gwelodd y dudalen 'Parcio ar gyfer yr Wyddfa' gynnydd mawr mewn poblogrwydd, fel ag y gwelodd tudalen y Sherpa, a'r thudalennau Teithiau Cerdded a Cynllunio Eich Ymweliad. Mae hyn yn gweddu'n dda i'n strategaeth ar wella hygyrchedd a gwe-lywio'r wefan fel pobl yn medru cael hyd i'r hyn y maent yn chwilio amdano'r rhwydd.

Metrig	**Sut y byddwn yn mesur**	**Pwy fydd yn casglu'r data?**	**Hen wefan APCE**	**Canlyniadau 2022 ar gyfer y wefan newydd**	**Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?**
Cyfanswm y nifer o weithiau 'gwelwyd' y wefan	Google analytics	Rheolwr Cynnwys a Brand	2.19 million	2.38 million	Mae'n mesur y gyfradd llwyddiant wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ar draws pob un o'r 10 canlyniad.
Average Engagement Time per session	Google analytics	Rheolwr Cynnwys a Brand	0-10 seconds	1m 09s	
Nifer y 'gwelwyd' tudalennau o lwybrau wedi eu hyrwyddo (yn	Google analytics	Rheolwr Cynnwys a Brand	**10 Uchaf** 1. Llanberis: 49,517 2.Llwybr y Mwynwyr: 19,259 3.Llwybr PyG: 19,174 4.Rhyd Ddu: 13,438	**10 Uchaf** 1. Rhagdudalen 398k 2. Parcio ar gyfer Yr Wyddfa 111k 3. Cynllunio Eich Ymweliad	Bydd yn mesur y raddfa o ymgysylltu i gyflawni negeseuon o ddefnyddio'r Parc Cenedlaethol yn barchus a

cynnwys nodweddion i'r Wyddfa ac Ogwen)			5.Llyn Tegid: 11,584 6.Watkin: 11,555 7.Minffordd: 10,882 8.Cwellyn: 10,255 9.Llwybr Pilin Pwn: 7,533 10.Llwybr Panorama: 6,294	81k 4. Llwybrau a Theithiau 72k 5. Llwybr Llanberis 68k 6. Tudalen gartref 49k 7. Llwybr Pyg 46k 8. Llwybr Watkin 41k 9. Sherpa'r Wyddfa 40k 10. Llwybr y Mwynwyr 34k	chyfrifol (Canlyniad 6)
Gwerth y rhoddion a dderbynnir (ar-lein)	Google analytics	Rheolwr Cynnwys a Brand	0	£48	Bydd yn mesur y newid yn y modd y mae pobl yn cael eu hysbrydoli i roi rhoddion i APCE (Canlyniad 8).
Lle rydyn ni'n ymddangos mewn canlyniadau chwilio am ymadroddion allweddol: • Snowdonia • Eryri • Snowdon • Yr Wyddfa • Llanberis path • Llwybr Llanberis • Snowdonia National Park • Parc Cenedlaethol Eryri	Google analytics/ Keyword Rank checker: https://ahrefs.com/keyword-rank-checker	Rheolwr Cynnwys a Brand	Snowdonia: #1 Eryri: #5 Snowdon: #11 Yr Wyddfa: #3 Llanberis path: #1 Llwybr Llanberis: #1 Snowdonia National Park: #1 Parc Cenedlaethol Eryri: #1 Snowdonia National Park Authority: #1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: #1	Snowdonia: #2 Eryri: #1 Snowdon: #6 Yr Wyddfa: #1 Llanberis path: #3 Llwybr Llanberis: #1 Snowdonia National Park: #1 Parc Cenedlaethol Eryri: #1 *Eryri National Park: #1* Snowdonia National Park Authority: #1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: #1	Bydd yn mesur pa mor effeithiol yr ydym o ran cyrraedd cynulleidfaoedd er mwyn ymgysylltu â nhw ac i ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu hymddygiad mewn perthynas ag Eryri (Canlyniadau 1, 2, 3, 5, 8, 9).

• Snowdonia National Park Authority • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri					

Metrigau Canlyniad Cyffredinol

Roedd canlyniadau gwirfoddoli ar gyfer 2022 yn anhygoel o bositif yn enwedig cynllun Caru Eryri ac yn tyfu o nerth i nerth.

Gwelwyd canlyniadau positif gan y Cynllun Llysgenhadon, gyda phob llysgennad newydd sy'n cael ei recriwtio yn llefarydd ac yn cynyddu'r ymgysylltu ar ein negeseuon craidd.

Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu'r data a sut yr adroddir arno?	Gwaelodlin 2020	Canlyniad 2021	Targed 2022	Canlyniad 2022	Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
Nifer o wirfoddolwyr yn weithredol	Meddalwedd rheoli gwirfoddolwyr	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	n/a	Caru Eryri: 70 Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 42	Caru Eryri: 70 Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 45	Caru Eryri: 87 Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 36 Wardeiniaid Gwirfoddol Cader Idris: 8	Mae'n mesur nifer y bobl newydd sydd wedi'u hysbrydoli i roi eu hamser i amddiffyn Eryri (Canlyniad 7) yn ogystal â'r cynnydd mewn teimlad o gyfrifoldeb am edrych ar ôl y Parc (Canlyniad 5).
Nifer o oriau gwirfoddoli	Meddalwedd rheoli gwirfoddolwyr	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	n/a	Caru Eryri: 1695 Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 1704	Caru Eryri: 1700 Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 1800	Caru Eryri: 2593 Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa: 1434 Wardeiniaid Gwirfoddol Cader Idris: 220	Mae'n mesur nifer y bobl newydd sydd wedi'u hysbrydoli i roi eu hamser i amddiffyn Eryri (Canlyniad 7) yn ogystal â'r cynnydd mewn teimlad o gyfrifoldeb am edrych ar ôl y Parc (Canlyniad 5).

Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu'r data a sut yr adroddir arno?	Gwaelodlin 2020	Canlyniad 2021	Targed 2022	Canlyniad 2022	Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
Nifer Llysgenhadon Eryri ar lefelau Efydd, Arian ac Aur	Cadw cofnod	Cynorthwyydd Ymgysylltu	0	Efydd: 669 Arian: 573 Aur: 513 Aur Adnewyddu: 153	Efydd: 900 Arian: 700 Aur: 600 Aur Adnewyddu: 250	Efydd: 813 Arian: 667 Aur 596 Aur Adnewyddu: 200	Po fwyaf o bobl sydd gennym fel Llysgenhadon po fwyaf y byddwn yn gallu lledaenu ein negeseuon allweddol a chyflawni ar draws ein holl ganlyniadau cyfathrebu. Ond yn benodol bydd hyn yn ein helpu i fesur y newid mewn pobl sy'n awyddus i gymryd rhan yn ein hymdrechion (Canlyniad 6) a pha mor ysbrydoledig yw pobl i roi o'u hamser i gefnogi ac amddiffyn Eryri (Canlyniad 8), yn ogystal â'r cynnydd mewn dealltwriaeth a'r math o ganfyddiadau cadarnhaol o'r gwaith a wnawn (Canlyniad 2).
Nifer yr erthyglau cyfryngau - digidol a thraddodiadol	Carma media	Y Pennaeth Ymgysylltu	**Ion-Rhag 2020:** 1,210 erthygl	Ion- Rhag 2021: 1,170 erthygl	n/a llwyfan monitro newydd wedi ei fabwysiadu	Ion-Rhag 2022: 36 mil erthygl (yn defnyddio llwyfan monitro cyfryngau)	Trwy amlygiad yn y cyfryngau mae gan bobl fwy o ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedlaethol, ei rinweddau arbennig a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ei wynebu (Canlyniadau 1,3 a 4); a gwell dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau APCE (Canlyniad 2).).
Nifer o gyfweliadau â'r	Comms log	Swyddog Cyfathrebu – C& Rh T		Ion- Rhag 2021: Ymgysylltu: 18		Ion- Rhag 2022: Ymgysylltu: 18	Trwy amlygiad yn y cyfryngau mae gan bobl fwy o ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedlaethol, ei rinweddau arbennig a'r heriau a'r cyfleoedd

Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu'r data a sut yr adroddir arno?	Gwaelodl in 2020	Canlyniad 2021	Targed 2022	Canlyniad 2022	Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
cyfryngau (fesul adran)				Cadwraeth ac Amaeth: 13 Wardeinio: 6 Aelodau: 4 Treftadaeth: 2 Rheolaeth: 3		Cadwraeth ac Amaeth: 14 Wardenio: 8 Aelodau: 3 Treftadaeth: 6 Rheolaeth: 3 Cynllunio: 4 Plas: 1	sy'n ei wynebu (Canlyniadau 1,3 a 4); a gwell dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau APCE (Canlyniad 2).
Nifer o staff ar gyfartaledd sydd yn derbyn cylchlythyr bob tro	Mailchimp	Cynorthwy-ydd Ymgysylltu	n/a	143 aelod o staff ar gyfartaledd	90	143	Mae'n mesur y gyfradd llwyddiant wrth sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr ac aelodau yn wybodus (Canlyniad 10).

Metrigau Adrannol

Eleni, gwnaethom hefyd ddadansoddi'r sylw cyfryngol ar draws y gwasanaethau yn y Parc Cenedlaethol. Gwnaethom hyn i sicrhau fod cefnogaeth gyfartal yn cael ei roi i bob adran. Mae'r graffiau'n dangos yr holl gyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg, cyfweliadau ar draws yr holl adrannau a phrosiectau/ materion traws adrannol ar gyfer bob chwarter. Roedd rhan ychwanegol ar wahân wedi ei greu i adlewyrchu natur draws adrannol y gwaith (Adran Wardeinio/ Eiddo ac Ymgysylltu).

Mae'r canlyniadau'n dangos fod adrannau sydd â phrosiectau gyda swyddog cyfathrebu ymroddedig yn medru cynyddu'r sylw cyfathrebu'n sylweddol. Mae'r data hefyd yn dangos fod y sylw'n is ar gyfer adrannau cynllunio a chorfforaethol, yn ogystal â Phlas Tan y Bwlch.




Ebrill- Mehefin
160
140
120
100
80
60
40
20
0
Ymgysylltu
Cadwraeth
Wardeinio
Cynllunio
Treftadaeth Ddiwylliannol
Corfforaethol
Rheolaeth Ymwelwyr
Plas Tan y Bwlch
Ymgysylltu
Cadwraeth
Prosiect Nos
LIFE
Wardeinio
Cynllunio
Corfforaethol/ Aelodau
Treftadaeth Ddiwylliannol
Plas Tan y Bwlch
Yr Ysgwrn
Rheolaeth Ymwelwyr


Gorffennaf- Medi
100
80
60
40
20
0
Ymgysylltu
Cadwraeth
Wardeinio
Cynllunio
Treftadaeth Ddiwylliannol
Corfforaethol
Rheolaeth Ymwelwyr
Plas Tan y Bwlch
Ymgysylltu
Cadwraeth
Prosiect Nos
LIFE
Wardeinio
Cynllunio
Corfforaethol/ Aelodau
Treftadaeth Ddiwylliannol
Plas Tan y Bwlch
Yr Ysgwrn
Rheolaeth Ymwelwyr


Hydref- Rhagfyr
80
70
60
50
40
30
20
10
0
Ymgysylltu
Cadwraeth
Wardeinio
Cynllunio
Treftadaeth...
Corfforaethol
Rheolaeth...
Plas Tan y Bwlch
Ymgysylltu
Cadwraeth
Prosiect Nos
Wardeinio
Cynllunio
Corfforaethol/ Aelodau
Treftadaeth Ddiwylliannol
Plas Tan y Bwlch
Yr Ysgwrn
Rheolaeth Ymwelwyr
LIFE

DOGFENNAU PERTHNASOL

- Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu- mae'r ddogfen gyfan yn cynnwys:
    - Dangosyddion Perfformoad ar gyfer y strategaeth hon.
    - Calendr cynnwys a gweithgarwch
- Polisi a chanllawiau Cyfryngau Cymdeithasol
- Protocol Cyfryngau
- **Llyfr Brand APCE**

ATODIAD 1

Arolwg Enw Da (bob 2 flynedd)

Mae'r arolwg enw da yn cael ei wneud bob 2 flynedd ac mae'r arolwg mwyaf diweddar wedi ei wneud yn 2021. Mae arolwg trigolion i fod i'w wneud eto yn 2023

Metrig	**Sut y byddwn yn mesur**	**Pwy fydd yn casglu'r data a sut yr adroddir arno?**	**Gwaelod lin 2020**	**Canlyniad2 021**	**Targed 2023**	**Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?**
% ymwybyddiaeth o statws y Parc Cenedlaethol.	Arolwg Ymwelwyr, Cymuned a Busnesau	Rheolwr Partneriaeth au	d/b	*Trigolion* Ia 95% Na 5% *Ymwelwyr* Ia 86% Na 13% Ddim yn gwybod 1%	*Trigolion::* Ia 96% Na 4% *Ymwelwyr* Ia 88% Na 11% Ddim yn gwybod 1%	Byddwn yn mesur lefel a % newid mewn ymwybyddiaeth o statws y Parc Cenedlaethol (Canlyniad 1)- yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd
Barn trigolion os yw dynodiad y Parc Cenedlaethol yn bwysig	Arolwg Trigolion	Rheolwr Partneriaeth au	n/a	Pwysig: 89% Ddim yn bwysig: 11%	Pwysig: 90% Ddim yn bwysig: 10%	Cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o fuddion y Parc Cenedlaethol (canlyniad 3)

Metrig	**Sut y byddwn yn mesur**	**Pwy fydd yn casglu'r data a sut yr adroddir arno?**	**Gwaelod lin 2020**	**Canlyniad2 021**	**Targed 2023**	**Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?**
% ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig Eryri a buddion y Parc Cenedlaethol.	Arolwg Ymwelwyr, Cymuned a Busnesau	Rheolwr Partneriaethau	n/a	*Trigolion:* *Tirweddau hanesyddol: 87%* *Tirweddau amrywiol: 85%* *Llonyddwch ac unigedd: 80%* *Yr iaith Gymraeg: 74%* *Hunaniaeth gymunedol: 74%* *Rhywogaethau a chynefinoedd: 73%* *Pensaerniaeth hanesyddol: 70%* *Hamdden: 66%* *Daeareg: 65%* *Y celfyddydau: 58%* *Lles: 38%* *Ymwelwyr:* Heb fesur	*Residents:* *Tirweddau hanesyddol: 87%* *Tirweddau amrywiol: 85%* *Llonyddwch ac unigedd: 80%* *Yr iaith Gymraeg: 74%* *Hunaniaeth gymunedol: 74%* *Rhywogaethau a chynefinoedd: 73%* *Pensaerniaeth hanesyddol: 70%* *Hamdden: 70%* *Daeareg: 70%* *Y celfyddydau: 65%* *Lles: 50%*	Byddwn yn mesur lefel a % newid ymwybyddiaeth mewn Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol (Canlyniad 3)- yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.

Metrig	**Sut y byddwn yn mesur**	**Pwy fydd yn casglu'r data a sut yr adroddir arno?**	**Gwaelod lin 2020**	**Canlyniad2 021**	**Targed 2023**	**Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?**
% yn cytuno bod APCE yn gwneud gwaith da ar	Arolwg yr iaith Gymraeg	Bethan Hughes	n/a	Cytuno: 60.7% Anghytuno: 14.3% Niwtral: 20.2%	Cytuno: 65% Anghytun o: 13% Niwtral: 18%	Bydd yn mesur dealltwriaeth a chanfyddiadau pobl o'r Awdurdod fel sefydliad dwyieithog (Canlyniad 2).
Safbwynt ymwelwyr ynghylch a ddylent addasu eu hymddygiad i leihau eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd.	Arolwg Ymwelwyr	Rheolwr Partneriaeth au	n/a	*Ymwelwyr:* Cytuno: 91% Anghytuno: 5%	*Ymwelwyr:* Cytuno: 93% Anghytun o: 3%	Byddwn yn mesur y newid yn nheimladau pobl o gyfrifoldeb personol a chyfunol i ofalu am y Parc (Canlyniad 5) ac ymdeimlad o barch a defnydd cyfrifol o'r Parc (Canlyniad 6).
Cyfraddiad ymwelwyr o ansawdd yr amgylchedd naturiol	Arolwg Ymwelwyr	Rheolwr Partneriaeth au	n/a	Cymedr: 9.59		Bydd yn mesur y newid yng nghanfyddiadau pobl o APCE fel sefydliad (Canlyniad 2)
Gwybodaeth a gwasanaeth a	Arolwg Ymwelwyr	Rheolwr Partneriaeth au	n/a	*Cymedr:* Aberdyfi: 9.34		Bydd yn mesur y newid yng nghanfyddiadau pobl o APCE fel sefydliad (Canlyniad 2)

Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu’r data a sut yr adroddir arno?	Gwaelod lin 2020	Canlyniad2021	Targed 2023	Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?
ddarperir yn safleoedd/canolfannau APCE				Llyn Tegid: 9.03 Beddgelert: 9.10 Betws y Coed: 8.71 Ogwen: 9.09		

EITEM RHIF 10

BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH MERCHER 16 TACHWEDD 2022	
	<u>**Yn bresennol:**</u> **Aelodau'r Bwrdd:** Y Cyng. Meryl Roberts, Mr. Tim Jones (Cadeirydd) Mr.Emyr Williams, Mr. Iwan Jones **Yn bresennol:** Y Cyng. Annwen Hughes, Cyng. Edgar W. Owen (ex-officio). **Swyddogion:** Sarah Roberts.
1 .	**Ymddiheuriadau**
	Ms. Tracey Evans, Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151, Sian Owen, Ms. Zara Roberts.
2 .	**Datgan Budd**
	Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.
3.	**Cofnodion**
	Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2022, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir. Yn codi wedi hynny, <u>5. Diweddariad Ariannol Plas Tan y Bwlch</u> Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod penodiad Rheolwr Arlwyo wedi bod yn llwyddiannus, ond roedd swydd y cogydd cynorthwyol yn dal yn wag hyd yn hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau, er nad oedd rhai penderfyniadau wedi'u gwneud yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd oherwydd absenoldeb rhai o Aelodau'r Bwrdd, dywedodd y byddai angen i'r Aelodau oedd yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd wneud penderfyniadau o hyn ymlaen yn hytrach na sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn bresennol.
4.	**Incwm a Gwariant Plas Tan y Bwlch ar gyfer 2022-2023**
	Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Tŷ i roi diweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa ariannol bresennol.

	Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd yn absenoldeb y Rheolwr Tŷ ac amlinellodd y prif bwyntiau. Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a gwneud y sylwadau a ganlyn:- - Ymddiheurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd wedi cael digon o amser i graffu'r adroddiad yn ei gyfanrwydd a gofynnodd i'r Aelodau nodi pwynt bwled 1.2 a dywedodd wrthynt fod y ffigur yn cynnwys ad-daliad cyfalaf ac o ganlyniad nad oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol wirioneddol. Dywedodd ymhellach nad oedd costau staff a thaliadau am wasanaethau cyfleustodau am weddill y flwyddyn ariannol wedi'u cynnwys yn y ffigurau. - Teimlai'r Prif Weithredwr er bod llawer o wybodaeth yn yr adroddiad nad oedd yn berthnasol i'r Bwrdd gan nad oedd yn nodi sut roedd y Plas yn perfformio ac a oedd y targedau ariannol yn cael eu cyrraedd ai peidio. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi gofyn i'r Pennaeth Cyllid baratoi dadansoddiad o'r sefyllfa ariannol i adrodd arno yn ystod y cyfarfod ond yn anffodus, nid oedd wedi gallu darparu'r ffigurau oherwydd salwch. Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a chytunwyd er ei fod yn cynnwys rhai ffeithiau diddorol, y dylai fod yn fwy strategol wrth symud ymlaen ac y dylai gynnwys dadansoddiad o dargedau a chyrsiau Gwely a Brecwast a'r holl brif ffynonellau busnes/incwm. Yn codi wedi hynny, trafododd yr aelodau'r adroddiad ymhellach a chytunwyd y dylid darparu'r wybodaeth briodol ar gyfer y grŵp yn yr adroddiad yn y dyfodol. Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gadarnhau'r Cylch Gorchwyl gydag aelodau'r Bwrdd. - Cytunodd yr Aelodau a'r Swyddogion eu bod o'r farn y byddai derbyn gwybodaeth am y lefelau deiliadaeth a'r ffigurau gwariant hefyd yn fuddiol ac felly gellid datrys unrhyw broblemau posibl ymlaen llaw. - Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Red Bull wedi derbyn cyfrifoldeb am y difrod a achoswyd ond nad oedd wedi talu am y difrod hyd yma. - Trafododd yr aelodau ymhellach y difrod a achoswyd gan Red Bull ac ystyriwyd yn ofalus a ddylent aros yn y Plas eto'r flwyddyn nesaf, cytunodd yr aelodau mai tynnu'n ôl o'r cytundeb gyda Red Bull oedd yr opsiwn a ffafrir ond cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol y peth gorau oedd sefydlu'r goblygiadau ariannol ac felly rhoi esboniad pam y collwyd incwm. - Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Red Bull wedi colli eu blaendal. Roedd yr aelodau'n bryderus petaent yn dychwelyd i'r Plas y flwyddyn nesaf, y gallai'r difrod a achoswyd fod yn llawer mwy sylweddol a'i fod yn ormod o risg. - Gofynnodd aelod a oedd staff y Plas yn bresennol yn ystod eu harhosiad. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Bwrdd fod Red Bull wedi cymryd yr adeilad drosodd yn ystod eu harhosiad a bod staff y Plas yn bresennol yn ystod y dydd ond nad oeddent yn gyfforddus i aros dros nos. - Trafododd yr aelodau ffynonellau incwm amgen ac a oedd cynnal mwy o briodasau yn opsiwn i gynhyrchu incwm ychwanegol a hyrwyddo'r Plas. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'n anodd dod o hyd i ffynhonnell incwm i gyd-fynd â'r incwm a wnaed gan Red Bull. - Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod cynnal a chadw'r system hydro wedi'i drosglwyddo i'r Adain Eiddo a chadarnhaodd, er nad oedd yn ymwybodol bod problemau o hyd gyda'r system hydro, y byddai'n ymchwilio i'r mater ac y byddai'n rhoi

diweddariad i'r Aelodau maes o law. Dywedodd hefyd er bod problemau gyda'r lifft o bryd i'w gilydd yr ymdrinnir â hyn fel gwaith cynnal a chadw arferol/ychwanegol ac nad oedd digon o arian ar gael i fuddsoddi mewn lifft newydd ar hyn o bryd o ystyried mai'r flaenoriaeth oedd gwella cyflwr allanol yr adeilad.

- Trafododd yr aelodau gyflwr presennol y gerddi a'r teras a'r hyn y gellir ei wneud i'w gwella gan ei bod yn drueni eu gweld yn y fath gyflwr. Roedd aelod yn bryderus y gallai rhywun gael ei frifo pe na bai dim yn cael ei wneud.
- Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o geisio cymorth gwirfoddolwyr i wella'r gerddi. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y gallai'r tîm llwybrau troed helpu i glirio'r llwybrau troed yn ystod misoedd y gaeaf ond nad oedd arian i wneud gwaith sylweddol ar y gerddi ar hyn o bryd gan mai creu busnes hyfyw yn y Plas oedd y brif flaenoriaeth ar hyn o bryd ond dywedodd y byddai'r Bwrdd yn cefnogi Rheolwr y Tŷ i geisio cymorth gwirfoddolwyr i wneud unrhyw waith sylweddol. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n werth cael y tîm Llwybrau Troed i wneud gwaith sylfaenol ar y llwybrau i leihau unrhyw risgiau diogelwch. Roedd y Prif Weithredwr yn bryderus efallai nad oedd y gwaith a wnaed ar y dreif yn y Plas bob amser yn ofynnol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod clirio'r dreif yn cymryd llawer o amser yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd bod dail yn cwympo a bod hwn yn fater Iechyd a Diogelwch sylweddol.
- Cynigiodd aelod ddod â chymorth grŵp cymunedol lleol y roedd hi’n ymwneud â nhw i glirio'r gordyfiant.
- Nododd y Prif Weithredwr baragraff 5.2 a gofynnodd a oedd achos busnes ar gyfer y staff arlwyo ychwanegol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Bwrdd y byddai incwm pellach wedi'i golli pe na bai'r staff arlwyo dros dro wedi dod i mewn.
- Roedd y Prif Weithredwr yn bryderus ei bod yn ymddangos bod incwm y flwyddyn nesaf yn cael ei osod yn erbyn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai'r ffigwr o £35,000 oedd yr incwm i ddod i mewn rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.
- Yn ateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y syrfëwr wedi dweud bod unrhyw arian grant yn dibynnu ar ddefnydd cymunedol o'r adeilad. Trafododd yr aelodau ffynonellau cyllid posibl a chynigiodd aelod siarad â'r Grid Cenedlaethol a oedd ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect yn Aber Afon Dwyryd i ofyn a fyddent yn hapus i ddarparu unrhyw gymorth ariannol i Blas Tan y Bwlch. Gofynnodd yr aelodau a oedd yn werth chweil gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru, Cadw a/neu Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn obeithiol y byddai cyllid ar gael oherwydd yr argyfwng ariannol presennol.
- Roedd yr aelodau o blaid derbyn adroddiad ar y cyd gan Reolwr y Tŷ a'r Pennaeth Cyllid a fyddai'n rhoi adroddiad llawer mwy cynhwysfawr i'r Bwrdd ac arwydd cliriach o berfformiad ariannol y Plas.
- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol er bod y Bwrdd wedi derbyn adroddiad ar y gwaith oedd angen ei wneud ar du allan yr adeilad y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd dderbyn adroddiad pellach gan y Pennaeth Eiddo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol.
- Teimlai Aelod mai'r ffordd ymlaen yn y tymor hir oedd datblygu partneriaeth bosibl gyda sefydliad gan fod dyfodol Plas Tan y Bwlch yn ansicr iawn fel yr oedd pethau.

	Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod. **GWEITHRED** **1. nodi cynnwys yr adroddiad.** **2. Rheolwr y Tŷ a'r Adain Gyllid i gyflwyno adroddiad ar y cyd ar sefyllfa ariannol bresennol y Plas.** **3. tynnu'n ôl o'r cytundeb gyda Red Bull a rhoi esboniad am y penderfyniad at ddibenion Archwilio.** **4. ystyried ffynonellau incwm posibl eraill.** **5. gofyn i'r Pennaeth Eiddo gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf Bwrdd Plas Tan y Bwlch i roi diweddariad i'r aelodau ar y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r gwaith adeiladu allanol.** **6. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ymchwilio i weld a oes problemau o hyd gyda'r System Hydro.** **7. Y Cyng. Meryl Roberts i drafod gyda'r Grid Cenedlaethol i weld a fyddent yn gallu darparu cyllid i Blas Tan y Bwlch.** **8. Swyddogion i ofyn i dîm llwybrau troed yr Awdurdod wneud gwaith angenrheidiol ar y llwybrau troed yn y Plas yn ystod misoedd y gaeaf os bydd capasiti'n caniatáu, er mwyn osgoi unrhyw faterion iechyd a diogelwch posibl ac i gefnogi Rheolwr y Tŷ pe bai hi'n penderfynu ceisio cymorth gwirfoddolwyr i wneud y gwaith helaethach ar y gerddi a'r teras.**

Daeth y cyfarfod i ben am 15.00 y.p.

BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH **DYDD MERCHER 8 CHWEFROR 2023**	
	<u>Yn bresennol:</u> **Aelodau:** Ms. Tracey Evans Mr. Tim Jones (Cadeirydd) Cyng. Meryl Roberts Mr. Emyr Williams Mr. Iwan Jones **Yn bresennol:** Cyng. Annwen Hughes (ex-officio) Cyng. Edgar Owen (ex-officio) **Swyddogion:** Mr. Dafydd Edwards, Ms. Nia Murray, Mr. David Williams, Mrs. Anwen Gaffey.
1 .	**Ymddiheuriadau**
	Ms. Zara Roberts
2 .	**Datgan Budd**
	Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.
3.	**Cofnodion**
	Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 16 Tachwedd 2022, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir. Yn codi wedi hynny, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y Pwyntiau Gweithredu. 3. ymdrinnir â mater sydd a wnelo Red Bull ar hyn o bryd. 5. roedd y Pennaeth Eiddo yn parhau i goladu'r data angenrheidiol parthed y gwaith adeiladu allanol. 6. roedd swyddogion yn parhau i fonitro'r System Hydro sy'n talu am ei gostau ac yn gwneud elfen o elw. 7. dywedodd Aelod fod y Grid Cenedlaethol yn cefnogi Rhaglen Grant Cymunedol hyd at £20k y gallai elusen fel “Cyfeillion Tan y Bwlch,” gael mynediad ato. 8. roedd y tîm llwybrau troed wedi gwneud rhywfaint o waith yn y gerddi yn ddiweddar.

4.	**Adroddiad Incwm/Gwariant Plas Tan y Bwlch**
	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad yn absenoldeb Rheolwr y Tŷ. Gofynnwyd i’r aelodau nodi:- - Yr oedd Para.1.3 yn cyfeirio at fod rhai gwaith strwythurol fel “gwariant diangen” yn nhermau busnes ond yn angenrheidiol o safbwynt iechyd a diogelwch. - Para. 2.1 – cadarnhaodd y Swyddog Cyllid bod data incwm pellach i'w fewnbynnu. - Para. 3.2 - bu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn trafod priodoldeb diystyru'r incwm o £20k ar gyfer galw cyfarfodydd Awdurdod o'r ffigurau. Dywedodd y Swyddog Cyllid fod yr elfen hon hefyd wedi'i heithrio o'r gyllideb ac am y rheswm hwnnw roedd y gorwariant yn parhau i fod yn £77,695. Yn codi wedi hynny, trafododd yr Aelodau a’r swyddogion y canlynol:- - dywedodd y Prif Weithredwr er bod gwasanaethau eraill wedi gallu cynyddu incwm a lleihau costau i gwrdd â heriau llymder yn y gorffennol, roedd Plas Tan y Bwlch wedi'i chael hi'n anodd. Y gyllideb broffiliedig wreiddiol ar gyfer y Plas oedd cyflawni o fewn cost sylfaenol o tua £60k. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn darparu £280k i gynnal Plas Tan y Bwlch a bydd hwn yn cynyddu ymhellach yn 2023/24. Yn ogystal, bydd costau cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw adeiladwaith yr adeilad, y lifft a’r materion yn Llyn Mair. Gan fod angen i'r Awdurdod nodi ychydig dros £1 miliwn o arbedion yn 2023/24, gofynnodd y Prif Weithredwr a oedd yr Aelodau'n hyderus y gallai Plas Tan y Bwlch weithredu o fewn ei gyllideb, gan fod costau o £300k - £400k yn cynrychioli bron i hanner her ariannol yr Awdurdod. - Cytunodd yr Aelodau bod angen ateb pam, fel Awdurdod Parc Cenedlaethol, y dylem barhau i reoli Plas Tan y Bwlch. - dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod y pandemig covid, yr argyfwng costau byw, a lefelau uchel o chwyddiant oll wedi creu heriau mawr i Blas Tan y Bwlch, fel yn achos busnesau tebyg yn y sector. - dywedodd y Prif Weithredwr, yn wahanol i gyrff cyhoeddus eraill, nad oes gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol unrhyw fecanweithiau statudol i gynyddu eu cyllid refeniw, ac er ei fod wedi gallu gwneud arbedion yn ystod cyni, nid oedd unrhyw opsiynau fel y cysyniad o ‘dorri salami’ ar gael iddo bellach. - gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol weithio gyda'u swyddogion i baratoi adroddiad opsiynau gyda'r costau rhagamcanol, i'w ystyried mewn cyfarfod arbennig o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch yn ddi-oed. Yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill 2023. - fel rhan o'r asesiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Hochtie wedi mynegi diddordeb mewn prydlesu adeilad yr Anecs yn ei gyfanrwydd. Byddai hyn yn golygu costau ychwanegol i'r Awdurdod i ddarparu nwy a thrydan, gwasanaethau glanhau ac ati, yn ogystal ag ymrwymo i gadw'r ganolfan ar agor am 5 mlynedd arall. Amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y risgiau o barhau â model busnes o'r fath, gan gofio anawsterau recriwtio a chadw staff, costau cynnal a chadw adeiladau a phroblemau ychwanegol gyda gwenyn yn yr atig. Cadarnhaodd nad oedd Hochtie wedi gwneud unrhyw ymrwymiadau cadarn hyd yma, a'i fod yn ddelfrydol yn chwilio am eiddo a oedd yn agosach at wasanaethau mewn tref neu bentref. - gofynnodd y Cadeirydd am Gofrestr Risg ar wahân ar gyfer Plas Tan y Bwlch. - rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddiweddariad i'r Bwrdd ar faterion staffio ym Mhlas Tan y Bwlch. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Adnoddau Dynol am gamu i'r adwy a chyflenwi yn ystod salwch yn absenoldeb y Pennaeth Busnes. Cynghorodd, yn ystod ei chyfnod yn y Ganolfan,

	roedd y Pennaeth Adnoddau Dynol, wedi cael gwybod am rai cwynion, ac yn dilyn cyngor arbenigol, roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r strwythur adrodd ac roedd y materion a godwyd yn cael sylw. - dywedodd y Prif Weithredwr y gofynnir i'r Aelodau ystyried pwysau cyllidebol yr Awdurdod ochr yn ochr â gwerthuso opsiynau ar gyfer Plas Tan y Bwlch. - cytunodd y Prif Weithredwr a'r Bwrdd i beidio ag ymestyn yr asesiad er tegwch i'r staff, a fydd yn cael eu hysbysu drwy gyfarfodydd staff rheolaidd. - cytunodd y Cadeirydd fod yn rhaid i'r Awdurdod werthuso a yw gweithgareddau ym Mhlas Tan y Bwlch yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. **GWEITHRED** **1. nodi'r adroddiad.** **2. disgwyl am adroddiad manwl gydag opsiynau ar gyfer y dyfodol, i'w baratoi gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a swyddogion perthnasol.**
5.	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
	Galw cyfarfod arbennig o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar 22 Mawrth 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25

EITEM RHIF 11

ADRODDIAD CYFARFOD Y GRŴP RHEOLI ASEDAU A GYNHALIWYD AR 30 TACHWEDD 2022

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd
Cynghorwyr June Jones, Meryl Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru
Mr. Brian Angell, Ms Tracey Evans, Mr. Tim Jones;

Yn Bresennol (ex-officio)
Cynghorwyr Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen;

Swyddogion
Mr. Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones, Mr. Edward Jones, Mrs. Anwen Gaffey.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.

1. **Ethol Cadeirydd**
   PENDERFYNWYD ethol Mr. Tim Jones yn Gadeirydd y Grŵp Rheoli Asedau am y flwyddyn i ddod.
   Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Ymddiheuriad**
   Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd.

3. **Datganiad Budd**
   Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

4. **Cofnodion**
   Yn amodol ar gywiro'r cofnod Cymraeg trwy ddileu'r geiriau "*gwneud hynny"* ym mharagraff olaf *Eitem 5,* derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2021 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

5. **Diweddariad ar y Cynllun Rheoli Asedau**
   Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo i roi diweddariad ar gynnydd y Cynllun Rheoli Asedau.

   Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo'r adroddiad a'r Atodiadau, a thrafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol yn fanwl:-
   - mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod ynglŷn â Chronfa Ddŵr Llyn Mair (Atodiad 1), cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo i edrych i mewn i gyllid posib gan Lywodraeth Cymru i dalu costau gosod y syphon, sef yr elfen olaf yn adroddiad y Peiriannydd Goruchwylio. Nododd yr aelodau fod y risg yn risg sydd a wnelo isadeiledd yr A487, a chadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo fod y ddwy gronfa, Llyn Mair a Llyn y Dywarchen yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo fod gan yr Awdurdod tan fis Tachwedd 2023 i gwblhau'r gwaith.
   - cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo fod rhagolygon costau Plas Tan y Bwlch, a amlinellwyd ym mhara. 2.1.3, ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ffabrig yr adeilad ac adnewyddu mewnol ac nid oedd yn cynnwys y ffin a ffyrdd mynediad. Cadarnhaodd hefyd, gan fod gan berchnogion y cabanau lesau hir iawn, mai'r Awdurdod fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y tiroedd o amgylch y cabanau

gwyliau. Teimlai'r aelodau y byddai'n ddefnyddiol cael amcangyfrif o'r hyn a ddisgwylir o ran cynnal a chadw ac arfer da ar y stad, er mwyn darparu ffigwr cyfanswm.

- yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod lleoliad y cabanau hefyd yn lleihau gwerth cyffredinol Plas Tan y Bwlch.
- cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo fod Cronfeydd Wrth Gefn Rheoli Asedau'r Awdurdod, y cyfeiriwyd atynt ym mhara. 2.1.5 o'r adroddiad, yn rhan o gronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod ac yn cael eu dal ar gyfer prosiectau penodol. Bydd y Cronfeydd Wrth Gefn yn cael eu defnyddio i wneud gwaith hanfodol i wneud yr adeilad yn ddiogel ac atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi cymeradwyo trosglwyddo £480k i'r Cronfeydd Rheoli Asedau o warged incwm maes parcio 2020/21.
- Nododd yr aelodau hyd nes y bydd swyddogion yn gwybod y costau terfynol yn y Plas, ni fyddant yn ymrwymo i'r gwaith, gan fod costau'n codi'n gyflym. Roedd y Pensaer Cadwraeth a'r Tirfesurydd yn parhau i ymgynghori â Cadw ynglŷn â'r cynnydd tebygol mewn costau pe na bai capio plwm yn cael ei ganiatáu a bod angen carreg newydd ar yr anecs cefn.
- mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyflwr Hafod Eryri, adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo fod archwiliad diweddar wedi dangos nad oedd unrhyw ddirywiad pellach i ffabrig yr adeilad. Roedd cynllun cynnal a chadw hirdymor yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd a byddai'n cynnwys y gwaith ail-bwyntio rheolaidd a'r opsiynau ar gyfer gosod ffenestri newydd ac ati. Dywedodd fod yr Awdurdod mewn sefyllfa ffodus bod cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru wedi'i neilltuo i ariannu'r gwaith presennol, a fyddai'n lleddfu pwysau cyllidebol.
- <u>Portffolio Asedau Eiddo </u>– mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo i roi diweddariad i’r Cynghorydd Annwen Hughes ar y cais cynllunio yng Nghoed Hafod y Bryn, Llanbedr.
- Argymhellodd yr Aelodau y dylai swyddogion ddarparu rhaglen dreigl 5 mlynedd+ wrth baratoi cynllun cynnal a chadw cyllidebol, i roi trosolwg o'r costau a ragwelir a chryfhau gallu'r Awdurdod i sicrhau bod cyllid ar gael.
- Argymhellodd yr aelodau y dylai swyddogion sefydlu system goleuadau traffig wrth adolygu'r Portffolio Asedau yn seiliedig ar y gost, lefel y risg, ac a yw'n cwrdd â phwrpasau’r Parc Cenedlaethol. Bydd Swyddogion yn cyflwyno adroddiad pellach i'r Aelodau ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rheoli Asedau.
- Cytunwyd mewn cyfarfod blaenorol y dylid adolygu tariffau meysydd parcio unwaith y daw pandemig Covid i ben. Roedd yr aelodau'n ymwybodol y gallai'r cynnydd mewn chwyddiant a'r argyfwng costau byw gael effaith ar allu'r cyhoedd i fwynhau'r awyr agored a chytunwyd y dylai ffioedd parcio aros fel y maent ar gyfer eleni. Byddai hyn yn ddarostyngedig y ceir cadarnhad ynghylch ffigwr setliad grant Llywodraeth Cymru.
- Nododd yr Aelodau a'r Swyddogion fod y Cynllun Rheoli Asedau newydd yn seiliedig ar bolisi cyfredol ac y dylid ei ystyried fel rhan o eitem nesaf ar yr Agenda 6 – Polisi a Strategaeth Rheoli Asedau.

PENDERFYNWYD

1. **nodi'r cynnydd a wnaed gydag arolygon cyflwr a datgarboneiddio'r Ystâd.**
2. **y bydd y Cynllun Rheoli Asedau newydd i'w ystyried o dan Eitem 6 - Polisi a Chynllun Rheoli Asedau, isod.**
3. **Bydd datgarboneiddio yn cynnwys arbed ynni ac effeithlonrwydd yn rhan ganolog o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd.**
4. **paratoi cynllun cynnal a chadw cyllidebol tymor hir ar gyfer adeiladau a strwythurau allweddol trwy greu rhaglen dreigl 5 mlynedd+.**
5. **cynnal adolygiad llawn o'r Portffolio Asedau a sefydlu system goleuadau traffig i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rheoli Asedau.**

6. **galw cyfarfod is-grŵp pellach ym mis Chwefror/Mawrth 2023 i adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau newydd.**
7. **yn ddarostyngedig y ceir cadarnhad o setliad grant Llywodraeth Cymru, gohirio'r adolygiad o brisiau parcio ceir am 12 mis arall.**

6. **Polisi a Strategaeth Rheoli Asedau**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo i'r Aelodau ystyried Strategaeth ddrafft i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo'r adroddiad a'r cefndir. Nododd yr aelodau fod Archwilio Cymru wedi gofyn i Lywodraeth Cymru baratoi strategaeth rheoli asedau fel rhan o'u cynllun rheoli asedau ac yn unol â hynny roedd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo wedi creu strategaeth ddrafft ar gyfer yr Awdurdod, yn seiliedig ar strategaethau rheoli asedau a baratowyd gan gyrff eraill megis Llywodraeth Cymru, i'r Aelodau ei hystyried. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod y strategaeth ddrafft wedi'i dosbarthu i'r Penaethiaid Gwasanaeth i gael eu sylwadau a dim ond un sylw a dderbyniwyd mewn perthynas â phara. 3.9, yn argymell bod blaenoriaethau incwm masnachol yn bodloni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Gan fod y sylw penodol hwn yn gyfeiriad penodol at Blas Tan y Bwlch, yr oedd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo wedi rhoi gwybod am yr angen i gadw'r strategaeth yn gyffredinol.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr adroddiad, a chytunwyd:-

- mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli, y dylid ail-grwpio'r strategaeth rheoli asedau ddrafft yn amcanion "SMART", a chynnwys pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ar ddechrau'r strategaeth.
- teimlai'r Prif Weithredwr y gellid rhannu'r strategaeth yn dri chategori:-
  - pwrpas yr ased,
  - egwyddorion ar gyfer rheoli'r ased, a
  - sut y dylid blaenoriaethu'r asedau.
- bod blaenoriaethau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnwys yn y strategaeth. Nododd Aelod (para. 2.1 ii) nad oedd pob risg yn ymwneud â chodi cyfalaf neu godi arian.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac aros am fersiwn derfynol o'r strategaeth i'w chyflwyno i'r Awdurdod i'w mabwysiadu.

Daeth y cyfarfod i ben am 14.35